ECO'R WYDDFA

Rhif 109 RHAGFYR 1985 Pris 20c

CYFARCHION Y TYMOR

Cofiwch y bydd un rhifyn arall cyn y Nadolig. Daw allan o'r Wasg Nos Iau, Rhagfyr 19. Felly ohebwyr pentrefi. Byddwch yn barod gyda'ch deunydd nos Fawrth Rhagfyr 10

FFUG EISTEDDFOD BRO ECO'R WYDDFA

Nos Wener, 7fed o Chwefror am 7.30 yn Ysgol Brynrefail Llanrug

Beirniad: R. Alun Evans, B.B.C., Bangor
Arweinydd: Deiniol Hughes, Caeathro

Ydi, ar ôl cyfnod o ddwy flynedd, mae'r eisteddfod ffug yn ei hôl! Mae'n amlwg o'r holl holi a fu ynglŷn â'r eisteddfod fod nifer ohonoch wedi gweld ei heisiau fis Chwefror diwethaf. Wel, dyma'ch cyfle. Daeth y tymor gwirion heibio! Dyma'r cyfnod y bydd pobl barchus y fro yn anghofio'u parchusrwydd ac yn dechrau bwrw ati yn eu pentrefi i ymarfer eu doniau dwl. A'r uchafbwynt – yr eisteddfod ei hun ym mis Chwefror a'r brwydro am Darian Banc y Midland a'r teitl Pentref Gwirionaf y Fro. Dyma'r rhaglen: pob hwyl gyda'r paratoadau.

RHAGLEN

CYSTADLAETHAU LLWYFAN

1. Sioe Ffasiynau: Dillad addas ar gyfer tri aelod o'r teulu brenhinol
2. Cryg adrodd i gyfeiliant 'catarrh' (Caeth neu rhydd)
3. Grŵp Roc Pensiynwyr
4. Deialog: Sut i beidio ymweld â chlaf
5. Cystadleuaeth consurio
6. Perfformiad meddw (**Actio** yn unig)
7. Uchafbwynt y noson! Perfformiad o ffilm ddistaw. (Caniateir defnyddio cerddoriaeth fel cefndir)

CYSTADLAETHAU BARDDONLLYD A LLETHOL

8. Cerdd: 'Streic yr Athrawon'
9. Parodi ar 'Eifionydd' (R. Williams Parry) neu 'Aberdaron' (Cynan)
10. Gwynfydau Cyfoes
11. **Y Bedol Ryddiaith**: Llythyr caru oddi wrth un anifail i'r llall

ADRAN CLOFF O GREFFT

12. Unrhyw gyfrwng. Anrheg Foliant i unrhyw berson o'ch dewis.
13. Cartŵn: Agored

ADRAN BRO'R ECO AR WASGAR

14. Deg rheswm pam na ddof byth yn ôl i fyw i fro'r Eco

Gosodir cystadleuaeth llinell goll noson yr eisteddfod.
Unrhyw fanylion pellach cysylltwch â'r Trefnydd:
Miriam Hughes, 'Yr Allt Deg', Cwm-y-glo, Caernarfon (Ffôn: 870416)

PWYSIG

Cyfansoddiadau Rhif 8,9,10,11,13 a 14 i fod yn llaw y Trefnydd erbyn dydd Sadwrn Ionawr 25.
Cystadleuaeth 12 (Anrheg Foliant) i'w beirniadu ar y noso,.

CYFARCHION AC APÊL

Unwaith eto eleni bydd rhifynnau Rhagfyr a'r Nadolig yn cynnwys cyfarchion oddi wrth fusnesau'r fro. Diolch iddynt oll, ac yn arbennig yr hysbysebwyr rheolaidd am gefnogi'r papur. Gobeithio'n fawr y byddwch chi'r darllenwyr yn eu cefnogi hwythau hefyd.

Mae'r Trefnydd Hysbysebion yn chwilio am rywun i'w helpu gyda'r gwaith pwysig o gasglu hysbysebion. Daw 40 y cant o incwm Eco'r Wyddfa oddi wrth hysbysebion ac mae'r baich o'u casglu wedi mynd yn ormod i un. Dylai unrhyw un sydd â'r amser (tua diwrnod y mis) ac sy'n dymuno cael hyfforddiant dan law brofiadol, gysylltu â John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 5605). Mae'r gwaith yn ddiddorol ac yn hanfodol i ffyniant y papur.

DATBLYGIADAU AR GYFER RHAGOR O YMWELWYR YN LLANBERIS

Edrych tua'r gogledd: Gorsaf Trên yr Wyddfa sydd ar y chwith.

Edrych tua'r dwyrain

Canolfan Ymwelwyr Llanberis — Lluniau o fel y gwêl y penseiri y pentref yn y dyfodol. Stori'n llawn a rhagor o luniau ar y tudalennau canol.



Mynedfa'r siopau a'r terasau. (Trowch i dud 14 a 15)

LLOSGI BWTHYN GWYLIAU YM MHENISARWAUN

Dim ond cragen Tŷ Coch Hir Bach sy'n sefyll ar ôl y tân ddydd Mercher, Tachwedd 20. Grŵp o fyfyrwyr sydd biau'r tŷ ac yn ôl rhai o'r trigolion lleol, fe'i defnyddient fel bwthyn gwyliau yn achlysurol. Ar yr un diwrnod roedd dirgelwch ynglŷn â thanau mewn dau dŷ cyffelyb yn ne Cymru.

ECO'R WYDDFA

RHIF 109
RHAGFYR 1985

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION: Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis 870 733).

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg **RHAGFYR 19**

Deunydd i law'r golygyddion perthnasol **NOS FAWRTH RHAGFYR 10** os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

PWY SY'N DATHLU?

Annwyl Olygydd,

Caniatewch i mi, drwy gyfrwng eich papur, ofyn i'ch darllenwyr a oes dathliad o unrhyw fath ar ddigwydd yn eich bro. Carwn yn fawr gael gwybod am ben-blwyddi personau arbennig, sefydliadau, cymdeithasau, capeli, eglwysi, clybiau neu unrhyw ddathlu arall sy'n debyg o ddigwydd yn ystod y deunaw mis nesaf.

Cysyllter ag
Idris Charles,
HTV,
Y Ganolfan Deledu,
Canolfan Dinesig,
Yr Wyddgrug,
Clwyd CH7 1YA.

Yr eiddoch yn gywir,
Idris Charles.

GWYBODAETH AM TRH

Annwyl Olygydd,

Yr ydym yn casglu defnyddiau'n ymwneud â T. Rowland Hughes ar gyfer cyfrol yn y gyfres Bro a Bywyd. *Tybed a oes gan rai o'ch darllenwyr luniau (neu unrhyw ddogfennau diddorol eraill) yn ymwneud â'r nofelydd, ei berthnasau a'i gyfeillion? Buasem yn hynod ddiolchgar o glywed am luniau o'r fath, ac yn falch o gael caniatâd i wneud copïau ohonynt ar gyfer y gyfrol.*

Yn gywir iawn,
John ac Eluned Rowlands.
Dôl Bebin,
Rhydypennau, Aberystwyth.

DIOLCH YMWELYDD IECHYD

Annwyl Gyfeillion,

Hoffwn drwy gyfrwng yr Eco ddatgan fy niolch i bawb a ddangosodd gymaint o garedigrwydd tuag ataf yn ystod y bedair mlynedd y bûm yn gwasanaethu fel Ymwelydd Iechyd Cylch Deiniolen. Bu'n gyfnod hynod ddiddorol a phleserus, teimlaf fy mod wedi elwa yn bersonol a phroffesiynol o weithio yn yr ardal. Mawr obeithiaf fy mod wedi cyfrannu rhywfaint tuag at hybu iechyd yn ogystal â datrys ambell i broblem o fewn ffiniau'r fro.

Dymunaf bob hapusrwydd i'r holl ardalwyr.

Yn ddiffuant,
Jane Jones
Gladwyn,
Llanrug.

CYMDEITHAS YMGYRCH GENEDLAETHOL Y GALON CANGEN CAERNARFON

Dymuna'r pwyllgor ddatgan eto eleni eu gwerthfawrogiad o'r haelioni amlygwyd tuag at y mudiad yn yr ardaloedd.

Yn ystod y noson goffi a gynhaliwyd ar Hydref 29 gwnaethpwyd elw o tua £250 a chyflwynwyd siec am £3,500 i Mr Houseman y Trefnydd dros Gymru. Casglwyd yr arian yma drwy weithgarwch y Pwyllgor a hefyd amryw o gyrff a Sefydliadau lleol eraill yn ystod y flwyddyn.

Gellir, os dymunir, archebu cardiau Nadolig Cymraeg sy'n noddi'r Mudiad oddi wrth **Mrs Mai Parry, Bryn Heli, Llanrug (Ffôn Caernarfon 4385).**

Hefyd, os oes unrhyw un yn awyddus i ymgysylltu â'r mudiad mewn unrhyw ffordd, cysyllter â'r ysgrifennydd **Mrs J. Whittaker, Lynton, Ffordd Bangor, Caernarfon. Ffôn: Caernarfon 2497.**

Diolch i holl blant, mamau a charedigion ardaloedd Bethel, Llanddeiniolen, Penisarwaun, Brynrefail, Deiniolen a Dinorwig.

DIOLCH AM EICH CYFRANIAD

Ein diolch am gyfraniad gwerthfawr i Mrs Marina Williams, Didfa, a'r teulu yn y gwaith pwysig o ddosbarthu Eco'r Wyddfa'n fisol. Bu Mrs Williams yn aelod ffyddlon o dîm mawr yr Eco o ddechreuad y papur.

AR WERTH

Radio Cassette a Radio: Ffôn: 870695.

PARATOI AR GYFER Y GAEAF

Y dyddiau yma mae 'na ias bendant yn yr awyr, ac mae Dŵr Cymru yn annog eu cwsmeriaid i amddiffyn eu heiddo yn erbyn y rhew caled cyntaf.

Gŵyr amryw ohonom yn y fro hon am drafferthion a chost pibellau dŵr yn torri, felly buasai'n gall gweithredu mawr er mwyn osgoi cael ein dal gan dywydd oer sydyn ac annisgwyl.

Dyma gynghorion buddiol:

* Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble mae eich tapiau atal a'u bod yn gweithio'n iawn.
* Sicrhewch fod y pibellau yn y groglofft, y garej ac unrhyw adeiladau y tu allan wedi eu hinsiwleiddio'n ddigonol.
* Cadwch rew allan drwy ddileu drafftiau ond, er mwyn diogelwch, cofiwch fod angen cyflenwad digonol o aer ar danau a boilerau sy'n llosgi tanwydd.
* Gwnewch nodyn o rif ffôn plymar y gellir dibynnu arno rhag ofn y byddwch ei angen ar frys.

Mae insiwleiddio yn bwysig iawn, ond yr amddiffyniad gorau yn ystod cyfnodau hir o dywydd oer yw cadw'r tŷ mor gynnes ag sy'n bosib.

MEDAL SYR THOMAS PARRY-WILLIAMS ER CLOD, 1986

Rhoddir y fedal uchod i gydnabod ac anrhydeddu gwasanaeth gwirfoddol a nodedig a gyflawnwyd dros nifer helaeth o flynyddoedd ymhlith pobl ifainc mewn ardal neu gymdogaeth, yn arbennig trwy weithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gwahoddir enwebiadau ar gyfer y fedal sydd i'w cyflwyno yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 1986.

Y mae ffurflenni enwebu a manylion pellach i'w cael oddi wrth y Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol, 10 Park Grove, Caerdydd CF1 3BN, (Ffôn: 0222) 394120) a dylid eu dychwelyd erbyn Ionawr 31ain 1986.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI GWAIR

E. PUGH

WELDING & FABRICATING

32 GLANFFYNNON

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .

Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

Cefn

CEFNOGWYR Y GYMRAEG

Cychwynnodd Eleri Carrog o'r Bontnewydd, ger Caernarfon, ddeiseb i gefnogi Cyngor Sir Gwynedd ar ôl penderfyniad Tribiwnlys Bae Colwyn a ddyfarnodd fod y Cyngor Sir wedi ymddwyn yn hiliol tuag at ddwy wraig ddi-Gymraeg. Yn y ddeiseb yr oedd y llw: "Yr wyf yn tyngu o hyn ymlaen i fynnu siarad fy mamiaith â swyddogion a gweithwyr cyrff a chwmnïau cyhoeddus yng Ngwynedd fel rhan o'm hawl naturiol."

Y gobaith i ddechrau oedd cael o leiaf gant o enwau, ond gymaint fu'r ymateb nes bod dros 7,000 o enwau ar y ddeiseb pan aeth Eleri a Nan Morgan, o Langefni, â hi i'w dangos i Mr Fazlun Kalid, pennaeth swyddfa Birmingham o'r Comisiwn Hiliol wythnos yn ddiweddarach.

AR Y TRÊN

Penderfynodd y ddwy ar y trên ar y ffordd adref y dylai fod ganddynt grŵp o gyfreithwyr y gallai unrhyw un droi ato, yn ddi-dâl, pe bai'n teimlo nad oedd yn cael chwarae teg fel Cymro Cymraeg. Bu Eleri ar y ffôn â nifer o gyfreithwyr y diwrnod canlynol i wneud y cais. Cytunodd pob un a chafwyd cyfarfod cyntaf y panel yr un wythnos. Yr wythnos ddilynol lansiwyd mudiad a'i alw'n cefn, sef Cefnogwyr y Gymraeg, yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Rhyl mewn pabell a ddaeth yn rhydd ar y funud olaf.

Er nad oedd y babell mewn safle amlwg bu'n brysur drwy'r wythnos gyda Lis Roberts a Carwen Iwan yn cynorthwyo Eleri. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus grymus ar y dydd Gwener dan gadeiryddiaeth I.B. Griffith gyda Gwyn Jones, Dafydd Orwig, Gwilym Prys Davies ac Eleri Carrog yn annerch. Roedd cefnogaeth frwd i'r mudiad newydd ac erbyn diwedd yr wythnos roedd 586 wedi ymuno â Cefn a thros fil ychwanegol o enwau ar y ddeiseb.

GWYNEDD

Galwyd cyfarfod cyhoeddus i'r aelodau yng Ngwynedd ganol Medi, a chodwyd Pwyllgor Llywio i Cefn yng Ngwynedd a dau weithgor – un i fod yn gyfrifol am wylio awdurdodau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r llall i ymdrin â statws y Gymraeg yng ngweithgareddau cwmnïau ac adrannau sy'n ymwneud â'r cyhoedd. Y mae'r ddau weithgor wedi dechrau gweithredu ac mae llawer o gŵynion o annhegwch tuag at siaradwyr Cymraeg wedi dod i sylw'r mudiad yn yr wythnosau diwethaf.

Bydd Cefn yn sefydlu gweithgorau lleol a Phwyllgorau Sirol trwy Gymru yn ystod yr wythnosau nesaf. Eisoes mae gan y mudiad brif swyddfa yn Rhes Segontium, Caernarfon.

YMUNWCH Â CEFN

Mae Cefn yn fudiad a rwygodd ei ffordd i'r byd yn hytrach na chael ei eni'n dawel. Picell annealltwriaeth Tribiwnlys Bae Colwyn yn trywannu'r tarw llonydd Cymreig a'i gynddeiriogodd.

Mae'r ddeiseb a darddodd o'r gynddaredd ac sy'n dangos penderfyniad dros 8,000 o bobl i fynnu siarad Cymraeg fel hawl wedi troi'n fudiad gydag aelodau ymhob rhan o Gymru erbyn hyn.

Amcan Cefn yw uno a rhoi cefnogaeth i bawb sydd am fynnu i siaradwyr Cymraeg gael yr un hawliau â siaradwyr Saesneg yng Nghymru – dim mwy a dim llai. Mae'n fudiad di-drais a'i aelodaeth yn agored i siaradwyr Cymraeg heb wahaniaethu yn ôl plaid nac enwad nac oedran. Cyffredin ac ysgolhaig, mae lle iddynt yn Cefn.

Mae Cyngor Sir Gwynedd am ddarparu gwasanaeth yn newis iaith yr un sy'n derbyn y gwasanaeth ond yn ôl Tribiwnlys Bae Colwyn nid oes gennym hawl i ddisgwyl cael siarad Cymraeg mewn cartrefi henoed yng Ngwynedd. Dangosodd inni ein cadwynau ac mae hyn wedi cynhyrfu miloedd ohonom i beidio â chyfaddawdu. Pan fo'r ffurflen yn uniaith Saesneg ac angen ein harian – ei gwrthod. All y siopau ddim ein gorfodi i brynu pethau drwy'r Saesneg. Os nad oes croeso clywadwy a gweladwy i Gymry Cymraeg mewn siopau – gadewch iddynt fyw hebddoch.

SEFYLLFA ISRADDOL

Oherwydd ein bod wedi derbyn y sefyllfa israddol ers blynyddoedd, mae meddwl sefyll yn ddigyfaddawd yn ymddangos yn rhywbeth chwyldroadol. Ond ystyriwch am funud . . .

Pe bai'r Almaen wedi goresgyn Lloegr a mynnu mai'r Almaeneg fyddai'r iaith swyddogol, beth fuasai agwedd y Saeson? Ydych chi'n meddwl, ddeugain mlynedd ar ôl eu goresgyn, y byddent yn llwfr dderbyn ffurflenni uniaith Almaeneg, siopau gydag arwyddion uniaith Almaeneg, cartrefi hen bobol i Saeson gydag Almaenwyr uniaith yn eu staffio, swyddfeydd post yn y brifddinas yn gwrthod un cownter i rai sy'n mynnu siarad yr iaith genedlaethol? 'Chreda'i byth!

CEFN I'N GILYDD

Un peth yw sefyll ar eich pen eich hun. Daw'n llawer haws o wybod eich bod yn un o griw mawr sy'n fodlon sefyll ochr yn ochr. Dyna ystyr y mudiad, inni fod yn gefn i'r Gymraeg ac yn gefn i'n gilydd.

Ymunwch â ni yn awr. Wnaiff neb arall achub ein hiaith drosom. Llenwch y ffurflen isod ac anfonwch unrhyw gyfraniad y gellwch ei fforddio. Cewch wahoddiad i'r cyfarfod cyhoeddus sydd agosaf atoch. Os bydd gennych gŵyn neu sylw cofiwch anfon.

Dyma'r cyfle; manteisiwch arno.

Hoffwn ymuno â Cefn

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

.....

Rhif ffôn ..... Cyfraniad .....

Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn/mewn (rhowch dic)
Awdurdodau lechyd Gwasanaethau Cymdeithasol
Statws i'r iaith Addysg Y gyfraith

Arall (manylwch) .....

Anfoner at Cefn, 8 Rhes Segontium, Caernarfon, Gwynedd.

CARDIAU NADOLIG YR URDD

Mae Urdd Gobaith Cymru wedi cyhoeddi dau gerdyn Nadolig, i'w gwerthu i godi arian i'r mudiad.

Cynlluniwyd y cardiau gan Meirion Roberts, Bae Colwyn. Mae'r ddau gerdyn yn cynrychioli dau wersyll yr Urdd.

Ar un cerdyn gwelir llun o hen blas Glan-llyn gyda rhai o weithgareddau'r gwersyll ac adeiladau newydd. Yn y cefndir mae Aran Benllyn.

Ar y cerdyn arall gwelir y Garreg Bica sy'n nodwedd ar draeth Llangrannog lle daw miloedd o blant Cymru i nofio pob haf.

Mae'r cardiau hyn ar werth yn awr am 10c yr un neu 95c am 10 gan eich Swyddog Datblygu lleol neu drwy'r post am £1.15 o Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth, Dyfed (090 3744 a 3745)

Prynwch becyn neu ddau i gefnogi'r Urdd yn awr.

Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn, Llanuwchllyn

Gwersyll yr Urdd, Llangrannog, Dyfed

GWOBR AM DDARLLEN

Y wobr arbennig i'r tîm buddugol yn Rownd Genedlaethol y Cystadlaethau Llyfrau Cymraeg i ysgolion cynradd yn 1986 fydd taith chwe diwrnod i Odense yn Nenmarc i ymweld â chartref ac Amgueddfa Hans Christian Andersen ynghyd ag ymweliadau i leoedd eraill yn gysylltiedig â'r awdur plant byd enwog.

Cynhelir y Rownd Genedlaethol ym mis Mehefin 1986 a threfnir y gystadleuaeth gan Ganolfan Llenyddiaeth Plant Cymru. Cyflwynir y wobr hon gan Gwmni Teithio D.F.D.S. Am fanylion pellach ynglŷn â'r gystadleuaeth cysylltir â: Canolfan Llenyddiaeth Plant Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Dyfed.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

ARWERTHIANT: Bu'r arwerthiant gynhaliwyd yn Festri Pontrhythallt yn llwyddiant mawr. Dymuna chwiorydd yr eglwys ddatgan eu diolchgarwch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth trwy anfon nwyddau ac arian tuag at yr ymdrech arbennig at waith yr eglwys. Agorwyd yr arwerthiant gan Mrs Gillian Morris, Annedd Wen.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Gyda'r Parch John Morris, B.D. yn llywyddu, cafwyd noson ddiddorol iawn gyda'r Parch Erfyl Blainey yn rhoi hanes ei daith gerdded tros Glawdd Offa er budd codi arian tuag at undeb McMillan yn Ysbyty Bryn Seiont.

Diolchwyd i'r siaradwr gan y Parch W.O. Roberts a Mrs J.W. Williams, Bod Fair.

CRONFA CANCR Syr Malcolm Sargeant i Blant: Dymuna aelodau lleol o Gôr Ysbyty Gwynedd ynghyd â staff Clinig Llanberis ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y Noson Goffi a gynhaliwyd yn y Clinig ar Hydref 30ain. Hoffem ddiolch yn arbennig i blant Ysgol Gynradd Llanrug am y rhodd o'u casgliad Diolchgarwch. Daeth cyfanswm y gweithgareddau a'r rhoddion i £350. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio drwy'r gronfa uchod.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Richard Evans, 9 Afon Rhos ddiolch i'w dau fab, Elwyn a Gwynfor am drefnu parti iddynt i ddathlu eu priodas Ruddem ar Hydref 19. Dymunant ddiolch hefyd i bawb a anfonodd gardiau ac anrhegion iddynt.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Ar nos lau, Tachwedd 7 cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yng Nghapel Mawr. Llywyddwyd y cyfarfod a chymerwyd y rhannau defosiynol gan Mrs Gillian Morris. Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer y Ffair Nadolig sydd i'w chynnal ar nos lau, Rhagfyr 5 yn festri Capel Mawr. Ni werthir tocynnau ar gyfer y ffair eleni, felly gwneir apêl am gefnogaeth. Rhoddwyd y te gan Miss Meirwen Roberts, Mrs Jeannie Parry a Mrs Jean Davies.

BEDYDD: Bore Sul, Tachwedd 3 bedyddiwyd Gwenno Lloyd Jones, merch fach dau fis oed Mr a Mrs Ifan Wyn Lloyd Jones, gan y gweinidog y Parch Gareth Edwards yng Nghapel Bethesda M.C. yr Wyddgrug. Y mae Gwenno yn wyres i Alan a Medwen Lloyd Jones, Lleuar Bach, Pontllyfni ac yn wyres Mrs Mary Lloyd Williams. Y mae Gwenno hefyd yn wyres i Mr a Mrs Robert Price, Talwrn, Llangefni.

LLONGYFARCHIADAU: i Miss Jane E. Jones, Gladwen, Ffordd yr Orsaf ar ei phenodiad yn Swyddog Addysg lechyd gyda chyfrifoldeb arbennig am addysgu ynglŷn â chyffuriau. Bu Jane yn Ymwelydd lechyd yn ardal Deiniolen yn ystod y bedair blynedd diwethaf.

SUL Y CADOEDIAD: Cynhaliwyd gwasanaeth coffa yn y Neuadd Goffa fore Sul Tachwedd 10. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parch Aled Jones Williams a'r Parch John Morris. Cymerwyd rhan hefyd gan Fand Llanrug a chanwyd yr Ŵys Olaf gan Mr Dyfed Jones a Mr John Tame.

CYFARFOD LLENYDDOL: Cyfarfu Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr Llanrug ar nos Wener, Tachwedd 15. Y llywydd oedd Mr Eifion Roberts a chroesawodd ef Barti Clychau'r Grug i agor y Gymdeithas. Cafwyd noson ddifyr iawn yn eu cwmni. Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt gan Mrs Nansi Lovatt.

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Dilys Jones sydd wedi ennill Gwobr Tungston British Telecom am ei gwaith fel Warden Hafan Elan. Y mae Mrs Jones yn un o ddeuddeg a wobrwywyd ym Mhrydain. Roedd trigolion Hafan Elan, fel pawb arall, yn falch iawn o glywed am lwyddiant eu warden.

APÊL SGANIWR CORFF CYFAN I YSBYTY GWYNEDD: Y mae swyddogion Capel Mawr, Pontrhythallt a Than-y-coed yn awyddus iawn i gefnogi'r apêl uchod. Bydd cyfle i aelodau'r eglwysi i gyfrannu tuag at yr achos teilwng hwn hyd ddiwedd Ionawr 1986. Dylid anfon pob rhodd at drysoryddion yr eglwysi. Hyderir yn fawr y bydd ymateb teilwng i'r cais hwn.

GWELLHAD: Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed fod Mrs Evans, Lloc wedi syrthio pan oedd yn aros gyda'i theulu yn ddiweddar. Derbyniodd driniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd a deallwn ei bod yn cael ei symud i Ysbyty Gwynedd. Dymunwn iddi wellhad buan.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Iwan a Gwenda Roberts, Penydyffryn, Tal-y-bont ar enedigaeth eu mab, Geraint, brawd bach i Gwion.

NOSON GOFFI: Cynhaliwyd noson goffi yn yr Ysgol Gynradd nos lau, Tachwedd 14. Y mae'r elw a wnaethpwyd yn mynd tuag at MENCAP sydd yn achos teilwng iawn.

CAPEL MAWR: Gwasanaethau'r Nadolig: Bore Sul, Rhagfyr 22 am 10 o'r gloch bwriedir cynnal gwasanaeth Nadolig y plant yng Nghapel Mawr. Fel fydd y gweinidog y Parch John Morris yn annerch y plant. Hefyd am 5.30 o'r gloch fe gynhelir gwasanaeth carolau y Gymdeithas Lenyddol. Llywyddir y gwasanaeth hwn gan y Parch Aled Jones Williams. Dewch i gefnogi'r gwasanaethau uchod!

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen leol yn Ysgol Gynradd Llanrug nos Fawrth Tachwedd 12 o dan lywyddiaeth Llywydd y Gangen Mrs Bethanne Williams.

Daeth cynulliad da ynghyd a threuliwyd noson ddiddorol yn gwrando ar y gŵr gwadd Mr Aled Eames yn sgwrsio am 'Longau a Llongwyr'.

Dangosodd Mr Eames luniau diddorol o longau hwylio, yn eu mysg longau oedd yn hwylio o Gei Caernarfon, yn cario llechi i'r Amerig – chwe wythnos o fordaith, a dychwelyd yn cario coed. Ymysg lluniau llongau yr oedd un llong o'r enw 'Lightening' oedd ar un adeg yn un o longau cyflymaf y byd. Ganwyd tri o'i chapteiniaid o gylch y Foel.

Diddorol hefyd oedd lluniau gwahanol gapteiniaid a gwragedd a phlant capteiniaid. Nid peth anghyffredin oedd i wraig a hyd yn oed blentyn capten ymuno ag ef ar fordaith.

Byddai'r llongau yn ddolen gyswllt rhwng Cymry Alltud a Chymru.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Mr Eames gan Miss Phyllis Ellis.

Cyfeiriodd y Llywydd at waeledd Mrs Dorothy Williams a Mrs Ceinwen Roberts. Anfonwyd cofion a dymuniadau da'r gangen atynt gan ddymuno adferiad buan iddynt. Cafwyd adroddiad o Gyngor Cenedlaethol Merched y Wawr a gyfarfu yn Aberystwyth ar Dachwedd 2 gan yr ysgrifennydd Mrs Nancy Lovatt.

Cynrychiolwyd y gangen yn Aberystwyth gan Mrs Lovatt a Mrs Joan Griffiths yr is-ysgrifennydd.

Terfynwyd y cyfarfod gyda phaned o de wedi ei pharatoi gan Mrs Ann Evans, Miss Phyllis Ellis a Mrs Myfanwy Parry.

Diolchwyd i'r gwragedd gan Mrs Katie Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 10 'Noson o rannu a blasu danteithion' fydd hi.

LLONGYFARCHIADAU i David Williams, Y Berllan, ar ennill y darian yn Sioe Flodau Penygroes am ei flodau Mihangel (Chrysanthemums). Cafodd ddwy wobr gyntaf, tair ail ac un drydedd. Mae ei dŷ gwydr yn werth ei weld.

Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i'r Seindorf a ddiweddodd flwyddyn tra llwyddiannus ar uchafbwynt yng Nghei Cona ddydd Sadwrn Tachwedd 23. Hwy ddaeth i'r brig gyda 190 marc yng nghystadleuaeth Adran B allan o bump seindorf – gan ennill cwpan Alves (Gogledd Cymru). Trigai Mr Elliott Alves ym Mryn Bras yn ystod chwarter cyntaf y ganrif hon a bu'n noddwr hael i'r Seindorf ac ardal Llanrug. Mewn ffordd, roedd y cwpan yn dod adref am gyfnod.

DRAENOG

'Mi geisiaf eto ganu cân'.

Ond y tro nesaf, triwch 'i chanu hi mewn tiwn bois bach!

Am be' dwi'n sôn? Wel llythyr bach neis, neis ar bapur pêl blŵ ddaeth i'r tŷ 'cw y d'wrnod o'r blaen yn rhoi gwahoddiad i mi a'r musus fynd i wrando ar gyngerdd wedi ei drefnu gan Gyfeillion Cerdd Ieuenctid Gwynedd yng Nghaernarfon. Plant ysgolion cynradd ac uwchradd ardal yr 'Eco' fydd yn perfformio, yn ôl y gwahoddiad, i "ddangos gwaith y tymor yma."

Mewn saith brawddeg o wahoddiad roedd pymtheg o gamgymeriadau sillafu, cam-dreiglo a cham-ddefnydd o'r Gymraeg. Rydw i bron â mentro yno i gael gweld sut beth ydi "lluniath" a "cynnws". Efallai mai rhyw ddarnau cerddorol modern ydyn' nhw. A gobeithio'n wir fod digon o doiledau yno, oherwydd mae'r plant i gyd "yn rhydd"!

Ond chwarae teg rŵan: ella 'mod i'n gneud brîf allan o demi-semicwefar, a'r miwsig sy'n bwysig, nid yr iaith. Ella wir, ond yn y fersiwn Saesneg o'r un gwahoddiad, doedd dim un camgymeriad.

PWNSH A PEI

Cynhelir Noson o Garolau, 'Pwnsh a Pei yn Neuadd yr Eglwys Llanberis nos Wener, Rhagfyr 20 am 7.30. Yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa.

Os dymunwch ymuno, ac os oes angen trafnidiaeth rhowch eich enwau i Mr Gwilym Rees Parry, Morannedd, Rhes Hermon.

310 BRAIDWOOD AVENUE
PETERBOROUGH
ONTARIO
CANADA K9J IV6

Oherwydd amgylchiadau neilltuol, ni allwn anfon cardiau Nadolig unigol eleni, ond dymunwn:
"NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA"
i'n cyfeillion oll yn nalgylch yr 'Eco'.
Moi a Mair Parry

DIOLCH: Dymuna Mrs Doris Pleming, 12 Maes Gwylfa, Deiniolen ddiolch o galon i gymdogion Bryn Moelyn a chyfeillion yn Llanrug am y caredigrwydd a gafodd tra bu'n aros gyda'r mab a'i briod yn ddiweddar. Diolch arbennig i'r meddygon a'r nyrsus lleol am eu gofal di-flino.

EISTEDDFODOL: Llongyfarchiadau i Gruffydd Idwal Williams, Disgwylfa, Ffordd yr Orsaf ar ddod yn gydradd gyntaf yn y gystadleuaeth cyfansoddi dawns werin ar gyfer plant Ysgolion Uwchradd yn yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghas Llwchwr yn ddiweddar. Mae Idwal wedi ennill ar y gystadleuaeth hon yn yr Ŵyl unwaith o'r blaen ac wedi dod yn ail ar achlysur arall. Mae hefyd wedi ennill ar gyfansoddi dawns yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

DYMUNIADAU DA: Ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr a buan i Hefin Pritchard. Bryn Moelyn ac hefyd i Llion ei fab fu'n cael triniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar.

CLWB CANT: Enillwyr Tachwedd: 1. Gwyndaf Hughes, 2. Mrs Olwen Llywelyn.

RHAI DDYDDIADAU I BOBL LLANRUG EU COFIO YM MIS RHAGFYR

3, Mawrth: LLANRUG: Cinio Nadolig y Pensiynwyr yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

5 lau: Ffair Nadolig Cymdeithas y Chwiorydd Capel Mawr.

10, Mawrth: LLANRUG: Merched y Wawr – Noson o 'Rannu a Blasu Danteithion'.

14 Sadwrn: Cinio Nadolig y Seindorf yng Ngwesty'r 'Waverley', Bangor.

22, Sul: LLANRUG: Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10.00 a.m. yng Nghapel Mawr.

Gwasanaeth Carolau y Gymdeithas Lenyddol am 5.30.

Brysiwch!
Archebwch eich
TWRCI NADOLIG
a'ch
CYW IÂR
a PHOB MATH O GIGOEDD ERAILL
YN AWR
gan
Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO!

Mynnwch y gorau a dewch atom ni!

ECO'R IFANC

Hyd yn hyn, mae'r dudalen hon wedi ceisio rhoi sylw i'r agweddau gorau yng ngweithgareddau plant a phobl ifanc y fro. Yn anffodus mae digwyddiadau o fewn y mis diwethaf wedi ein gorfodi i ymateb drwy amlygu gweithgareddau tra gwahanol eu naws. Mae'r lluniau a ddangosir yn nodweddiadol o'r math o ddifrod sy'n hagru ein pentrefi. Beth bynnag fo'r rheswm, mae problemau FANDALIAETH, YMDDYGIAD DI-CHWAETH, AROGLI GLUD a hyd yn oed CYFFURIAU ar gynnydd yn yr ardal. Nid bwriad yr 'Eco' yw pardduo cymeriad ieuenctid y fro – ein dyletswydd yw ceisio lliniaru'r broblem drwy apelio at gydwybod y rhai sy'n gyfrifol.

Yn yr ysgol neu'n chwarae triwant? Gartref gyda chwi? Yn y Clwb Ieuenctid? Neu allan yn crwydro'r strydoedd? Yn anffodus, mae'n ymddangos mai allan yn crwydro'r strydoedd yr oedd cyfran helaeth o ieuenctid y fro yn ystod wythnos olaf mis Hydref; wythnos a gyrhaeddodd ei phen-llanw gyda digwyddiadau Nos Galan Gaeaf, ac a dywalltodd ymlaen dros y Sul i Noson Tân Gwyllt.

Mae'r cyfnod hwn o'r flwyddyn yn draddodiadol yn dymor y direidi diniwed, ond eleni aeth pethau dros ben llestri. Gydol yr wythnos bu criwiau o blant ifanc yn eu harddegau yn creu trafferthion yng ngwahanol bentrefi'r fro, a bu cwyno cyffredinol gan y cyhoedd am yr ymddygiad. Bu difrodi ar eiddo, a dychryn henoed yn eu cartrefi. Mewn amryw o achosion bu'n rhaid galw am gymorth yr heddlu.

Yn sgîl y twrw a'r terfysg hwn, mae fandaliaeth ar gynnydd. Eisoes cyhoeddwyd yn yr 'Eco' sylwadau gan Gynghorau Cymdeithas Llanddeiniolen a Llanrug eu pryderon am y difrod a wneir i eiddo cyhoeddus. Oherwydd y gost, nid yw Cyngor Llanrug bellach yn trwsio cysgodfannau bwsiau sydd wedi eu difrodi gan fandaliaid. Mae perygl i'r ciosg coch ddiflannu oddi ar ein strydoedd oherwydd fandaliaeth, ac fel y gosodir blychau melyn di-do yn eu lle: y rheini i fod yn abl i wrthsefyll fandaleiddio.

Gosodir y bai am yr holl helyntion hyn ar ysgwyddau'r heddlu, a chlywir y gŵyn yn aml nad oes plismon i'w weld o gwmpas ein pentrefi. Ond mewn cyfnod lle mae'r Llywodraeth yn brygowtha byth a hefyd am gyfraith a threfn, mae prinder plismyn, a hynny, nid oherwydd diffyg ymgeiswyr am y swyddi, ond oherwydd diffyg arian i'w cyflogi. A'r hyn nad yw llawer o bobl yn ei sylweddoli, wrth gwrs, yw fod plismon heddiw yn gweithio 'rota' a all gynnwys dau neu dri pentref dan ei oruchwyliaeth. Ac mae i blismon hawl i'r oriau hamdden fel pawb arall.

Yn yr un modd gwelir bai ar yr ysgolion, ac am ddiffyg disgyblaeth. Yn sicr, mae'r gweithredu diwydiannol diweddaraf wedi creu anniddigrwydd ymhlith y disgyblion, ond ni ellir beio'r athrawon a'r ysgolion am y cynnydd mewn fandaliaeth. Yn anffodus, mae'r heddlu a'r athrawon yn begiau rhy handi i hongian y bai am bob diffyg cymdeithasol bellach.

Rhaid edrych yn nes adref, a dyna ddod yn ôl at destun yr erthygl hon. Wyddoch chi ble roedd eich plentyn chi neithiwr? Wyddoch chi i ble mae o neu hi yn mynd heno? Os nad ydych chi wedi meddwl, wel gofynnwch, ac ystyriwch yr ateb. Mae'n ymddangos fod plant mor ifanc â naw, deg ac unarddeg oed yn cerdded y strydoedd mor hwyr â naw a deg o'r gloch y nos. Oes synnwyr mewn hynny?

Ers tua blwyddyn, sefydlwyd panel Atal Troseddau yn Arfon. Mae'n cael ei gynnal yn ariannol gan y Swyddfa Gymreig, a dyma'r cynllun cyntaf o'i fath yn Arfon. Mae cynlluniau tebyg eisoes wedi bod yn gweithredu mewn rhannau o Loegr. Mae aelodaeth y Panel yn cynnwys yr heddlu, arweinyddion ieuenctid, y Gwasanaeth Lles, yr Awdurdod Addysg ac aelodau o'r cyhoedd. Y gŵyn gyffredinol o bob rhan o Arfon yw'r ffaith fod fandaliaeth ar gynnydd. O ganlyniad i hyn, mae'r Panel wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio prosiect yn ymwneud â fandaliaeth. Bydd holiadur yn cael ei anfon i holl ddisgyblion ysgolion uwchradd Arfon i ofyn eu barn ynglŷn â fandaliaeth. Bydd eu hymateb i'r holiadur yn cael ei ddefnyddio i geisio ateb y broblem.

Yn y cyfamser, mae'r heddlu yn awyddus i wybod am unrhyw achosion o fandaliaeth sy'n digwydd yn yr ardal. Os oes unrhyw aelod o'r cyhoedd yn gweld eiddo cyhoeddus neu breifat yn cael ei ddifrodi, yna dylent ffonio'r heddlu **ar unwaith** (Caernarfon 3333) gan roi enwau'r fandaliaid os yn bosibl, neu ddisgrifiad ohonynt. Os oes achos difrifol yn digwydd, yna dylid ffonio 999 ar fyrder.

BLE ROEDD EICH PLANT CHWI PAN DDIGWYDDODD HYN?



BARN

"Mae'r sefyllfa wedi mynd bron yn annioddefol yn ddiweddar."

"Ydy'r rhieni yn gwybod beth mae'r plant 'ma yn wneud tybed?"

"Mae'r genod yn llawn cyn waethed â'r hogia' yn fy marn i!"

"Rwyf ofn cau'r llenni gyda'r nos – rhag ofn."

"Mae iaith rhai ohonynt yn warthus – does dim ots ganddyn' nhw!"

"Mae'r sefyllfa wedi mynd o ddrwg i waeth – mae'n rhaid gwneud rhywbeth!"

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP

Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

Mae mwy o ddewis nag erioed gan

JOHN A ROBERT A GRIFFITH

Y STORFA

SGWÂR LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau, Diodydd, Glan Sirdar, Patrymau, Gweill Aero
ARCHEBWCH EICH TEGANAU AT Y NADOLIG, YN CYNNWYS BEICIAU BMX

Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos Wener a 9.30 - 12.30 fore Sul

Archebwch dros y ffôn – fe'i danfonwn at eich drws

CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

Hannah, Brenhines Carnifal Llanberis 1985-86 a gweddill y teulu Rudkin



The Tea Shop - Llanberis

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth bawb yn y

Gwynedd Hotel

& Restaurant

LLANBERIS 870203

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

ROYAL VICTORIA HOTEL

GWESTY BRENHINOL VICTORIA
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

oddi wrth

WESTY BRENHINOL VICTORIA LLANBERIS

FFÔN: LLANBERIS 870253

CYFARCHION Y TYMOR

i bawb yn yr ardal

oddi wrth

TRÊN BACH LLYN LLANBERIS



Maxelle's

(Perchnogion Mr a Mrs M. Thomas)

Stryd Fawr

Llanberis 871427

Dewis rhagorol o ddillad hamdden, eitemau ategol a gemwaith.
Anrhegion Nadolig delfrydol,

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll
oddi wrth

JONES & CARR

Contractwyr Adeiladu

Aelyglyn

Llanberis

Ffôn: 871551 neu 871463

Gwesty Erw Fair

Llanberis 870238

Cyfarchion y tymor i bawb oddi wrth Mike a Kim Bishop. Byddwn ar agor trwy gydol mis Rhagfyr ar gyfer partïon Nadolig ac ati

Ar agor hefyd ar gyfer cinio dydd Nadolig. Ffoniwch, os gwelwch yn dda, am fanylion ac i sicrhau lle. Croesewir teuluoedd yn arbennig

SIOPAU COED

STRYD FAWR

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

Stryd Fawr

Llanberis 870501

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

Ifor a Margaret

Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

SEREN

STRYD FAWR
LLANBERIS
871060

BWYDYDD IACHUSOL
FFRWYTHAU A
LLYSIAU
YN FFRES O'R
FARCHNAD

Dymuna Barbara, Peter a Glyn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lwyddiannus i gwsmeriaid hen a newydd

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

Brad a Jennifer

Sea Fresh Chip Shop

Stryd Fawr
LLANBERIS
870425

Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Byddwch gynnes a chlyd yn nhywydd garwaf y gaeaf hwn! Efo'n

* sanau a sweaters trwchus
* dillad thermal
* capiau a menyg gwlân
* cotiau ac esgidiau dal dŵr

i gerddwyr, ffermwyr ac ati, 'does dim esgus ichi wlychu na rhynnu.

Profwch rinweddau anhygoel ein sweaters a siacedi HELLY HANSEN FIBRE PILE. Yn gynnes fel tost, gellir eu golchi mewn peiriant ac maent yn para am hydoedd. Cafodd rhai rhieni fod y cotiau plant wedi gwneud i ragor na dau blentyn.

Cofiwch – i ddringwyr a llawer mwy!

ROBERT GARTSIDE B.Sc.,M.P.S.

FFERYLLYDD
COMPTON HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 870264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

GWERTHWR SWYDDOGOL

Persawriau SORTILAGE, LENTHERIC, YARDLEY, MAX FACTOR

Ffilmiau a chamerau AGFA, KODAK, a FUJI

Dewis da o winoedd a gwirodydd

Gwasanaeth datblygu a phrintio ffotograffau am brisiau cystadleuol

NADOLIG LLAWEN I BAWB!

joe brown

CLIMBING & CAMPING EQUIPMENT SPECIALIST

Ffôn: LLANBERIS 870327

Hefyd yng NGHAPEL CURIG (tu cefn y Post)
069 04 205

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

MWY O GYFARCHION O LANBERIS

MYRA'S

44A STRYD FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 872361

Dymuna Mr a Mrs Starkey, Nigel ac Alicia Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cwsmeriaid, hen a newydd

CARDIAU, ANRHEGION, MELYSION, SIGARETS, HUFEN IÂ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

STRYD FAWR

LLANBERIS

870328

CYNLLUNWYR GWALLT YN ARBENIGO MEWN TORRI

Beth am ddechrau'r flwyddyn newydd gyda perm yn ein SÊL IONAWR

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Vera, Haydn a John

SIOP CHIPS

SNOWDON VALLEY

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870659

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

D & E

Dinorwig House

LLANBERIS 870300

Dewch atom ar gyfer anrhegion Nadolig i bawb o'r teulu. Nwyddau ffansi, Cardiau Nadolig, Papur Lapio etc.

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU AM 1986
oddi wrth
W. J. DAVIES

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn 870225

A.A. R.A.C. M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Alwen Roberts

Y SIOP WLÂN

38 STRYD FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 870772

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod fy mlwyddyn gyntaf

Dafedd Lister, Patons, Twilleys
Dillad Merched a Phlant

Dymuna Mervyn, Jill a Helen Jones

CASTLE GIFT SHOP

LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid. Diolch ichi am eich cefnogaeth

Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Wil a Gavin

W.G. ALLSUP

Storfa Gig Glan Padarn

LLANBERIS 870319

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

SIOP DILLAD

R.G. WILLIAMS

A'I FAB

LLANBERIS a CHWM-Y-GLO

Y LLE DELFRYDOL
I BRYNU ANRHEG
NADOLIG I'CH
ANIFEILIAID ANWES

THE PET TRADE ASSOCIATION
PTA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

GARTH MAELOG
PET CENTRE

51 STRYD FAWR
LLANBERIS 870840

GLEN'S FOOTWEAR

Stryd Fawr
LLANBERIS 871470

Dymuna Glen a Wil ddiolch i'w holl gwsmeriaid am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

H.E. HUGHES
a'r MEIBION

Ffôn: 870444

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Mr a Mrs Shipley a'r Staff
Siop Spâr

PADARN STORES

Llanberis 870150

Rydym newydd agor mewn pryd i'ch diwallu ar gyfer y Nadolig!

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb
yng nghwmni bysus

K.M.P.
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870880

Archebwch eich
CACENNAU NADOLIG
RŴAN! Oddi wrth

HEATHER JONES

7 Stryd y Ffynnon
LLANBERIS
Ffôn: 872569

Hefyd teisennau eraill
o bob math –
unrhyw faint a siâp

Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



SNOWDON
MOUNTAIN RAILWAY

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

BRYSIWCH I GAEL EICH
TEGANAU, SIOCLED, CARDIAU NADOLIG Etc.
YN SIOP
GWYNETH ROBERTS
LLANBERIS 870491

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH
BECWS ERYRI
STRYD FAWR
LLANBERIS 870491
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

DYMUNA CLEDWYN PARRY
GLAN Y DON
STRYD FAWR
LLANBERIS
870301
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'w ffrindiau a chwsmeriaid oll

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
PETE'S EATS
40 STRYD FAWR
LLANBERIS
...
Ar agor 9-6.30
Llun-Gwener
8-8 Sadwrn a Sul

Y Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)

Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w ddewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis.

ROAD AND CAR
Taste of Britain Awards

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Padarn Lake Hotel
Perchnogion
Terry a Val Skilki
STRYD FAWR
LLANBERIS
870260

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn y gwesty

---

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn
Llanberis a'r Cylch
oddi wrth

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS.
Ffôn: 870202

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Rhowch anrheg **lleol** eleni
o siop
FFYN A CHERRIG
(Sticks & Stones)
Stryd Fawr
Llanberis
Crefftau, Fframio Lluniau, Raciau
Llythyrau, Cwpanau, Tarianau etc.
Platiau efo'ch hoff lun arnynt
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Carol a Gwil

LLANBERIS

Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)

GWAU I'R ANGHENNUS: Yn ystod misoedd yr haf bu aelodau Undeb y Mamau yn brysur yn gwau a chrosio plancedi a dillad i'r anghennus yn Ethiopia. Erbyn mis Gorffennaf roeddent wedi g wau 17 o flancedi, 12 o gotiau a siwtiau bach a chasglu £21.70. Llongyfarchiadau i'r aelodau am dorchi eu llewys ac estyn eu dwylo dros y môr.

Gwau at yr anghennus yn Ethiopia.

PRIODASAU: Llongyfarchiadau i Glenda, merch Mr a Mrs Owen Roberts, Idan House ar ei phriodas ag Alan Williams, o Fethel ar Dachwedd 16. Ein dymuniadau gorau i'r pâr ifanc.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Lily Aubrey Williams, merch Owen Williams, (Now Nant), Avon Terrace, ar ei phriodas yn Llundain.

NOSON 'PWNSH A PEI': Cynhelir noson o Garolau yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 nos Wener, Rhagfyr 20 pryd y ceir Pwnsh a 'Mince Pies'. Os ydych angen cludiant cysylltwch ag aelodau'r Cwmni Drama neu ffonio 871267 (Miss Marion Davies), 871561 (Mrs Jane Roberts). Pris tocyn fydd £1 ar werth gan aelodau'r cwmni neu yn Siop Eryri a Siop Wlân Alwen. Yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa.

CRONFA CANCER Syr Malcolm Sargeant i Blant: Dymuna aelodau lleol o Gôr Ysbyty Gwynedd ynghyd â Staff Clinig Llanberis ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y Noson Goffi yn y Clinig, Hydref 30. Daeth cyfanswm y gweithgareddau a'r rhoddion i bron £400.

Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio drwy'r Gronfa uchod er budd plant Cymru sydd yn diodde' o Gancer, Leukaeimia a'r afiechyd Hodgkins. Diolch o galon i bawb.

CANU AR RAGLEN TREBOR: Mwynhâd llwyr oedd gweld a chlywed Rhian, merch Olwen ac Alwyn Owen, 15 Stryd Siarlot, yn canu ar raglen 'Trebor' nos Sul Tachwedd 17. Pleser oedd gwrando ar ei sgwrs â Trebor Edwards. Gobeithiwn yn fawr iawn y caiff ei huchelgais o ymuno â Chwmni Opera Cymru ei wireddu. Llongyfarchiadau calonnog Rhian.

CYFARFOD Y PLANT: Bore Llun y Diolchgarwch cafwyd gwasanaeth dymunol a gafaelgar iawn yn Nant Padarn wedi ei drefnu gan athrawon yr Ysgol Sul, ac ymgymerwyd â'r rhaglen yn gyflawn gan y plant.

Gwahoddwyd pawb i ddiolch gan David, ac yna gwahoddwyd anrhegion i'r Bwrdd Diolch gan Sharon a chyfrannwyd yn helaeth mewn ffrwythau a blodau gan yr oll o'r plant. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan:
Hayley, Aurona, Sali, Dawn, Nicola, Julie, Cai, Marc, Llifon, Trystan, Euron, Dylan, Daryl, Bryn, Geraint, Shôn, Gethin, Llifon, Manon, Jasa, Llifon, Alwyn a Derfel.

Diolchwyd i Mrs R.H. Owen a Mrs Clara Roberts am drefnu'r cyfan, gan Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan.

DIOLCH: Dymuna Gracie Roberts, Waterfall View, ddiolch am bob caredigrwydd i Salesbury tra yn yr ysbyty ac iddi hithau yn ei phrofedigaeth, y llu cardiau, a'r swm anrhydeddus tuag at Gronfa'r Sganner Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

Y CYNGOR CYMUNED: Llongyfarchiadau i Mr Gwilym Wyn Roberts, 15 Maes Padarn ar gael ei ethol ar y Cyngor Cymuned.

DYMUNIAD AM ADFERIAD IECHYD: Dyna yw ein dymuniad i Mrs Olwen Jones, 7 Rhes Fictoria wedi iddi dderbyn triniaeth lawfeddygol i dynnu ei 'phendics' allan yn Ysbyty Gwynedd.

Rydym yn falch iawn o ddeall fod rhai o'r pentrefwyr wedi dychwelyd gartref o'r ysbyty ac yn gobeithio y byddwch yn parhau i wella:

Mr William Hughes, Stryd yr Wyddfa, Mr Gareth Jones, Llainwen Isaf, Manon Lloyd Williams, Graianfryn, Mrs Awen Addie, Goleufryn, Stryd Newton, Mrs Mair McConnell, 7 Maes Derlwyn, Mrs Mary Thomas, Plas Pengwaith (gynt o 14 Pant Du).

Gobeithiwn y gorau i Mrs Enid Roberts, 56 Maes Padarn sydd yn Ysbyty Gobowen.

BABI NEWYDD: Llongyfarchiadau i Meira a Dafydd Price, Cabs Padarn ar enedigaeth merch fach, Ann Louise, chwaer fach i Darren a Shane.

Llongyfarchiadau i Keren, merch Ken ac Eryl Williams, KMP, ar enedigaeth mab bychan.

Mrs Megan Owen, Maes Padarn. Anfonwn ein cyfarchion a'r dymuniadau am wellhad i'r rhai sy'n diodde' gartref hefyd: Mrs Jennie Thomas, Stryd Turner, Mrs Denness Hughes, Tan-y-pant ac amryw o rai eraill hefyd.

ORGANYDDES AM DROS 50 MLYNEDD: Wedi gwasanaeth hir a di-flino fel organyddes yng Nghapel Coch fe ymddeolodd Mrs Betty Rees Evans, Rhes Minafon. Ein llongyfarchiadau calonnog, ein diolch diffuant a'n dymuniadau gorau ichi.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Hydref 31, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Cydymdeimlwyd â Mrs Mary Jackson ar farwolaeth ei hannwyl fab a oedd wedi cael cystudd hir. Llongyfarchwyd Mrs Jan Davies ar ei anrhydedd gyda St John Ambiwlans yn y Trallwng (Welshpool). Aeth y llywydd, ysgrifennydd a'r trysorydd â 17 blanced i Blas Pen-gwaith – roedd y plancedi wedi eu gweu gan yr aelodau fel rhodd i'r henoed. Y wraig wadd oedd Mair un o'r Samariaid, a roddodd sgwrs ar eu gwaith. Diolchwyd i Mair ac i'r gwestwragedd gan Mrs Dilys Jones a Mrs Jan Davies. Y gwestwragedd oedd Mrs Rona Thomas, Mrs Dwynwen Roberts, Mrs Betty A. Owen a Mrs Katie Williams.

Enillwyd y raffl gan Mrs Dwynwen Roberts.

YMUNO Â'R FYDDIN ARFOG: Dyna yw hanes David, mab Mrs Awen Addie, Goleufryn, Stryd Newton. Fe fydd yn dechrau ar ei yrfa newydd ddiwedd y mis yma. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddo.

PLAID CYMRU: Cynhelir Ffair Nadolig yn y Ganolfan ar nos Wener, Rhagfyr 6. Stondinau, Coffi, Bisgedi, Gemau etc. Bydd Siôn Corn yn bresennol. 6.30-8.30.

BINGO ARBENNIG Y NADOLIG: Cynhelir Bingo a Bwyd yng Ngwesty'r Gwynedd nos lau, Rhagfyr 19 am 7.30. Enwau i Carys a Mair Coed.

Robert Hughes, 7 Stryd Siarlot Pen-blwydd hapus iawn i dad yn 80 oed Rhagfyr 16. Oddi wrth Elizabeth, Griff ac Eluned.
Cariad mawr i taid gan CARWYN – rhof help i chwi chwythu'r canwyllau!

SEINDORF: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ddod yn ail yn eu cystadleuaeth Adran E yng Nghei Cona ddydd Sadwrn Tachwedd 23. Cawsant wobr ariannol a chwpan Ernest Roberts i'w chadw am flwyddyn.

AR WERTH

Beic Raleigh Striker Gwyrdd mewn cyflwr ardderchog: £30. Anrheg Nadolig gwerth chweil! Ffoniwch: Caernarfon 3838.

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
MARTIN & CAROL

PRINCE OF WALES LLANBERIS 870708

Cwrw blasus
Croeso cartrefol

Adloniant:–
Nos Fercher a Nos Sadwrn
Canu Cymraeg efo'r organ
Nos Wener
Country & Western

TAN-Y-COED

Gohebydd: Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

Hydref 26 yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Mair Pitts, Caerweddus, annwyl briod y diweddar Mr William Pitts a mam ofalus Mr Brian Pitts.

Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor Hydref 30. Y mae cydymdeimlad yr ardal yn fawr iawn â Brian yn ei brofedigaeth. Pob bendith iddo i'r dyfodol.

I'R YSBYTY: Yn ddiweddar cipiwyd Mrs Ceinwen Roberts, Ael-y-bryn yn sydyn i'r ysbyty. Erbyn hyn y mae adre'n ôl ac yn gwella. Croeso adre iddi a'n dymuniad yw am iddi barhau i wella.

COFION: Ein cofion a'n dymuniadau da eto i Mr Hefin Pritchard, Cynfaes Ystad Bryn Moelyn, mab Mr a Mrs W. Pritchard, Garnedd sydd yn Ysbyty Gwynedd. Gwellhad buan iddo.

Pob dymuniad da hefyd i Llion, mab Mr a Mrs Hefin Pritchard. Bydd Llion yn mynd i Ysbyty Gobowen ddydd Llun, Tachwedd 18 i gael triniaeth lawfeddygol i'w law.

Edrychwn ymlaen at ei weld ef a'i dad yn ôl yn eu cartref wedi gwella.

NOSON GUTO FFOWC: Trefnodd Mr a Mrs Chohan, Pant Clyd goelcerth a thân gwyllt i ddathlu'r noson. Paratowyd lluniaeth ysgafn i'r gwahoddedigion. Y mae hyn yn drefniant blynyddol bellach gan Mr Chohan.

Nos Fercher, Tachwedd 27 cynhelir Seiat Gofalaeth y Parch John Morris, yn Festri Tan-y-coed am 7 o'r gloch.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Perchennog: E.P. Hughes
MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

GWYBODAETH AM WILLIAM JONES

Yn rhifyn Tachwedd cafwyd disgrifiad o'r trip Ysgol Sul cyntaf yn yr ardal i ddefnyddio trên, sef yr 'excursion' a drefnodd gŵr o'r enw William Jones, Clwt y Bont, o Fangor i Birkenhead yn 1866. Ysgol Sul Llanrug a fanteisiodd ar y siwrnai hon, gan wneud eu trefniadau unigryw eu hunain i gyrraedd stesion Bangor i ddal y trên! Nid oes cofnod gennyf fod unrhyw Ysgol Sul arall o'r ardal wedi manteisio ar y cyfle hwn, ond gan mai gŵr o Glwt y Bont a'i trefnodd, mae'n debygol fod rhai o bentrefwyr y rhan honno o fro'r 'Eco' wedi bod ar y trip hefyd. Holais am unrhyw wybodaeth pellach am y gŵr a fu'n gyfrifol am y trefniadau, sef William Jones. Daeth dau ateb i law, ac fe'i cyhoeddir yma fel ag y'i derbyniwyd.

Cafwyd yr ateb cyntaf gan W.A. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug – un o ddisgynyddion William Jones ei hun. Dyma fel y mae ei lythyr yn adrodd yr hanes.

"Mae William Hobley yn y bedwaredd gyfrol o hanes Methodistiaeth Arfon yn adrodd dipyn o hanes fy hen daid, William Jones, Tŷ Mawr, ac un o flaenoriaid cyntaf Capel Disgwylfa; a'm taid, William Jones, Coed Helen, Clwt y Bont. Ni wyddis pa bryd y ganwyd Williams Jones (I), ond ei fod wedi dod o Lanwnda i amaethu a masnachu yn ardal Clwt y Bont, iddo fyw yn Tŷ Mawr (tyddyn), ac mai ef oedd yn dal y tir lle saif Pentre Helen a Hafod Olau heddiw. Bu farw Ebrill 1873.

Ganwyd Williams Jones (II) yn 1825, a dewiswyd ef yn flaenor yn Disgwylfa yn 1865. Bu farw Mai 1893. Etifeddodd fusnes ei dad — amaethu, marchnata cyffredinol, siop ddillad, groser, a chario glo a blawdiau dros ardal eang. Yn ôl hanesion a glywais gan fy nhad, byddent yn cario eu nwyddau o Fangor hyd nes yr agorwyd yr orsaf rheilffordd yn Mhontrhythallt, lle bu 'depot' o eiddo 'William Jones and Son' am flynyddoedd.

Yn ôl William Hobley, ar wahân i fod yn weithgar efo'r capel ac yn fasnachwyr, roeddent hefyd yn flaenllaw mewn llywodraeth leol, y bwrdd ysgol, ac yn y blaen. Gan eu bod yn berchen trolleu, mae'n bosibl mai un o'r ddau yma oedd y William Jones a drefnodd y trip. Mae dyddiad penodi yr ail William Jones yn flaenor (1865) yn awgrymu mai y fo oedd yn gyfrifol, gan gymaint ei ddiddordeb yn yr Ysgol Sul a'i gwaith. Efallai fod y daith hon yn gychwyn yr arferiad yn yr ardal o drefnu gwibdeithiau Ysgol Sul."

Dyn busnes, effro i ddatblygiadau'r oes yw'r darlun a gawn o'r masnachwr hwn o Glwt y Bont, ac ychwanegir at hyn yn yr ail lythyr a dderbyniais, gan M.E. Jones, Dinorwig.

"Roedd William Jones yn cadw siop yn ymyl y 'Cweri' (Quarry Arms), Clwt y Bont, ac roedd ei enw wedi ei beintio ar y wal uwchben drws y siop. Siop yn gwerthu popeth ydoedd — dillad, bwydydd a glo. dwy ferch y perchennog — y ddwy Miss Jones — a arferai weithio yn y siop. Cadwent was a gariai flawdiau a glo, ac yr oedd yno 'milliner' hefyd, Nell Llanberis y galwem hi.

Tom Jones, mab William Jones, oedd rheolwr y busnes. Yn y Tŷ Mawr, Clwt y Bont, yr oedd ef yn byw. Bu fy chwaer yn gweini yno tua 1910. Cofiaf fynd yno i'w gweld: mynd i lawr Lôn Fach Cweri, ar y chwith i Garej Arfon, ac yr oedd dôr yno a arweiniai i gefn y tŷ. Nid oedd yr hen William Jones ei hun yn fyw y pryd hynny.

Roedd y Dr Emyr Jones, Bethesda, yn un o ddisgynyddion y teulu. Wyr i William Jones oedd Hywel Jones, Bron Helen. Mae ei fab Goronwy yn aelod o Heddlu Gwynedd.

Yn llyfr Aled Eames, 'Meistri'r Moroedd' mae sôn am Gwmni Llongau Gwynedd. Yn Bryn Terrace, Clwt y Bont yr oedd swyddfeydd y Cwmni, ac un o'i gyfarwyddwyr oedd William Jones, Coed Helen House, Clwt y Bont — Draper and Grocer. Yn ôl yr unfed adroddiad ar ddeg i'r cyfranddalwyr ym 1889, roedd tymor William Jones fel cyfarwyddwr yn dirwyn i ben, ond yn ôl y rheolau, roedd hawl i'w ail ethol. Tybed ai'r un yw'r William Jones hwn â'r gŵr a drefnodd y trip Ysgol Sul? Efallai bod diddordeb ganddo ym mhob math o drafnidiaeth!"

Llawer o ddiolch i'r ddau ohonoch am ymateb mor sydyn ac am wybodaeth mor drylwyr. Rwyf wedi fy argyhoeddi mai William Jones – yr ail – **oedd** y gŵr busnes craff a fu'n gyfrifol am drefnu'r trip. Tybed a barhaodd ei ddiddordeb mewn trefnu 'excursions' ar ôl i'r rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis gael ei chwblhau ychydig o flynyddoedd ar ôl trip 1866?

—

ATEB I GWESTIWN MIS TACHWEDD

Y briodas Gymraeg gyntaf i'w gweinyddu mewn capel yn Melbourne oedd yr un yng Nghapel y Methodistiaid Calfinaidd, Latrobe Street, ar Awst 28ain 1867. Y Parch William Thomas, gweinidog y Trefnyddion Calfinaidd yn Melbourne oedd yn gwasanaethu, a'r pâr ifanc oedd John Hughes, gynt o Lanrug, a Jane, trydedd ferch Mrs Williams, Newborough Arms, Llanberis.

Daw'r wybodaeth o'r 'Awstralydd' am Hydref 1867, a chyfeirir at y briodas hefyd yn llyfr Myfi Williams ar 'Cymry Awstralia'.

Roedd trigolion eraill o'r ardal hon wedi ymfudo i Awstralia yn ystod y ganrif ddiwethaf hefyd, llawer ohonynt i geisio'u ffortiwn yn y gweithfeydd aur. Un ohonynt oedd Daniel Evans, Gwastadnant, Llanberis, a weithiau yng nghloddfa aur Forest Creek rhwng 1852 ac 1855. Yn yr un cyfnod mae sôn am Hugh Owen o Lanberis yn Ballarat. Tybed ai mwynwyr copr o gloddfeydd Nant Peris oedd y rhain wedi mentro allan i wlad newydd i gloddio am well bywoliaeth?

CWESTIWN MIS RHAGFYR

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu dosbarth hanes Llanrug yn trafod cerddorion a cherddoriaeth y cylch. Un enw a ddaeth i'n sylw oedd 'Eos Gwynedd'. Ychydig iawn o wybodaeth sydd gennym amdani – hyd yn hyn! Oes rhywun o'r darllenwyr all helpu?

Anfonwch eich atebion fel arfer i Drefnydd y Gymdeithas, Dafydd Wh. Thomas, Bron y Nant, Llanrug. (Ffôn: Caernarfon 3515).

RHAGFYR 1885

CYDYMAITH YR YSGOL SABOTHOL

COFNODION

Dosbarth Bethel yn Arfon – cynhaliwyd cyfarfod y Dosbarth hwn yn Moriah, Waunfawr. Llywydd: Mr J.C. Jones, Beehive, Portdinorwig. Yn y cyfarfod am 10, siaradwyd gan Capt D. Roberts, Portdinorwig, ar "Yr Ysgol Sabbothol a'r gwaith bendigedig a wneir ynddi," Mr Thomas Griffiths, Bryngwyn, ar "Dinystr Jerusalem". Mr R. Hughes, Salem, Caernarfon, ar "Yr Ysgol Sabbothol a'i Swyddogion". cafwyd beirniadaeth y Parch J.E. Owen, Llanberis, ar yr atebion i'r holiadur ar "Hanes y deml a'i ffurfwasanaeth crefyddol." (I rai dan 25ain oed) goreu: Miss E. Rowlands, Police Station, Llanberis. Beirniadaeth Y Parch R.P. Williams, Ebenezer, ar atebion i holiadur ar "Hanes Samuel" (rhai dan 20ain oed) gorau: Miss Annie Jones, Buarth, Ebenezer, gwobr 8s, ail Miss Margaret Thomas, Tan-y-beren, Ebenezer gwobr, 6s, trydydd Miss E. Rowlands, Llanberis. Hefyd hysbyswyd y cafodd y gorau o dan 12 oed, ym mhob un o'r ysgolion canlynol, wobr o 2s, gan yr Undeb am ragori mewn sillebu, darllen, ac adrodd rhyw gyfran a nodir gan bob ysgol – Bryngwyn, Bethel, Nant Padarn, Waenfawr, Maesdref, Ebenezer, a Cwmyglo.

Penderfynwyd yn nghyfarfod cynrychiolwyr gwahanol Ysgolion y dosbarth. (1) Fod gweithrediadau yr Undeb i gael mwy o gyhoeddusrwydd trwy y newyddiaduron a Chydymaith yr Ysgol Sabbothol. (2) Fod yr holi yn y cyfarfodydd Ysgolion i gymeryd yn y boreu neu y prydnawn. (3) Mae yn Maes y dref, y cynhelir y cyfarfod nesaf, y Sabboth olaf yn Rhagfyr.

Yn ôl beirniadaethau y Parchn E. Herber Evans ac R.P. Williams, Waunfawr, gwobrwywyd y rhai canlynol: Misses M. Williams, Bryn Eilian, Waenfawr; A. Jones, Buarth Ebenezer, Mri D. Hughes, Llanberis; R.T. Williams, Cae Gwyn, Waenfawr a W.J. Hughes (Deiniolfryn). Yr olaf yn oreu am atebion i'r holiadur ar Ioan i. Derbyniwyd casgliadau at dreuliau y cyffod ysgol. Cyfanswm £1.4s.6c. At y gwobrau, cyfanswm £2.11s.11c. Mae yr undeb yn gwneud gwaith rhagorol. H.T. Hughes, Bethel, Ysg.

CYFARFODYDD HYDREF A THACHWEDD

Trwy amryfusedd yr Ysgrifennydd ni chafwyd adroddiad o gyfarfod Hydref y Gymdeithas yn yr Eco. Digon bellach yw dweud y'i cynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Llanrug gyda Julia Latham o Archifdy Gwynedd yn sôn am hanes Addysg yn y fro. Trwy gyfrwng adroddiadau'r cyfnod a sleidiau cafwyd darlun byw o addysg ein cyn-dadau, yn y ganrif ddiwethaf yn bennaf. Fel un a ddysgodd y Gymraeg fel ail-iaith roedd Julia'n poeni am roi sgwrs gerbron gwybodusion mor ddisglair ag aelodau'r Gymdeithas Hanes! Roedd ymateb bodlon y gynulleidfa'n profi nad oedd raid iddi boeni.

Brwd hefyd oedd ymateb yr 80 aelod a ddaeth i Ganolfan Deiniolen i weld a gwrando ar gwis sleidiau "Pwy sy'n adnabod Cymru?" yng ngofal Mrs Mary Vaughan Jones, Y Waunfawr. Rhannwyd y gynulleidfa'n ddau dîm cyfartal o ran rhif, ac o ran gwybodaeth fel y digwyddodd pethau oherwydd roedd y sgôr yn glos tan y diwedd. Mae ein diolch yn fawr i Mrs Mary Vaughan Jones am rannu o'i gwybodaeth ryfeddol a'i brwdfrydedd mewn cyfarfodydd difyr fel hwn.

Cofiwch am y Cinio Nadolig ar 18 Rhagfyr! Gweler yr hysbyseb gerllaw os nad ydych wedi rhoi eich enw eto.

HUW GERAINT
OWEN
CILMYNYDD, WAUNFAWR
GOSODWR CARPEDI
Pob math o loriau
Ffoniwch
WAUNFAWR 552
ar ôl 5 p.m.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Nos Fercher, 18 Rhagfyr 1985

CYFLE OLAF I ROI EICH ENW AR GYFER Y CINIO NADOLIG

Mae 14 lle ar ôl ar gyfer Cinio Nadolig y Gymdeithas Hanes yn y Padarn Lake Hotel Llanberis. Hwn yn sicr yw bargen orau'r Ŵyl – pryd 3 chwrs cawl, twrci a sglodion, pwdin Dolig am £3.95 a sgwrs ar draddodiadau'r Dolig gan John Owen Huws, Y Waunfawr. I ymuno â'r 76 sydd eisoes ar y rhestr cysylltwch â'r Ysgrifennydd John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 5605) ar unwaith.

AR Y SOMME

ROEDD gwynt yr Hydref yn oer ar Esgair Vimy ac yn cwynfan o gylch cofeb fawr y Canadiaid, wrth i Joan i minnau ddod i fyny'r llwybr. Serch hynny roedd nifer o bobl wedi cyrchu yno mewn cerbydau, ac yr oeddent yn oedi ar y grisiau i syllu ar y miloedd enwau sydd wedi eu torri ar y maen i gofio'r gyflafan a fu.

Y mae lawnt eang yn rhedeg oddi wrth droed y gofeb i gyfeiriad Lens o'r lle y mae tomennydd slag anferth yn codi o'r ddaear fel hetiau gwrachod. Ymrysonfa am feddiant o'r glofeydd hyn oedd achos brwydr Vimy.

Ar y llecyn roedd dwy ffos yn aros o hyd, eu hochrau erbyn hyn wedi eu concretio ar ffurf bagiau tywod a oeddent unwaith wedi eu pentyrru ar yr ymyl fel amddiffyniad rhag y bwledi a'r shrapnel, ac ymhen pellaf ffos y Canadiaid roedd twnnel mawr fel daear cwningod, a changhennau ohono meddir yn arwain ymhell i bentrefi cyfagos. Roedd ynddo o hyd hen hetiau dur rhydlyd a photeli dŵr, ac mewn conglau, ddarnau o ynnau a hen fidogau, ac yn y ffos Almaenig, rhyw ganllath oddi yno, roedd hen fagnel yn dal i sefyll ar yr ymyl.

Cerddasom i lawr y ffordd i gael cerbyd i Arras, a daeth rhyw hen fachgen allan o'r goedwig bîn a cherddodd gyda ni i gyfeiriad pentref Vimy. Dywedodd fel yr oedd yn cofio gweld dau fur o gelaneddau o bobtu i'r ffordd ar ôl y frwydr. Dywedodd hefyd fod llwch glo mwynfeydd Lens wedi glynu yn ei ysgyfaint, a'i fod yn dod yn ddyddiol i archwa'r pîn i lacio ei fron gaeth.

Trannoeth aethom i Amiens o'r lle yr oeddem yn gobeithio mynd i ganol gwlad y Somme i chwilio am fedd 'fewythr Ellis yn Hangard Woods, ond nid oedd yn hawdd cael trafnidiaeth i le mor ddiarffordd. Doedd yna ddim ond un cerbyd y dydd yn mynd yn agos i'r fan, a gorfu i ni gychwyn yn gynnar i ddal hwnnw, ond roedd y gyrrwr a rhyw wraig a oedd yn mynd i bentref arall yn awyddus i'n cynorthwyo. Roedd yn rhaid i ni ddisgyn rhyw filltir o bentref Hangard, ac wrth i ni gerdded gyda'n beichiau daeth y niwl i lawr yn sydyn.

Pentref bychan amaethyddol yw Hangard, ac ar yr awr honno doedd yno neb ar gael. Roedd gennym gyfarwyddiadau wedi eu cael o'r 'War Graves Commission', a thu draw i'r tai gwelsom o'r diwedd fynegbost ac enw'r fynwent arno. Troisom oddi ar y lôn galed i rhyw ffordd drol gul, a diflannodd yr wyneb yn sydyn mewn môr o laid, ac yr oeddem fel pe mewn rhyw anialwch, ond ymhen dipyn aethom ar ein pennau i rhyw ddynion yn cario bît hefo ceffylau, a dywedodd un wrthym ein bod beth bynnag yn mynd i'r iawn gyfeiriad, ac ymlaen â ni gan gario rhyw gragen o oleu dydd i'n canlyn yn y niwl a dilyn ôl traed y ceffylau yn y llaid.

Toc ymddangosodd cwr coedwig allan o'r niwl, a gadawsom ein beichiau wrth fôn coeden o dan bentwr o ddail, ac ar ôl cerdded am yn hir wrth ochr y coed gwelsom groes garreg uchel yn codi o'r niwl ar y dde, ac yr oeddem yn gwybod ein bod wedi canfod y fan.

Un fechan iawn yw mynwent Hangard Woods. Mae yno lawnt a llwyni blodau fel mewn gardd, ac o'i chwmpas mae mur uchel. Mae'r ffermwyr yn aredig y tu allan at ymyl y mur. Wrth ei ochr mae bedd f'ewythr a choeden rosyn arno: Ellis Williams, Byddin Awstralia, a dau o'i gymdeithion o bobtu, wedi eu saethu ar batrol gan sneipar yn ôl yr adroddiad, ac mae hynny yn debygol; Ffrancwyr yw'r gweddill i gyd. Roedd yn beth trawiadol canfod oasis fach dwt felly yng nghanol y fath anialwch. Mae'n rhaid fod rhywun yn dod yno o bell i edrych ar ei hôl.

Cyn mynd edrychasom ar y llyfr a oedd wedi ei gadw mewn cwpwrdd bychan wedi ei dorri o'r maen a oedd ar fin y lawnt. Ynddo yr oedd cof restr a manylion am y claddedigion, ac enwau'r tri o'r New South Wales Light Infantry.

Wrth ddychwel gydag ymyl y coed, troisom yn ôl i edrych ar y groes, ond roedd niwl y Somme eisoes wedi'i chuddio â'i hugan oer.

Y GWALCH

YN EISIAU
Gohebydd Newyddion Pentref i Lanberis
Cysylltir â
Mrs Jane Roberts, Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, neu unrhyw un o'r Golygyddion

GWRAIG TŶ YN YR ARDD

Byddai'r ffermwyr erstalwm yn cadw'r pladurau a'u rhwbio â blonag – seimlyd i'w cadw hyd yr haf nesaf. Dyna fydd un o fy ngorchwylion – na does yma ddim pladur. Ond bydd raid glanhau celfi'r ardd a'u sychu a rhoi cadach ag olew seimlyd (nid paraffin) arnynt a'u cadw dros y gaeaf o dan do.

Er mai mis Rhagfyr ydyw y mae llawer i'w wneud – e.e. torri coesau blodau parhaol a chlirio o'u cwmpas rhag i falwod gael lle i lochesu a gwneud ymosodiad mawr ar yr ardd y flwyddyn nesaf.

Credaf mai Bryn Malwod ddylai enw'r ardal yma fod. Gan iddi fod mor wlyb eleni yr oeddynt wrth eu bodd ac er inni roi'r pelenni bach doedd dim posib eu difa'n llwyr. Dywedodd rhywun wrthyf am roi cwrw mewn potiau jam yma ac acw ac yna byddai'r malwod yn meddwi ac yn methu dod allan o'r potiau. Wn i ddim a ydyw hyn yn wir, wnaethon ni ddim ei drio, gan ein bod yn llwyr ymwrthodwyr ein hunain – doedden ni ddim am wneud malwod hyd yn oed yn alcoholics.

Rhaid codi'r chwyn drwg fel crafanc y frân, dant y llew a'r marchwellt, diolch byth does yma ddim ysgaw'r ddaear (ground elder) a dail tafol, yna eu llosgi ond gofalu peidio gwneud tân pan fod golchi'r wraig drws nesa allan. Dywedir mai garddwr diog sydd yn gwneud tân, ond bydd y chwyn blynyddol fel gwlydd a choesau blodau wedi marw ac unrhyw beth o'r tŷ – dail te, croen oren a ffrwythau eraill, ond ddim crwyn tatws, yn mynd i'r pastai (compost) sydd gan y gŵr ymhen draw'r ardd. Bydd hwn yn mynd yn ôl i'r ddaear fel gwrtaith ymhellach ymlaen.

Rhaid tocio dipyn ar y llwyni blodau, ond mae'n well gadael y blodau ar y tri lliw ar ddeg (Hydrangeas). Mae'n dda torri ychydig ar y coed rhosynnau hefyd ond nid yn rhy isel, gadawer hynny hyd fis Mawrth, ond os ydynt yn dal fe fydd yn gwyntoedd yn eu siglo i'w gwraidd.

Mae'r Nadolig yn nesáu a bydd yn rhaid meddwl am blanhigion tŷ i'w rhoi yn anrhegion. Mae'r cyclamen yn boblogaidd iawn a'r solanium ac wrth gwrs mae'r blodau mihangell byr mewn potiau yn dderbyniol bob amser. O! na wyddwn y gyfrinach o'u tyfu! Mae tocynnau anrheg i brynu hadau neu gelfi i'w cael hefyd.

Mae'r llysiau a dyfodd y gŵr yn werthfawr iawn, ac os oes arnoch eisiau cwtogi dipyn ar gôst bwyd, perswadiwch y gŵr i dorchi ei lewys a mynd ati i drin yr ardd.

Rwy'n edrych ymlaen at gael tatws newydd i ginio Nadolig – do, mi rewais rai eleni i drio.

DRAENOG

PA-DARN GYMWCH CHI?

Ydi nos Fawrth, Chwefror 14eg, 1984 yn canu cloch? (Na, dim byd i'w wneud â falantîn, cariad!) Dyna'r noson pryd y cafwyd Cyfarfod Cyhoeddus stormus iawn yn Ystafell Dinorwig yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis i wrando ar gynlluniau'r Awdurdod Dŵr i 'reoli' Llyn Padarn. Bwriad Awdurdod Dŵr Cymru oedd datblygu Llyn Padarn i ganiatáu "chwaraeon dŵr" mewn modd wedi ei reoli – ac wrth gwrs, yr Awdurdod Dŵr oedd i wneud y rheoli (hefo rywfaint o help gan Gyngor Arfon).

Bellach, mae'n ymddangos fod Awdurdod Dŵr Cymru mewn dipyn o bicil, neu fel basa rhai yn deud, mewn dŵr poeth. Mae'n rhaid iddyn nhw werthu eu rhan hwy o'r llyn oherwydd cyfyngiadau economaidd y Llywodraeth ar wariant.

Mae si ar led fod Cyngor Sir Gwynedd am wneud cais i geisio prynu'r llyn, ond fod y pris o £30,000 braidd yn ddrud.

Yda chi ffansi hanner llyn yn bresant 'Dolig?

M. ROWLANDS
MONUMENTAL MASONS
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2898
(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)
Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad
Cerrig newydd a gwaith adnewyddu: dim ots pa mor bell
Stoc helaeth o'r cerrig gorau: dyfynbris am ddim
AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

BILL ac EILEEN GRIFFITHS

Antiques
Ivy Cottage
BETHEL
Ffôn:
Y FELINHELI 670556
PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU
Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

CANOLFAN YMWELWYR · LLANBERIS

CYNLLUNIAU UCHELGEISIOL I WEDDNEWID Y DDÔL

Ar ddydd Gwener, Tachwedd 15, datgelwyd cynlluniau uchelgeisiol ynglŷn â'r bwriad o sefydlu Canolfan Ymwelwyr ym mhentref Llanberis. Gwnaethpwyd yr astudiaeth gan Gwmni Brian Lingard a'i Bartneriaid, a noddwyd y gwaith gan ddau gwmni o Lanberis, sef Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa a Gwesty Brenhinol y Victoria. Cysylltodd yr 'Eco' â Mr Derek Rogerson, Rheolwr-Gyfarwyddwr Rheilffordd yr Wyddfa a chafwyd pob cydweithrediad ganddo ynglŷn ag egluro'r syniadaeth oedd tu cefn i'r cynllun. Yn wir, roedd y croesawu'r ffaith fod yr 'Eco' am roi sylw i'r cynlluniau arfaethedig, oherwydd teimlai fod llawer o wahanol sibrydion wedi bod o amgylch y pentref ynglŷn â'r cynllun, ac mai da o beth fyddai gwyntyllu'r syniadau yn agored. Dywedodd Mr Rogerson ei fod yn fwriad gan y Noddwyr i gynnal Cyfarfod Cyhoeddus maes o law cyn rhoi cais cynllunio i mewn am y gwaith. Yn y cyfamser, mae Mr Rogerson yn fodlon cyfarfod â grwpiau o bobl sydd â diddordeb yn y cynllun. Mae'n pwysleisio ei fod yn fodlon trafod ag unrhyw grŵp: er enghraifft, Cyngor Cymuned, Canghennau Lleol o Bleidiau Politicaidd, Gwŷr Busnes Lleol, ac yn y blaen. Dylai'r grŵp sydd am drafodaeth fanwl a llawn ar y datblygiadau ffurfio cynulliad o rhwng 20 a 40 o bobl, ac mae croeso i drefnydd unrhyw grŵp gysylltu'n uniongyrchol â Mr Rogerson yn Swyddfa Rheilffordd yr Wyddfa, Llanberis (Ffôn 870223).

Cawsom ganiatâd parod i atgynhyrchu mapiau diagramau cynlluniau sy'n ymwneud â'r cynlluniau, a dangosir rhai ohonynt ar y dudalen hon.

Dyma yn fras yr hyn a fwriedir wrth Ganolfan Ymwelwyr i Lanberis.

Yn 1984 cyhoeddwyd astudiaeth fanwl gan Fwrdd Croeso Cymru ar "Dwristiaeth yn Llanberis". Roedd yr astudiaeth yn pwysleisio fod cynnydd sylweddol yn debygol o ddigwydd yn nifer yr ymwelwyr i'r ardal yn ystod y degawd nesaf, ac y gallai hynny effeithio ar gymeriad ac amgylchedd y pentref. Mae'r cynlluniau newydd gan y ddau gwmni o Lanberis yn deillio'n uniongyrchol o'r astudiaethau honno, a bwriad yr astudiaeth yw "i baratoi gwell cyfleusterau o fewn y pentref a hefyd i annog yr ymwelydd i aros yn yr ardal am gyfnod mwy o amser drwy gynnig mwy o atyniadau."

Mae tri chynllun wedi ei baratoi, ond yr un a elwir yn Glan Llyn yw'r un mwyaf uchelgeisiol, a'r un sy'n fwyaf tebygol o roi elw i'r pentref yn uniongyrchol. Mae Cynllun Glan Llyn wedi ei leoli ar y Ddôl rhwng Oriel Eryri a glannau Llyn Padarn. Mae'r ddau gynllun arall, sydd yn llai uchelgeisiol, ac wedi eu lleoli ymhellach oddi wrth y pentref, yn cael eu galw'n Gynllun Dyffryn Hwch a Chynllun Coed Peris. Mae'r ddau olaf wedi eu lleoli ar dir o eiddo'r ddau gwmni a noddodd yr astudiaeth.

Mae Cynllun Glan Llyn wedi ei leoli ar dir sy'n rhannol ym mherchnogaeth Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa, a Chyngor Sir Gwynedd (gweler map). Rhoir sylw manwl i'r angen am feysydd parcio canolog, a gyda'r bwriad hwnnw mewn golwg, cynlluniwyd maes parcio a allai ddal 60 o fysus a dros fil o gerbydau ar unrhyw ddiwrnod "heb amharu ar yr amgylchedd". I'r bwriad hwn cynlluniwyd y maes parcio ar ffurf cylch (gweler y cynlluniau) fel y gallai teithwyr ddod oddi ar eu bŷs ac yn syth o dan do pe bai'r tywydd yn anffafriol. Gallai'r teithwyr wedyn gerdded ar hyd y 'colonnade' hwn i'r ganolfan ei hun.

Cynlluniwyd y Ganolfan Ymwelwyr i gyd ar un llawr (ac felly, ni fyddai'n tarfu ar yr olygfa mewn unrhyw fodd), ac mae'n cynnwys y gwahanol rannau canlynol:



1. Libart i Gerddwyr, a siopau
2. Tŷ bwyta a phwll dŵr
3. Diodydd a bwydydd ysgafn
4. Libart dan do gwydr
5. Tŷ bwyta ar gyfer partïon mewn bysus
6. Tŷ bwyta i deuluoedd
7. Canolfan ynni
7. Llyn
8. Gorsaf Rheilffordd Drydan
9. Siopau a gweithdai Crefft
10. Canolfan gwybodaeth i Dwristiaid

Mae rhai o'r rhannau hyn yn haeddu sylw manylach.

Y Ganolfan Ynni

Pan agorir Gorsaf Drydan Dinorwig i'r cyhoedd ar yr un graddfa a Than y Grisiau Stwlan, bydd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr a ddaw i'r ardal, a hefyd yn nifer y bobl leol a phartïon o ddisgyblion ysgol a fydd yn ymweld. Bwriedir i'r Ganolfan Ynni fod yn fan cychwyn i rai sy'n bwriadu ymweld â'r Cynllun Trydan. Ynddo, gellid arddangos modelau, a defnyddiau eraill ar thema 'hanes datblygu ynni'. Gellid hefyd drefnu i ddangos ffilmiau a chynnal darlithiau byr ar yr un thema.

Rheilffordd Drydan

Y bwriad yw cysylltu'r Ganolfan Ymwelwyr a safle Cynllun Trydan Dinorwig â rheilffordd drydan. Gellid yn yr un modd ddefnyddio'r rheilffordd i gysylltu â gwahanol atyniadau ar yr ochr arall i Lyn Padarn – y Parc Gwledig, yr Amgueddfa a Rheilffordd y Llyn.

Siopau

Siopau bychan fyddai'r cyfan – tua 15 mewn nifer – yn paratoi nwyddau ar gyfer y fasnach dwristiaeth yn unig; sef crefftau lleol, cofroddion, llyfrau taith, cardiau post ac yn y blaen. Mae gobaith hefyd cael rhai crefftwyr lleol yn gweithio ar y safle yn cynhyrchu gwaith y gellid ei werthu ar y pryd.

Llyn a Phyllau Dŵr

Rhoir pwyslais ar dirlunio'r ardal, gan ddefnyddio dŵr o Afon Hwch. Byddai'r dŵr yn llifo drwy'r Ganolfan mewn cyfres o byllau a llynnoedd cyn arllwys i Lyn Padarn. Drwy gynllunio gofalus, gallai

NOSON O GÂN

(Elw at Ymchwil Muscular Dystrophy)

17 IONAWR 1986
CANOLFAN NEWYDD
Y WAUNFAWR

Meibion Dwyfor . Annette Bryn Parri
Siân Wyn Gibson
Pedwarawd o Fand Llanrug
Arweinydd: Edwin Pritchard

7.30 pm yn brydlon £1 Oedolion, 50c Plant
Ar werth yn lleol ac wrth y drws
Manylion llawn oddi wrth Alun Williams, 13 Bro Waun, Waunfawr 630

CWMNI DRAMA ERYRI

Bwriada'r Cwmni lwyfannu 3 Drama Fer tua diwedd Chwefror. Gwahoddir unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan (actio neu waith llwyfan) anfon ei enw i'r Ysgrifennydd: Len Jones, 6 Tai Arthur, Penisarwaun erbyn Rhagfyr 14

traeniad y Ddôl ei hun gael ei wella, a thrwy hynny, ei gwneud yn haws i gerdded y llwybrau cyhoeddus ar hyd glannau Llyn Padarn.

Â'r astudiaeth ymlaen i drafod y posibilrwydd o gysylltu'r Ganolfan Ymwelwyr yn uniongyrchol â Stryd Fawr, Llanberis. Un syniad posibl yw sefydlu Gardd Jefferson ar ochr llwybr dan do fydd yn cysylltu'r Ganolfan â'r Stryd Fawr. Seilir y syniad hwn ar y ffaith fod Thomas Jefferson, trydydd Arlywydd yr Unol Daleithiau, yn nodi fod ei deulu'n dod yn wreiddiol oddi ar lethrau'r Wyddfa.

O ran adeiladwaith, byddai'r cwbl o'r Ganolfan a'r mân adeiladau eraill yn cyd-ymffurfio â defnydd lleol – carreg, llechfaen a choed.



Golygfa o bentref Llanberis ar draws y Llyn (mae Chwarel Vivian ac Ysbyty'r Chwarel yn y cefndir). Ar y chwith o'r llun mae Canolfan Pentref Llanberis.



Golygfa ar hyd y Libart i Gerddwyr yn y Ganolfan.



Yr Orsaf Rheilffordd Drydan.

Arolwg Cyflogaeth

Yn yr adroddiad a wnaethpwyd gan Fwrdd Croeso Cymru, amcangyfrifwyd y byddai Llanberis yn denu hyd at 200,000 o ymwelwyr **ychwanegol** yn ystod y blynyddoedd nesaf. Gan gadw hyr mewn golwg, mae'r astudiaeth ar safle Glan Llyn yn amcangyfrif y gallai'r Ganolfan Ymwelwyr newydd gynnig swyddi llawn-amser i 140 o bobl yn ystod tymor y gwyliau, a gwaith rhan-amser i eraill. Byddai angen 30 o weithwyr llawn-amser i gadw'r Ganolfan gydol y flwyddyn. Amcangyfrifir hefyd y byddai'n rhaid gwario £3.5 miliwn ar adeiadlu'r Ganolfan, ac y byddai hynny'n paratoi gwaith am gyfnod o ddwy flynedd i'r adeiladwyr.

—

Carai'r 'Eco' nodi mai braslun yn unig o gynlluniau manwl iawn a roddir yma, ac yn sicr, bydd llawer o waith trafod gyda gwahanol gyrff cyhoeddus a lleol. Nid oes ymateb wedi dod hyd yn hyn oddi wrth Gyngor Sir Gwynedd na Chyngor Arfon, ac ychydig o fudiadau lleol sydd wedi cael amser i gael golwg manwl ar y cynlluniau hyd yma. Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau gan unrhyw gorff neu unigolyn ar dudalennau'r 'Eco'. Dyma eich cyfle i ddatgan eich barn.



Siop cofroddion neu siop crefftau.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU BRO MADOG AWST 1-8 1987

SWYDDFA'R EISTEDDFOD, PORTHMADOG

Bellach symudodd staff Swyddfa'r Eisteddfod yn y gogledd o'r Rhyl i Borthmadog gan sefydlu swyddfa mewn man canolog yn y dref. Y cyfeiriad newydd yw Swyddfa'r Eisteddfod, 7 Bank Place, Porthmadog LL49 9AA a'r rhif ffôn yw **Porthmadog 2245**.

Y PWYLLGOR GWAITH

Ers misoedd bellach bu Pwyllgor Llywio Eisteddfod Genedlaethol 1987 yn paratoi'r ffordd ar gyfer cynnal yr Ŵyl ac eisoes sefydlwyd dau ar bymtheg o is-bwyllgorau, sef is-bwyllgorau Adrodd, Alawon Gwerin, Ambiwlans, Carafanau, Celf a Chrefft, Cerdd, Cerdd Dant, Cyllid, Drama, Dysgwyr, Gwyddoniaeth, Llenyddiaeth, Llety, Hysbysrwydd, Ieuenctid, Safle o'r Orsedd. Erys dau is-bwyllgor arall i'w sefydlu yn y dyfodol agos, sef yr is-bwyllgor Dawns a'r Bwrdd Golygu.

Swyddogion yr is-bwyllgorau hyn ynghyd ag aelodau cyfetholedig sy'n ffurfio Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod a gyfarfu am y tro cyntaf Hydref 29.

Cadarnhawyd enw swyddogol yr Eisteddfod, sef 'Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Madog' a chadarnhawyd dyddiadau'r Ŵyl, sef Awst 1-8, 1987.

Etholwyd swyddogion fel a ganlyn:
Cadeirydd: Mr W.R.P. George, Cricieth, *Is-gadeiryddion:* Mr Emrys Anwyl Williams, Croesor, Y Meddyg Ieuan Parri, Penrhyndeudraeth, Mr J. Bryn Williams, Borth-y-gest. *Cyd-ysgrifenyddion:* Mr W.R. Jones a Mrs E.W. Jones, Talsarnau. *Trysorydd:* Mr J.O. Pugh, Banc y Midland, Porthmadog, *Is-drysoryddion:* Mr Gwilym Jones a Mr Gwynn Jackson Jones, Banc y Midland, Porthmadog.

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU OFALUS
* Gwasanaeth 7 diwnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
Linda
MOBILE HAIRDRESSER
Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch

CAERNARFON 3674
i drefnu amser

EMYR JONES
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

CARPEDI GLÂN!
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED: Oherwydd gweithredu'r athrawon, ni chynhelir noson goffi yn yr ysgol eleni. Mae trefniadau'r noson yn nwylo parod rhai o'r rhieni. Fe'i cynhelir yn Neuadd yr Eglwys ar nos lau, Tachwedd 28 am 6.30. Bydd stondinau, llyfrau, teisennau, eliffant gwyn, teganau, blodau, bwydydd a thombola. Diolchwn am eich cydweithrediad.

Bnawn Gwener, Tachwedd 15 daeth Mr a Mrs Len Jones i'w gweld. Cyflwynwyd anrheg priodas iddynt gan staff a phlant yr ysgol. Dymunwyd pob hapusrwydd iddynt. Enillwyr y gystadleuaeth o dynnu llun y gath wyllt o Batagonia oedd Hefina, Stephanie, Sioned Lewis, Susan, Andrea Paterson a Llion. Cafodd pob un £1 o wobr.

YR URDD: Cychwynnodd yr Adran ar nodyn gobeithiol iawn gyda 49 o blant o 7-14 oed yn ymaelodi ar nos Fercher, Hydref 30. Cawsant amlinelliad o hanes y mudiad a phwysleisiwyd arwyddocad trilliw y bathodyn sef eu ffyddlondeb i Gymru, i Gyd-ddyn a Christ.

Wedi egwyl i gael creision a diod, treuliwyd weddill y noson yn canu a chlapio i gitâr Eric a Douglas. Diolch i chi hogia am eich parodrwydd bob amser.

Tachwedd 6 daeth Dewi Lake atom gyda fideo SiwperTed. Rhaid cyfaddef i'r plant hŷn ei fwynhau gymaint â'r rhai iau. Diolchwyd i Dewi Lake gan Osian Dafydd.

Noson o sleidiau gafwyd ar Dachwedd 13 yng ngofal Mr Leslie Larsen. Un sy'n hoff o gerdded mynyddoedd, ymddiddori mewn hanes lleol a phrydferthwch natur yw Mr Larsen a dyna gafwyd ganddo. Roedd y plant wedi rhyfeddu o weld lluniau bendigedig o Benisarwaun dan eira trwchus 1964 a 1978. Gwyddent am fynyddoedd a llynnoedd Eryri. Diddorol iddynt hwy oedd gweld lluniau o Dre'r Ceiri sy'n perthyn i'r un cyfnod â Phen Dinas yma ym Mhenisarwaun. Ar y diwedd rhannwyd y plant yn ddau dîm A a B a chafwyd cwis ar y sleidiau. Tîm B a orfu o 20 pwynt i 14. Mawr ein diolch ichi Mr Larsen.

Tachwedd 20 cafwyd noson o ddawnsio gwerin yng ngofal Mr Len Jones yn Neuadd yr Eglwys. Diolch i chi Mr Jones am noson fywiog a hwyliog.

Dyma restr o weithgareddau mis Rhagfyr: Tachwedd 27: Chwilen; Rhagfyr 4: Cwis gan Mr Glyn Evans; Rhagfyr 5: Tîm o Adran y Pentref yn ymweld ag Adran Bethel i gymryd rhan mewn cwis. Rhagfyr 11: Noson o Gân gyda Mr Arwel Jones. Rhagfyr 17 – (nos Fawrth): Disgo'r Urdd yn Neuadd yr Eglwys. Bydd lluniaeth ysgafn. Cofiwch fod croeso i unrhyw un o'r pentref o 7-14 oed ymaelodi.

PANTOMEIM 'GO FFLAMIA': Mae trefniadau wedi eu gwneud i ymweld â'r Pantomeim 'Go Fflamia' yn Theatr Gwynedd, nos Lun Rhagfyr 30 am 7.00 o'r gloch. Bydd bws yn cael ei drefnu i gludo'r plant.

CLWB YR HEULWEN: Roedd pawb yn hynod falch o weld Llywydd y Clwb, sef Mrs Porter yn ôl yn eu mysg. Croesawyd Mr J. Williams o Ddeiniolen, a chafwyd ei hanes yn dechrau yn fachgen ifanc yn y chwarel. Un o Fôn ydyw, a difyr ei glywed yn adrodd ei hanes yn gorfod aros yn y Barics. Diolchwyd iddo gan Mrs Porter. Rhoddwyd y te gan Mrs J. May Jones a Mrs P. Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs B. Evans. Enillydd y raffl oedd Mrs Porter.

Ar Ragfyr 2 bydd Swper Nadolig y Clwb yn y Foelas.

CLWB Y NEUADD: Hydref 31 cynhaliwyd Noson Galangaeaf yn Neuadd yr Eglwys. Cafwyd stondinau, gemau, twco afalau a raffl a mwynhaodd pawb gwpaned o gawl poeth a thafell o fara ffres.

Llwyddiant mawr fu'r cystadlaethau. Cafwyd ymateb llawer gwell na'r disgwyliad. Carwn ddiolch o galon i Ann Llwyd o Lanrug am feirniadu'r cystadlaethau – ac nid tasg hawdd oedd hi. Ar fyr rybudd y daeth Ann ond gwyddem i sicrwydd y buasai'n dod, yn enwedig a hithau â chysylltiad â'r pentref gan ei bod yn ferch i'r dramodydd, y diweddar Huw Lloyd Edwards a fagwyd yn Siop Gron.

Dyma'r canlyniadau:
Gwrachod o dan 6 oed: 1. Dafydd, fel Dracula, Mwgwd dan 6 oed: 1. Elgan, Ysgub o dan 6 oed: 1. Angela a Gwenllian. 6-11 oed: Bwgan: 1. Owen, Gwrach: 1. Susan, Mwgwd: 1. Lois. Ysgub: 1. Andrea Paterson, Jac Lantern: 1. Ceirion a Lois.

Wedi noson lwyddiannus a "diogel" iawn, gwnaed elw o £100. Diolch i bawb a gefnogodd y noson.

ENILLWYR CLWB CANT mis Hydref: £20: Mr Madge, Ty'n Clet, £12: Emyr Williams, Glyn Euron, £7: Elen Wyn Davies, Wrecsam.

Cafwyd coelcerth fawr yng nghae'r pentref ar Dachwedd 5 am 6.30. Llosgwyd yr hen Guto a'r coed a'r sbwriel yn lludw llwyd. Mwynhaodd y plant eu cŵn poeth a'r sôs coch, creision, tatws drwy'u crwyn, diod o oren a'r da-da. Roedd cawl poeth, a thatws drwy'u crwyn a chŵn poeth i'r oedolion hefyd. Bu'r mamau yn brysur yn gwneud cyflath ac roedd yna hen gnoi! Diolch i bawb a wnaeth y noson yn un llwyddiannus dros ben a balch oeddem o weld y plant i gyd yn yr ysgol drannoeth – a hynny'n ddi-anaf. Roedd yr elw at Gronfa'r Neuadd yn **£19**.

Gweithgaredd mis Rhagfyr fydd **Canu Carolau** o amgylch y pentref, ar nos Lun, Rhagfyr 16. Mae croeso i unrhyw un ymuno yn blant ac oedolion. Byddwn yn cyfarfod yn Nhan-Gaer am 6.30. Dowch i ganu yr hen garolau gyda ni!

Nos Lun, Rhagfyr 23 yng Ngwesty'r 'Dingles' yn Ninas Dinlle bydd Swper Nadolig i oedolion yn unig. Pris £4.25 – am gawl, twrci, sglodion, pys, pwdin a choffi. Mae poster yn Siop Gron, enwau i Mrs Elisabeth Jones cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda. Bydd bws wedi ei drefnu.

TRIP I FANCEINION: Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon am 7.45 a.m. o King, Sadwrn Rhagfyr 7. Arian i Margaret cyn Rhagfyr 7 os yn bosibl.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i bawb sy'n sâl yn y pentref.

DIOLCH: Dymuna Mrs Rowenna Williams, Llwyn Derw, ddiolch o waelod calon i staff a phlant Ysgol Tan-y-coed am yr anrhegion a'r blodau hardd. Mwynhaodd ddarllen y cerddi a'r storïau amdani yn y llyfr lloffion, "Yr Ysgubell Aur" a dotiodd at luniau'r plant ohoni hi a Gwyn y ci. Mawr ei diolch hithau am gydweithrediad Mr Len Jones a Mr Gwyn Mowll, yr athrawesau a staff y gegin ar hyd y blynyddoedd. Derbyniodd dusw o flodau sidan gan bwyllgor yr eisteddfod hefyd a charai ddiolch yn fawr iddynt. Carai ddiolch i'r Clwb leuenctid am eu rhodd hwythau ac i Sioned, Elaine ac Eurgain Haf am y blodau.

PÊL-DROED GENETHOD YR URDD: Bnawn Llun, Tachwedd 18 am 4.00 o'r gloch cafwyd gormes galed ar gae pêl-droed Ysgol Bontnewydd. Genod tebol Penisarwaun yn herio genod medrus adran bentref Bontnewydd. Y rheolwr 'diduedd' oedd Dafydd Evans. Cafwyd chwarae caled a glân, a medrus iawn ar adegau hefyd. Wir hogiau, roedd un neu ddwy o'r genod yn ddipyn o lan Rush a Mark Hughes coeliwch fi! Wedi hanner awr o chwysu a chwythu, Bontnewydd a orfu o 3 gôl i 2, ond byddwn yn barod amdanoch y tro nesaf Bontnewydd! Diolch ichi am gêm mor gyfeillgar a glân a gobeithio wir y cawn gêm eto yn y gwanwyn gan fod ein genod ni (a'r cefnogwyr brwd) wedi mwynhau eu hunain yn arw iawn!

YSGOL SUL BOSRA AC EGLWYS SANTES HELEN: Pasiwyd i wneud te parti Nadolig i blant yr Ysgolion Sul uchod yn Neuadd yr Eglwys, Rhagfyr 20. Bydd Siôn Corn yn siŵr o ddod i weld y plant.

AR Y TELEDU: Gwyddom mor amryddawn yw Arwel Jones, Pant Hywel, – actor, canwr, ie a digrifwr! Ni fydd Tomos Robaits fyth farw gan fod Arwel wedi enwi ei gath ar ei ôl. Cafwyd dipyn o hanes doniol Tomos Robaits gan Arwel ar raglen Gari, "O na byddai'n haf o hyd", nos Lun Tachwedd 11.

ROLLS A CHEFFYLAU: Rydym ni blant a phobl Penisarwaun yn hen gyfarwydd â gweld ceffylau gwedd fferm Tros y Waun. Gwyddom am lwyddiant Mr W.H. Griffith gyda'r anifeiliaid rhyfeddol hyn ar hyd y blynyddoedd. Do, fe enillodd sawl gwobr, gan gynnwys gwobr, 'Ceffyl y Flwyddyn'. Y mae hefyd yn feirniad o fri. Ond nid perchen ceffylau gwedd yn unig ydyw, achos daeth Mr Griffith yn berchen Rolls Royce nos Fawrth, Tachwedd 12, am 7.30 ar raglen Dei Jones, 'Cefn Gwlad', gwelwyd Dai Jones yn gyrru'r Rolls Royce hwnnw. Ond fydd Mr Griffith ddim yn mynd yn y Rolls Royce, NFWI i brynu ceffylau, "O na" meddai yn ei ffordd ffraeth ef ei hun, "mynd yn y car sala y bydda i, rhag ofn iddyn nhw feddwl bod gen i ddigon o arian." Yn sicr roedd pawb wedi mwynhau y rhaglen ac efallai y bydd Dai Jones yn ôl eto i wneud rhaglen arall ar eich defaid a'r fyharen arbennig sydd gennych!

LLONGYFARCHIADAU: Balch ydym o longyfarch Ffion, 11 Bryn Eglwys am ei llwyddiant mewn arholiad nyrsio.

Gofalwr newydd Ysgol Tan-y-coed yw Mrs Gwenda Jones, 11 Bryntirion. Llongyfarchiadau, rwy'n siŵr y byddwch yn hapus yng nghwmni'r plant.

DIOLCH: Dymuna Angela a Len Jones ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr anrheg hynod ddefnyddiol a gyflwynwyd yn Ysgol Tan-y-coed yn ddiweddar.

Gwrachod Penisarwaun.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8 Glanrafon (870733)

LLONGYFARDCHIADAU: i Mrs Ann Jones, 2 Nant-ffynnon ar fod yn nain eto. Ganwyd merch fach i Hilda a Wyn Morris, Y Ddôl, Bethel. Dymuniadau da a phob bendith i'r teulu.

O'R YSBYTY: Balch ydym o groesawu Mr Arthur Williams, Pennant gartref o'r ysbyty. Dymunir llwyr wellhad iddo yn fuan.

LLONGYFARCHIADAU i Jennifer Ellis, Hafan ar fod yn llwyddiannus yn ei phrawf gyrru ar y cynnig cynta'. Da iawn Jennifer!

DIOLCH: Dymuna Arthur Williams, Pennant ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am y cardiau, ymholiadau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn ysbyty Llandudno, ac ar ôl dychwelyd gartref. Diolch yn fawr i bawb.

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Pat Owen a phawb yn
SIOP GRON
PENISARWAUN
A SWYDDFA'R POST
Ffôn: Llanberis 871272
Diolch yn fawr am eich
cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Byth o'r ddaear ffefa'r llwch
Glod i gewri gwladgarwch.

Dyfed

BURMA 1945

Bydd darllen y penillion canlynol yn sicr o ennyn mwy o frwdfrydedd ynnom i weithio dros Fudiad Dileu Arfau Niwcliar a holl baratoadau rhyfel. Y mae cofio Dydd Cadoediad y ddau ryfel byd yn dŵad â theimladau trist iawn i bawb.

Cyfansoddwyd penillion canlynol gan Mr John Parry, 14 Maes Llety, Pontrhydybont, Caergybi i gofio am ei gyfaill Ifan Richard Williams, Pen y Ffordd, Bodffordd, Ynys Môn (brawd i Charles Williams yr Actor enwog). Collodd Ifan Richard Williams ei fywyd yn Burma ar Fehefin 4ydd, 1945.

Y mae'r penillion yn adrodd yr hanes ac yn disgrifio profiad John Parry heddiw. Gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug y cefais i'r penillion. Cafwyd caniatâd gan Mr John Parry i'w rhoi yn 'Eco'r Wyddfa'. Diolch yn fawr i bawb. Yr oedd Mr Cledwyn Williams hefyd yn gwasanaethu yn Burma yr un amser. Y mae ei gyfeillgarwch gyda Mr John Parry yn dal o hyd ers deugain mlynedd.

Symudwyd John Parry a'r diweddar Ifan Richard Williams i Gatrawd Saesneg, a nhw oedd yr unig Gymry oedd yn y Gatrawd. Cawsont brofiad ofnadwy o orfod cerdded am bedwar cant o filltiroedd trwy wres tanbaid y Trofannau i gyfeiriad Mandalay. Clwyfwyd Ifan Richard Williams yn ddifrifol a bu farw ym mreichiau John Parry ar faes y frwydr.

IFAN RICHARD

Do, aeth deugain mlynedd heibio
Ifan Richard, f'annwyl ffrind,
Fel mae'r amser wedi hedfan
Fel mae'r amser wedi mynd.

Llawer milltir a gerddasom
Dros hen grasdir Burma boeth,
Syched bron â'n llethu beunydd
A'n traed yn aml yn gig noeth.

Hiraeth ddeuai'n aml hefyd,
Am 'rhen deulu draw ym Môn
Cefaist lythyr gan fam annwyl
Ac am Charles yr oedd yn sôn.

Dwedai wrthyf 'ramser honno,
Fel roedd ar y BBC
Wedi cychwyn ar ei yrfa
Actor campus yn ei fri.

Edrych i'r dyfodol wnelai
Am i ti pan ddoet yn ôl,
Uno â Charles yn ei gampweithiau
Wedi'r brwydro creulon ffôl.

Ond wrth ddarllen imi'r llythyr
Gefaist gan dy annwyl fam,
Torri wnest i lawr i wylo
Minnau'n fud yn gofyn pam.

Doedd dim amser 'radeg honno
Rhaid oedd cerdded trwy y tân
A rhyw swyddog draw yn gweiddi
"Keep your heads down," fechgyn glân.

Taith ofnadwy ydoedd honno
O Tamia i Mandalay,
Milltir ar ôl milltir beunydd,
Pedwar cant cyn dod i dre.

Ond rhyw noswaith ger y coedydd
A'r haul yn machlud dros y bryn,
Ninnau'n gorffwys ar ein paciau,
Yn flin 'rôl cerdded erbyn hyn.

Daeth rhyw sŵn, sŵn magnel yma
A sŵn dryll yn tanio draw,
Tanio yma, tanio acw,
Ninnau'n gorwedd yn y baw.

Ac yn sydyn cefais ergyd
A'm parlysodd yn fy nghoes,
Ac wrth edrych o fy nghwmpas
Ifan hefyd gafodd loes.

Llusgwyd ef o'r tân gan rywrai
Pam oedd raid i fachgen llon,
Gael ei glwyfo mor ofnadwy?
Do, bu farw ar fy mron.

Rhoed ei gorff i lawr i orwedd,
A'm gadael innau wrthyf f'hun
Colli'r unig ffrind a feddwn,
Minnau'n wael a llwyd fy llun.

Ond daeth emyn bach i'm meddwl
Tra'r oedd ef yn croesi'r lli,
"Arglwydd Iesu mae yn nosi
Aros yma gyda mi."

Wedi cyrraedd yr ysbyty
Ysgrifennais at ei fam,
Er rhoi iddi air o gysur
Na chafodd Ifan ddioddef cam.

A sawl mam neu gâr yng Nghymru,
A gadd newydd trist a llym,
Poeni sut i'w hanwyliaid farw
Ond hyd heddiw'n gwybod dim.

JOHN PARRY,
CAERGYBI

ALUN WYN JONES

Lladdwyd Alun Wyn Jones yn agos i Singapore yn 22 mlwydd oed. Y mae'r englyn canlynol wedi ei gerfio ar ei Dablet Coffa yn Ystafell y Crosville Caernarfon. (Rhagfyr 1946)

O'r trinoedd a'r taranu – Alun Wyn
Eilun hoff, sy'n cysgu:
Wedi'r oesoedd daw'r Iesu,
Ei annwyl frawd, i'w nôl fry.

(G.R.)

BECHGYN PENISARWAUN

Ar Dablet Er Cof am Fechgyn Penisarwaun a gollwyd (Tachwedd 1949) y mae'r englyn canlynol:

Tristwch y rhyfel trosti – sy ar wedd
Penisarwaun ddifri':
O'r drin a'r hir drueni
Aeth angau a'i hogiau hi.

(G.R.)

NOWIE JONES

Bu Nowie Jones, 3 Rhos Rug, Llanrug farw yn yr Eidal yn garcharor rhyfel (Gorffennaf 1943).

Yn arwr gŵyl ym mro'r gelyn – ef oedd
Heb fai yn ei erbyn:
Ond rhywfodd ehedodd wedyn
I ofal Duw o afael dyn.

(G.R.)

Er Cof Am Griffith Alun Williams, Hawthorn, Los Angeles, Califfornia, U.S.A. (Mehefin 1955)

Argraffwch ar ro Gruffydd – gu eiriau
O gariad na dderfydd:
Uwch ei lannerch rhowch lonydd,
Mae'i hen fro o'i briddo'n brudd.

(G.R.)

A 'nhad Glan Rhyddallt ydyw awdur pob un o'r Englynion Coffa uchod.

CYFARCHION PEN-BLWYDD

Ein llongyfarchion i Mrs Mary Lloyd Williams, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 83 oed.

– Y Golygyddion

TEULU LLYS AWEN

Teulu Llys Awen, Llanrug — y tro olaf y buont gyda'i gilydd ar nos Sadwrn, Awst 1918 — Isaac Lloyd (Glan Rhyddallt), ei wraig Margaret, a'r plant William John, Robert, Mary a Megan. Collwyd Robert yn y Rhyfel.

ER COF AM ROBERT LLOYD

Pwy na wyddant pa newyddion – a gyrch
Tri gair, "Killed in Action",
Du eu lliw, tri briw i'm bron;
Eu celu ni all calon.

Fy hogyn a'i fyw agwedd –
Sŵyn fy oes, sy' yn ei fedd.

Bob, annwyl gan bawb y'i henwid – gan bawb
Wyneb hardd hwn gerid:
A gwên yr aeth dan gain wrid – trwy'r anodd,
A'i oll a roddodd ar allor rhyddid.

Bri ei nerth a'i brydferthwch
A gariai y llanc teg i'r-llwch.

Geiriau ei enau oent nawdd gwarineb,
Dihafal ei ardal mewn disgleirdeb:
Llanc cu a lluniaidd, yn llawn callineb,
Hoyw y rhodiodd Bob lwybrau cywirdeb:
Aeth a'i lond o ffyddlondeb – i Ffrainc, do,
Ei daear sy' heno dros ei wyneb.

Gwyliai fi yng nghur gwaeledd – erch adeg
Gwarchodai fi'n eurwedd
A'i ddull esgud, pan oedd llesgedd
Bron taro'm hoes, bron torri' medd.

Ei ddigrif fyw ysgrifau – o adwyth
A gododd ein c'lonnau:
Ow ust dwfn! heno'r tristáu
Oll i ing wnaeth llaw angau.

Ei hyfrydwch cyn ei frwydyr – olaf
Oedd hwylio serch lythyr
I'w eirian fam: gair yn fyr
Distaw a'i lond o ystyr.

Ddoe'r gâd a'i brad a'i gwnai'n brin,
Heddyw ebrwydd mae'n ddibrin.

Ai'r foliant o sŵn rhyfeloedd – a gân
Yng ngwiw gôr y nefoedd:
I fyd o haf aeddfed oedd,
Un i fod mewn nef ydoedd.

A gawn ni'n iach Bob bach, heb bechod – eto
Ddod atat rhyw ddiwrnod:
Yma'n hir ti gei glir glod,
Fyw arwr, – wylaf erod.

O bridd y ffridd daw fflur Ffrainc
I dyfu, mewn gwrid ifainc
Ar dy fedd, ac er dy fwyn.
'E leddfa'r awel addfwyn,
Ar dy lwch, hi wyla'r dlos
Alarnad, dawel hirnos.
Yno y frwynen fireiniaf
Wyla yn glws ei chalon glaf.
Dwg irwellt ei deg goron –
Eurdwf rydd fyth ar dy fron,
Daw angylion y nef hefyd
I wylio'r bedd nes chwalo'r byd.

Glan Rhyddallt, (Ei Dad)

DYDDGYLCH 1919

Aeth blwyddyn heibio a ninnau'n brudd,
Yn disgwyl llythyr o ddydd i ddydd,
Ond dwg tlws adgof lewyrch o'th wedd
I lenwi'n calonnau â thawel hedd.
Byw rwyt ti Bob – byw byth yr un oed,
Gwyddom mai byw oedd dy bleser erioed:
Rwyt bellach o gyrraedd brad mawrion y byd,
Fydd môr tragwyddoldeb ddim digon i gyd,
I olchi eu dwylau o'th waed gwirion di,
Byw mwyach, cân bellach yng Ngwynfa dy Ri.

GLAN RHYDDALLT

ATEB LLYTHYR E.O.

Dyma'r manylion y gofynnwch amdanynt:

Daw Barddas allan bob mis trwy'r post. Pum punt yn y flwyddyn yw ei bris i'r aelodau, 75c ei bris i'r cyhoedd am un rhifyn.

Enw'r golygydd: Alan Llwyd, Pen y Bryn, Felindre, Abertawe, Gorllewin Morgannwg, SA5 7LY. Ysgrifennydd: Dafydd Islwyn, 106 Heol Llancayo, Bargoed, Morgannwg Ganol.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .

BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

CLWB FFERMWYR IFANC CAERNARFON – Bu'r Clwb yn cyfarfod bob nos Fawrth ers mis Medi yn Neuadd Goffa Bethel, a chafwyd nifer o nosweithiau difyr. Bu nifer o aelodau yn Noson Swyddogion y Sir yn Llanberis. Hefyd bu pedwar aelod yn y Gystadleuaeth Gwybodaeth Gyffredinol yn Nyffryn Ogwen ym mis Hydref a daethant yn gydradd ail Y pedwar oedd Ellen Hughes, Andrew Jones, Myfyr Jones a Morfudd Williams. Yn y cyfarfod nos Fawrth, Tachwedd 14, ffarweliwyd â Morfudd Williams, y cadeirydd a dymunwyd y gorau iddi ar ei swydd newydd yn Sussex.

CYMDEITHAS LENYDDOL BETHEL – Nos Fawrth, Tachwedd 14, cafwyd darlith ddiddorol gan John Gwilym Jones yn dehongli gwaith bardd, nofelydd a dramodydd. Nos Fawrth, Tachwedd 28, cynhaliwyd noson gyda Chymdeithas Lenyddol Llanrug.

YR EISTEDDFOD – Dydd Sadwrn Tachwedd 2 cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn gyda'r plant yn gwneud gwaith ardderchog yng nghyfarfod y prynhawn a chyfarfod yr hwyr yn adlewyrchu'r dalent sydd ar gael yn y pentref. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran ac yn arbennig i Mrs M.G. Williams, ysgrifennydd y pwyllgor ar ennill cadair yr Eisteddfod.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod.

ORDEINIO – Nos Iau, 21 Tachwedd, mewn oedfa yng Nghapel Bethel, ordeiniwyd Mr Harold Parry Jones gan y Prifathro R. Tudur Jones. Cyflwynwyd Mr Jones i'w ordeinio ar ran yr Eglwys gan Mr O.R. Parry.

Dymunir pob bendith i Mr Jones yn ei weinidogaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Alan Williams, Cefn Isa, ar ei briodas â Glenda Vaughan, Idan House, Llanberis.

YR YSGOL FEITHRIN – Bu Arwel, Anwen a Sion, 16 Tan-y-Cae, ac Eirian, Ysgoldy yn casglu arian noson Calan Gaeaf a chyflwyno £7.20 i'r Ysgol Feithrin. Diolch yn fawr iawn i chwi eich pedwar. Mae cardiau Nadolig yr Y.F. ar werth gan Mrs Rita Williams, 4 Tan y Cae. Pris £1 am 10.

YR URDD – Mae 90 o docynnau wedi eu cadw i aelodau'r Urdd a'u ffrindiau, ar gyfer nos Wener, Ionawr 10, 1986 am 7 o'r gloch i weld y pantomeim 'Go Fflamia' yn Theatr Gwynedd. Pris i oedolion yw £3 a Phlant £1.80. Enwau mor fuan ag sydd modd i Mrs Rita Williams os gwelwch yn dda.

Erbyn hyn mae'r gangen wedi mwynhau nosweithiau difyr yng nghwmni Mr Dewi Lake, Ann Hopcyn, Mr Oscar Evans, a Mr Hywel James, llyfrgellydd y plant yn adran Llyfrgell y Sir.

MERCHED Y WAWR – Cafwyd noson arbennig o dda yng nghyfarfod mis Tachwedd gyda nifer dda o'r aelodau wedi dod ynghyd â rhai aelodau newydd hefyd.

Y wraig wadd oedd Mrs Heather Wyn Jones o Lanberis a chroesawyd hi gan y llywydd, Mrs Mair Price. Dangosodd Mrs Heather Jones sut i addurno teisennau Nadolig. Addurnodd deisennau Nadolig pedair aelod: Mrs Gwyneth Jones, Fachell; Mrs Bei Owen; Mrs Eirlys Williams, Y Ddôl, a Mrs Nan Owen. Cafwyd llawer o gynghorion diddorol ganddi, a daeth â chwe theisen gyda hi i ddangos gwahanol addurniadau. Rhoddodd un yn rhodd i'w rafflo ar y noson.

Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Mair Jones, Glan Gors, enillwyd y raffl gan Mrs Mair Price, Tan-y-Ffordd. Darparwyd y lluniaeth gan Mrs S. Hughes, Bro Rhos, Mrs M.G. Williams, Gwylfa, Mrs E. Jones, Awel-y-Grug. Diolchodd y llywydd i Mrs A.E. Williams, Tŷ Newydd a Mrs H. Griffiths, Tre Gof am gynrychioli'r gangen yn Ffair Hydref yr Anabl. Llongyfarchwyd Mrs M.G. Williams ar ennill Cadair yr Eisteddfod. Dymunwyd gwellâd i Mrs Eirlys Sharpe, Ael-y-Bryn, a chydymdeimlwyd â Mrs Eirlys Williams, Y Ddôl, ar golli ei nain.

Etholwyd Mrs Nora Parry i gynrychioli'r gangen ar bwyllgor y Neuadd.

Mis nesaf, Rhagfyr 11, bydd y gangen yn mynd i Blas Menai i gael cinio Nadolig. Bydd y bws yn cychwyn o'r ysgol am 7.30pm.

CYDYMDEIMLO – Fore Llun, Tachwedd 11, yn dawel yn ei gartref, bu farw John Idris Roberts, Y Rhos. Wedi'r angladd ddydd Iau, Tachwedd 14, canodd ei gyfaill J.R. Jones, Brynsiencyn y Blodyn Coffa yma.

Blodyn Coffa i
JOHN IDRIS ROBERTS

'Roedd Tachwedd yn ei ddagrau,
a'i oerwynt megis cledd;
yn Llanddeiniolen heddiw
tra'n gollwng Shôn i'w fedd.

'Run hyd a lled gadd yntau
â chyn drigolion bro;
ond yn 'run gist ni roddwyd
yn fud risialach co'.

O'r 'Rhos' i Landdeiniolen,
symudwyd fwy nag un –
a llawer ddoe a'i firi
adawodd o eu llun.

J.R. Jones, Brynsiencyn.
14 Tachwedd 1985.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth.

Mrs M.G. Williams, Prif Lenor yr Eiseddfod.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau leol.

Trem ar Gyfraith Hywel gan A.D. Carr a Dafydd Jenkins. Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda. £1.50. Golwg ar gyfreithiau Hywel Dda a'u harwyddocâd yn eu cyfnod.

Paradocsau gan Edi Foirbeis Climo. Y Ganolfan Adnoddau, C.P.C., Aberystwyth. £2.00. Casgliad o bosau paradocsaidd o ddiddordeb i athrawon mathemateg, disgyblion ysgol a lleygwyr chwilfrydig.

Hen Reffynnau'r Gorffennol a'm Dirwyn i Adre'n Ôl gan Gwenllian Dwyryd. Cyngor Sir Gwynedd, Gwasanaeth Llyfrgell. 70c. Darlith Flynyddol Llyfrgell Blaenau Ffestiniog.

Eglwysi Cymru gan Mari Ellis a Marged Dafydd. Y Lolfa, £2.45. Llyfr newydd yn y gyfres Teithio Cymru.

Nesa I Adrodd gan Selwyn Griffith. Yr Awdur. £1.00. Casgliad o adroddiadau i blant.

Yr Onnen Unig gan Gwilym Meredydd Jones. Gwasg Gomer. £2.50. Nofel gyfoes yn gymysg o serch, trais a thrasiedi.

Dafydd — Tywysog Olaf Cymru gan Ralph Maud. Cofiwn. £1.50. Cip ar fywyd y tywysog Dafydd, gŵr y rhoes ei ddienyddiad yn 1283 ben terfynol ar y drefn a sefydlodd Macsen Wledig naw canrif ynghynt.

Groeg: Y Bumed Ganrif CC gan Gerald Morgan. Y Ganolfan Adnoddau, C.P.C., Aberystwyth. £2.50. Hanes gwlad Groeg yn ystod y bumed ganrif cyn Crist.

Trai a Llanw a Storïau Eraill gan Glenys Pritchard. Gwasg Tŷ ar y Graig, £3.00. Casgliad o storïau byrion.

Gwasanaethau'r Cartref gan Alwena Tomos. Y Ganolfan Adnoddau, C.P.C., Aberystwyth. £1.00. Llawlyfr ar gyfer disgyblion ysgol yn egluro'r gwahanol wasanaethau a ddaw i'n cartrefi.

Adar Prin gan Islwyn Williams ac E.V. Breeze Jones. Gwasg Dwyfor. £3.00. Llyfr newydd yng Nghyfres yr Adar gyda darluniau lliw-llawn.

Ysgrifau Beirniadol XIII gol. J.E. Caerwyn Williams. Gwasg Gee. £7.50. Y drydedd gyfrol ar ddeg mewn cyfres o astudiaethau ar bynciau llenyddol a ieithyddol.

D. LL. OWEN
1 BRYN AFON TERRACE, LLANRUG
FFÔN C'FON 76699
Cludo Llwythi Bychan a Chlirio Safleoedd Llwythi 3 Tunnell Hefyd Trin Gerddi a Thorri Gwair

DOCTOR PENYBRYN

Hanes 'meddyg teulu cymdogaeth' yw *Doctor Penybryn* (Cyhoeddiadau Mei) a ysgrifennwyd gan Guto Roberts. Y 'doctor' wrth gwrs yw Owen Elias Owen, a fagwyd ym Mhenybryn, Cricieth, a'r 'teulu' yw pobol Gwynedd ac yn arbennig pobol Eifionydd.

Ysgrifennwyd stori bywyd y dyn rhyfeddol hwn fel y cyfeiria'r awdur ato yn ei Gyflwyniad, gan ffrind ysgol iddo, Guto Roberts, a eglura mai canlyniad sgyrsiau rhwng te a swper ar Suliau a recordiwyd ar dâp, yw sail yr atgofion. Da y dywed "Gwn o'r gorau y bydd cannoedd o Wynedd a Bro Morgannwg, a fu o dan ei ofal, yn falch o'r cyfle i ddarllen am y gŵr rhyfeddol hwn o Eifionydd a roes flynyddoedd o wasanaeth i leddfu poen a chysuro ei gleifion mewn dull cartrefol a dirodres, a hynny yn yr iaith Gymraeg, sydd yn ôl ei gred a'i brofiad, yn hawl foesol i bob un a faged o'i grud i siarad yr iaith honno."

A dywed Mr Owen ei hun ei fod yn teimlo'n "freintiedig iawn", pan fydd yn triniaethu ar gyfoedion ysgol, ei fod yn medru eu gwasanaethu.

Yn y llyfr ceir peth o hanes teulu'r llawfeddyg ymgynghorol, a thoreth o atgofion am ei blentyndod gyda'i bedwar brawd yng Nghricieth, yn ogystal â chip ar ei yrfa feddygol yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor a Chaeredin. Cawn ei hanes hefyd yn y Fyddin pryd y treuliodd ddwy flynedd yn Malaya, ac mewn ysbytai yn Llundain, America a Phenybont-ar-Ogwr. Cawn gip hefyd ar ei ddiddordebau yn magu hwyaid, gwyddau, ieir a cheiliogod gêm ym Mrynmeurig, Tregarth, ei gartref presennol. Anrheg Nadolig diddorol a gwerth dwbwl y pris o £2.30.

PWYLLGOR MERCHED ARFON, PLAID CYMRU

Yn dilyn eu llwyddiant gyda siop ddillad ail-law ym mis Ebrill, mae pwyllgor merched Arfon o Blaid Cymru wedi penderfynu unwaith eto i agor siop am ddeuddydd ym mis Rhagfyr.

Ond y tro yma gwerthu danteithion ar gyfer y Nadolig fyddant ym Mhen-llyn, Caernarfon (Siop Robert Williams, ffrwythau gynt). Mae'r merched eisoes yn paratoi gwaith llaw, anrhegion a bwydydd o bob math. Bydd digon o deganau yno hefyd.

A'r dyddiad? Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, Rhagfyr 6 a 7.

Os na chewch gyfle i gyfrannu nwyddau i'r siop, peidiwch â phoeni, bydd cyfle i chi gefnogi'r fenter drwy ddod yno i brynu. Bydd disgwyl mawr amdanoch, a chroeso yn eich aros.

Os hoffech ddod i helpu i'r siop, neu os ydych am unrhyw wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â: Vera Williams, Llanrug, ffôn Caernarfon 4878; Meirwen Lloyd, Llanrug, ffôn Caernarfon 5359; neu Olwen Llywelyn, ffôn Waunfawr 200.

CYFARCHION DEINIOLEN

Nadolig yw . . .
. . .Gwledda?
Anrhegion?
Na!

Nadolig yw . . .
. . .Duw yn anfon ei
Fab, Iesu, i fod yn
Waredwr i TI
. . .Cyfle i TI
ddweud
diolch i Dduw
am IESU
– Y WINLLAN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

John Arwel a Jean Roberts

CABS DEINIOLEN

4 FFORDD DEINIOL
DEINIOLEN
871591

Buasem yn falch o'ch cefnogaeth yn ein busnes newydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

SLING

Golygfeydd i Deledu a Ffilm

Tabernacl
Ffordd Deiniol
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 872044

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
Mr a Mrs

JACOB A. JAMES

Regent House
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870461

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

CYFARCHION Y TYMOR
A'R DYMUNIADAU
GORAU AM Y FLWYDDYN
NEWYDD
oddi wrth
GWYN OLIVER JONES

Tafarn Datws Arfonia

DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 870048

DYMUNA CLARICE,
DELYTH, JOHN a STAFF

Y TARW BULL INN

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i gwsmeriaid a chyfeillion oll

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth holl staff

D & A SUPERMARKET

STRYD NEWYDD
DEINIOLEN
Ffôn 870171

Diolch am bob cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

DAVID, CAROL
A'R STAFF

WELLINGTON INN

Deiniolen

Ffôn: Llanberis 870227

Cwrw blasus – chwerw ar ei orau

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

MWY O GYFARCHION O DDEINIOLEN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid a chyfeillion oddi wrth bawb

SIOP EDNA

Stryd Fawr

DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 872511

DILLAD A GWLÂN, SLIPARS ETC.

Presant i bawb o'r teulu!

Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o weithdy crefftau

CREFFT·ELLDIR

SIOP AMAN Stryd Fawr DEINIOLEN *Ffôn: Llanberis 871210*

Hefyd dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu

THOMAS & JONES Gwydrwyr

YR HEN SINEMA

STRYD FAWR

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870680 neu 870486

Cedwir, torrir, danfonir a gosodir pob math o wydr.
Gwydro Dwbl, Drysau Patio a Ffenestri Aliwminiwm a P.V.C.

Ar Agor 8-5 Llun-Gwener. 8-12 Sadwrn.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

CLOG

OFFER DRINGO A DIOGELWCH

CLOGWYN DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870551

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB oddi wrth CLIFFORD, DIANA, NIA RHIANNON AC EIRA

Swyddfa'r Post DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 870283

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

R.A. THOMAS

CIGYDD

BRISTOL HOUSE

DEINIOLEN

Llanberis 870297

NADOLIG LLAWEN a BLWYDDYN NEWYDD DDA i chwi oll

oddi wrth

W.H.Jones

CIGYDD

WAENGOCH DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870638

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

JONES + JONES

FRON DEG CLWT-Y-BONT DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 870856

ADEILADWYR A CHONTRACTWYR

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn Neuadd yr Ysgol ar Dachwedd 4 dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones. Darllenodd Mrs Jones y Llythyr Misol a chroesawodd y wraig wadd, Mrs Maud Williams, Caernarfon. Cafwyd noson ddifyr gyda Mrs Williams yn dangos i'r aelodau sut i ddawnsio gwerin. Diolchwyd i Mrs Williams gan Mrs Nancy Rowlands. Rhoddwyd y te gan Mrs Nancy Rowlands, Mrs Gwen Hughes a Miss Beti Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Eirlys Lloyd Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 2 sef ein Cyfarfod Blynyddol gyda Mrs Maud Williams, Caernarfon. Taer erfynnir am bresenoldeb yr oll o'r aelodau i'r cyfarfod.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD DISGWYLFA (MC): Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd nos Fercher Tachwedd 6. Cymerwyd y rhan ddefosiynol o'r cyfarfod gan Mrs H.W. Jones. Dewiswyd swyddogion am y flwyddyn 1986 sef Mrs M. Lewis (Llywydd), Mrs B.W. Davies (Trysorydd), a Mrs H.W. Jones (Ysgrifennydd).

Bydd Clwb i'r plant o'r enw 'Hwyl Hwyr' yn dechrau nos Fawrth Tachwedd 19 ac yn dilyn hyn bydd arholiad i'r plant ym mis Mai. Gwneir apêl am bresenoldeb cynifer o blant a dymunir pob hwyl i'r fenter newydd hon.

Y flwyddyn nesaf bydd Sasiwn y Chwiorydd yn cael ei chynnal ar Fai 15 yn Lerpwl. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 5 o'r gloch yng Nghapel Ffordd Heathfield a bydd bws yn cael ei drefnu ar gyfer y diwrnod.

Treuliwyd yr ail ran o'r cyfarfod yn darllen a thrafod rhannau o'r Ysgrythur ar "Beth yw gwaith yr Eglwys?" o dan arweiniad Mrs Miriam Lewis.

Rhoddwyd y te am y mis hwn gan Mrs H.W. Jones, a bydd y te am fis Rhagfyr yn cael ei roi gan Mrs M. Lewis.

Anfonir cofion cynnes oddi wrth Chwiorydd Disgwylfa at bawb sydd yn wael mewn ysbytai a chartrefi, ac unrhyw aelod arall o'r Eglwys sydd yn dioddef o anhwylder.

Yn y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 5 bydd y rhan gyntaf mewn trefn gwasanaeth Nadolig, ac yna bydd yr ail ran ar ffurf sêl 'Cyrchu a Phrynu'. Estynnir croeso i chwi Chwiorydd.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod ddydd Mawrth Tachwedd 19 yn y Clinig dan lywyddiaeth Mrs C. Marren. Rhoddwyd y te gan Mrs L.M. Williams, Mrs Idwen Thomas, Mrs Annie M. Morris, Mrs Kate Ellen Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs L.M. Williams. Cydymdeimlwyd â Mrs Nellie Hughes, Erw Fair ar golli ei mab yn frawychus o sydyn. Y wraig wadd oedd Mrs Kate Ellen Davies yn siarad am hen gartrefi yr ardal. Cafwyd prynhawn hynod o ddifyr. Talwyd diolch gan Mrs C. Marren. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth Rhagfyr 3. Bydd swper Nadolig y Clwb Rhagfyr 12 yn y Foelas, Llanrug.

Cynhaliwyd cyfarfod Tachwedd 5 dan lywyddiaeth Mrs C. Marren. Rhoddwyd y te gan yr aelodau canlynol: Mrs Nancy Rowlands, Mrs Jane Eirlys Williams, Mrs Eirlys Lloyd Jones, a Miss Eileen Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Jane Jones. Treuliwyd gweddill y prynhawn yn gwrando ar Miss Nia Llewelyn Jones, Llaniestyn yn rhoi sgwrs a ffilm ar waith da y mae Doctor Barnardo yn ei wneud. Talwyd diolch i'r wraig wadd gan y llywydd a Mrs Ellen Williams. Swyddogion y clwb: Llywydd: Mrs C. Marren, Is-lywydd: Mrs Miriam Lewis, Ysgrifennydd: Mrs Megan Morris, Trysorydd: Mrs Sally Lewis. Gofalwr y cofnodion: Miss Kathleen Jones. Aelodau eraill y pwyllgor: Mrs Ethel M. Roberts a Mrs Hannah J. Thomas.

DYRCHAFIAD: Llongyfarchiadau i Malcolm Allan ar gael ei ddewis i chwarae pêl-droed i dîm cyntaf Watford. Cafodd ei gêm gyntaf yn erbyn West Ham. Dechreuodd ei yrfa fel pêl-droediwr gyda Chlwb Ieuenctid Deiniolen, chwarae i dîm yr ysgol, Tîm Ieuenctid Gwynedd. Yn barod mae wedi ennill sawl cap dros Gymru dan un ar hugain oed.

Gobeithiwn y gwelwn Malcolm yn cael ei gap llawn cyntaf dros Gymru yn fuan iawn. Pob lwc yn y dyfodol Malcolm.

Y SEINDORF: Ar ddiwrnod y Cadoediant cafwyd Gwasanaeth o flaen y Gofgolofn er cof am y bechgyn a gollwyd yn y ddau Ryfel Byd.

Roedd y gwasanaeth dan ofal Mr Trefor Lewis (BA). Cafwyd dwy emyn gan y Seindorf, canwyd y Post Olaf a'r Refali gan Mr Ieuan Morris. Rhoddwyd torchau gan y Llen Brydeinig a'r St Johns a pherthnasau.

Ar Dachwedd 23 roedd y Seindorf yn cystadlu yng Nghei Conna am bencampwriaeth Gogledd Cymru. Eu hyfforddwr yw Mr Nicholas Childs, Swydd Efrog. Y canlyniad yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Tachwedd – 1. £25, Mrs Nesta Barnet, 2 Tai Rhiwen, Deiniolen; 2. £15, Barry Price, 44 Pentre Helen; 3. £8, Mrs L.M. Lewis, Llys Annedd, Deiniolen.

DIOLCH: Dymuna Arthur Owen, 29 Stryd Newydd ddiolch i'w berthnasau cymdogion a'i ffrindiau am yr anrhegion, arian a'r llu cardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd; hefyd diolch arbennig i staff a'r meddygon Ward Gogarth am eu gofal di-flino, ac i'r Parch Trefor Lewis a'r meddyg teulu. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Mrs Doris Pleming, 12 Maes Gwylfa ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am y caredigrwydd mawr a dderbyniodd tra bu'n derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar; am y llu cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion. Diolch arbennig i'r meddygon a staff Ward Ogwen am eu gofal di-flino.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI, DEINIOLEN A'R CYLCH: Fe'i cynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser ddydd Sadwrn, Hydref 26, 1985. Yn ôl y beirniaid Mrs Valerie Ellis, Mynytho (cerdd) a'r Parch Isaac Jones, Abergele (llên ac adrodd) yr oedd y cystadlu o safon uchel. Dyna hefyd farn y beirniaid eraill sef Mrs Eirlys Hughes, Deiniolen (coginio), Mrs Arfona Davies, Bangor, (gwau a gwnio), Mr Gwilym Williams, Deiniolen (gwaith coed), Mr Kevin Jones, Rhiwlas, (arlunio, gwaith llaw a ffotograffi), a Mrs Janice Land, Llanddeiniolen (trefniant blodau). Trefnwyd arddangosfa ganmoladwy o waith llaw y goreuon yn y festri, ddydd yr eisteddfod.

Y cyfeilyddion oedd Mrs Annette Bryn Parri, Deiniolen a Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas, a'r arweinyddion Miss Jean Parc Jones, Mri W.J. Eames a Gwyn Parri a'r Parch Aled Edwards.

Llywydd cyfarfod prynhawn oedd Mrs G. Alwena Williams, Llanddona, a'r hwyr Mr Griffith C. Morris, Bethesda, a'r ddau yn hanu o'r ardal.

Enillwyd Cadair yr Eisteddfod gyda chanmoliaeth uchel, gan Alun Jones, athro ysgol o Landysul, Dyfed, am gerdd gaeth ar y testun 'Wynebau'. Fe'i hysbrydolwyd i ysgrifennu'r gerdd, meddai, wedi iddo edrych ar luniau wynebau'r newynog yn Ethiopia ar y teledu. Cymerwyd rhan seremoni cadeirio'r bardd gan rai o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Brynrefail, Llanrug. Yr arweinydd oedd Helen Mair Jones, a chyrchwyd y bardd i'r llwyfan gan Cheryl Parry ac Yvonne Jones, a'i gyfarch gan Sharon Williams. Y ffanfferwyr oedd Iwan G. Williams a Dylan W. Williams, a chanwyd cân y cadeirio gan Siân Gibson, sy'n fyfyriwr yng Ngholeg Cerdd Manceinion. Cynlluniwyd y ddefod gan Hefin G. Jones, ac fe'i chyflawnwyd gydag urddas ac anrhydedd. Lluniwyd y gadair gan Bryn Jones o Gwmni Sling.

Dyma'r enillwyr eraill:

ADRODD: Adran Feithrin a Dos. 1: 1. Richard, 2. Sion, 3. Rhiannon. Dos. 2 a 3: 1. Lindsey Parry, 2. Elaine, 3. Trystan. Safon 1 a 2: 1. Louise Jones, 2. Hayley Williams, 3. Martin a Huw (cyd). Safon 3 a 4: 1. Dyfan Sion, 2. Rhian Hughes, 3. Gwawr P. Williams. Dan 15: 1. Jennifer E. Jones, 2. cyd. Beryl Jones a Ffion Thomas, cyd 3. Robert Williams a Raymond Williams. Dan 19: 1. Rhian Medi Roberts, Llanfairpwll, cyd 2. Heulwen Roberts, Llanddaniel a Carys Jones, Y Ffôr. Adroddiad o'r Ysgrythur: 1. Rhian Medi Roberts, 2. Carys Jones, 3. Cheryl Williams, Deiniolen. Adrodd Digrif: 1. Jennifer E. Jones. Parti Cyd-adrodd, agored: 1. Parti Ceris. Prif

SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?
YDI HI'N SAFF I SIÔN CORN DDOD
LAWR Y'CH SIMDDE CHI?!
Cysylltwch â Dave Wood
'INSULAFLUE'
Yr Arbenigwr ar leinio simneiau
FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll
GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
J.M. JONES a'i FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU
DEINIOLEN
(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)
Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael
Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

MERCHED, DYNION, PLANT! i gael torri a thrin eich gwallt
YN EICH CARTREF
cysylltwch â
CHERYL WARD
Mobile Hairdressing
9 Porth Gogledd
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis
870911
i drefnu amser
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

DEINIOLEN
(parhad)

adroddiad: 1. Meiriona Williams, Eglwysbach, 2. Nora Roberts, Llanddeusant, cyd. 3. Meira Turner, Waunfawr a Myfanwy Wyn Roberts, Llangefni.

CERDD: Adran Feithrin a Dos. 1: 1. Sion Jones, 2. Mair, 3. Eirona. Dosb. 2 a 3: 1. Lindsey Parry, 2. Aaron Jones, 3. Lindsey Jones. Safon 1 a 2: 1. Nia Land, 2. Anita Williams, 3. Martin Williams. Safon 3 a 4: 1. Delyth Price, 2. Dyfan Sion, 3. Rhian Hughes. Unawd offerynnol dan 12: 1. Eilir Williams, 2. Euros Williams, 3. Gavin Saynor. Unawd piano dan 12: 1. Dyfan Sion, 2. Gwawr Williams, 3. Sian Griffith. Parti canu dan 12: 1. Parti Hayley, 2. Parti Derwyn. Cân Werin dan 15: 1. Robert Williams, Penrhos Lligwy, 2. Raymond Williams, Talysarn, 3. Beryl Jones, Y Ffôr. Unawd Cerdd Dant dan 15: 1. Beryl Jones, 2. Raymond Williams, 3. Ffion Thomas, Llanrug. Undawd dan 15: 1. Raymond Williams, cyd. 2: Beryl Jones a Magwen Griffiths, Tregarth. Undawd dan 19: 1. Bethan Haf Price, Garndolbenmaen, 2. Llinos Price, Garndolbenmaen, 3. Carys Jones, Y Ffôr. Unawd Piano dan 18 oed: 1. Sharon V. Williams, Llanddeiniolen, 2. Rhian Medi, Llanfairpwll, 3. Jennifer E. Jones, Deiniolen. Deuawd dan 18: 1. Carys a Beryl Jones, 2. Bethan Haf a Llinos Price. Unawd Cerdd Dant, agored: 1. John Eifion, 2. Bethan Haf Price, 3. Llinos Price. Unawd offerynnol, agored: 1. Dylan Wyn Williams, 2. Iwan G. Williams, 3. Jennifer E. Jones. Unawd dan 25: 1. John Eifion, Garndolbenmaen, 2. Trefor Williams, Bodffordd, 3. Ellen Evans, Llansadwrn. Deuawd dros 18: 1. Sian Gibson a John Eifion, 2. Alun ac Wmffra Jones, Waunfawr. Cân Werin: 1. Sian Gibson, Deiniolen, 2. Alun Jones, Waunfawr, 3. Rolant Davies, Nefyn. Canu Emyn Dôn, dros 50 oed: 1. Mrs Gwen Owen, Pencaenewydd, 2. Wmffra Jones, Betws Garmon, cyd. 3. Ifan Bryn Roberts, David J. Thomas; Alun Jones a Rolant Davies. Unawd Gymraeg: 1. John Eifion, 2. Clarence Jones, Llanddaniel, cyd. 3. Emyr a Trefor Jones, Llangristiolus. Pedwarawd: 1. Parti Iola. Her Unawd: 1. Clarence Jones, Llanddaniel, 2. Trefor Jones, Llangristiolus, 3. Emyr Jones, Llangristiolus.

LLÊN: Ysgrifennu eu henwau: Meithrin a Dosb. 1: 1. Richard, 2. Euriona, 3. Rhiannon. Disgrifio Llun, Dosb 2 a 3: 1. Sian Elen Thomas, 2. Daniel Jones, 3. Lindsey Jones. Safon 1 a 2: 1. Donna Taylor, 2. Heyley Williams, 3. Bronwen Jones. Safon 3 a 4: 1. Gwawr Williams, 2. Sioned Evans, 3. Sion Wyn Hughes. Barddoniaeth dan 12 oed: 1. Dyfan Sion, 2. Sion Wyn Hughes, 3. Dyfan Sion ac Arwel Hughes cyd. Rhyddiaith dan 15: Stori fer: 1. Iolo Griffith, 3. Nia Davies. Barddoniaeth dan 15: 1. Dylan Wyn Williams, cyd 2. Nia Davies a 'Smwt'. 3. Iwan G. Williams. Creu brawddeg: 1. Mrs Mary E. Jones, Dinorwig. Llunio croesair: 1. Mrs Alice Griffith, Dinorwig. Stori Fer: 1. Mrs Royle Edwards, Y Bontnewydd. Traethawd: 1. Mrs Mary E. Jones, Dinorwig. Asio Emyn: 1. Mrs M.G. Williams, Bethel. Parodi: 1. Miss E. Wyn Jones, Dinorwig. Telyneg: 1. cyd, John V. Morris, Deiniolen, Ifor Glyn, Deiniolen. Limrig: 1. Mrs Mary Wyn Jones, Deiniolen. Cystadleuaeth y Gadair: 1. Alun Jones, Llandysul, Dyfed.

CELF A CHREFFT: Arlunio: Ysgol Feithrin: 1. Lynne, 2. Shaun, 3. Gethin. Dosb Meithrin ac 1: 1. Euriona, 2. Shaun, 3. Mair. Dosb 2 a 3: 1. Michael Thomas, 2. Lindsey Parry, 3. Karen (dosb 2). Safon 1 a 2: 1. Aika Clarke, 2. Gareth Shaun Davies, 3. Hayley Williams. Safon 3 a 4: 1. Barry John Thomas, 2. Andrew David Jones, 3. Dewi Williams. Dan 14: 1. Dylan Wyn Williams, 2. Iolo Griffith, 3. Iolo Wyn Griffith. Dan 16: 1. Paul Jones, 2. Meurig Jones, 3. Ceri Williams. Dan 18 oed: 1. Cheryl Parry. Dros 18: 2. Glyn Jones.

GWAITH LLAW: Ysgol Feithrin: 1. Daniel, 2. Lynne, 3. Steffan. Dosb Meithrin ac 1: 1. Sion Charles Thomas. Dosb 2 a 3: 1. Richard Williams, 2. Lindsey Parry ac Elaine Williams (cyd). Safon 1 a 2: 1. Euros Wyn Williams, 2. Nia Land, 3. Tanya Thomas a Martin Williams (cyd). Safon 3 a 4: 1. Gwawr Williams, 2. Dyfan Sion, 3. Sion Wyn Hughes. Dan 13: (genethod) 1. Jennifer E. Jones, 2. Amelia Jones, 3. Nicola Taylor. (bechgyn) 1. Dyfan Sion, 2. Arwel Hughes, 3. Dylan Hughes. Dan 16: 1. Nia Davies. Dan 18: 1. Yvonne Jones, 2. Wendy Jones. Gwau: 1. Dan 16: 1. Nia Davies, 2. 'Alfred', 3. Rhian Hughes a Linda Jones cyd. Dros 16: 1. Mrs Rhiannon Jones a Mrs Gwen Rowlands, 2. Mrs Menna Wyn Jones a Mrs Nancy Rowlands, 3. Mrs Elan Williams a Mrs Edna Jones. Gwnio: Dan 16: 1. Gwawr P. Williams, 2. Linda Jones, 3. Rhian Hughes a Tracey Young. Dros 16: 1. Mrs Miriam Lewis. Brodwaith: 1. Miss Jean Hughes. Crosio: 1. Mrs Nancy Rowlands, 2. Mrs Mary Wyn Jones, 3. Mrs Nancy Rowlands a Mrs Menna Wyn Jones cyd.

Coginio: Dan 8: 1. Sian Ellen Thomas, 2. Lindsey Parry, 3. Elaine Williams ac Aaron Jones (cyd). Dan 12: 1. Dyfan Sion, 2. Rhian W. Hughes, 3. Huw Thomas. Dan 15: 1. Nia Davies, 2. eto, 3. Jennifer E. Jones ac Amelia Jones cyd.

Trefniant blodau: 1. Mrs Menna Wyn Jones, 2. Mrs Gwen Rowlands, 3. Mrs Rita Parry Jones. Marmaled, Dros 18 oed: 1. Mrs Gwen Griffith, 2. Mrs Mary E. Jones, 3. Mrs Margaret Jones. Dros 18, Teisen Ŵy: 1. Mrs Dilys Hughes, 2. Mrs Valmai Parry, 3. Mrs Hilda Parry. Dros 18, melysion: 1. Mrs Gwen Griffith, 2. Nicola Parry, 3. Sian Griffith. Dynion yn unig – swiss roll: 1. Trefor Lewis.

Gwaith coed (ieuenctid): 1. Dylan Wyn Jones, 2. Jason Roberts, 3. Malcolm Griffith. Gwaith coed, oedolion: 1. Mr Gwilym Hughes, 2. John G. Thomas, cyd 3. Miss J. Moeller a Raymond Griffith.

Ffotograffi: dan 18: 1. Dewi Lewis, 2. Iwan G. Williams, cyd 3. Jennifer E. Jones a Malcolm Griffith. Ffotograffi dros 18: 1. Hefin G. Jones, 2. Eifion Hughes, 3. John Jones.

Enillwyr y cwpanau am y cyflwyniad gorau yn yr adran adrodd dan 12 oed: **Dyfan Sion.** Cyflwyniad gorau yn yr adran cerdd dan 12 oed: **Lindsey Parry.** Yr ymgais orau yn yr adran lenyddol dan 12 oed: **Dyfan Sion.** Yr ymgais orau yn adran Celf a Chrefft o 12 i 18 oed: **Yvonne Jones.** Y cynnyrch gorau yn adran Gwau a Gwnio: **Mrs Nancy Rowlands.** Y cynnyrch gorau yn adran Gwaith Coed, Metel a Llechen: **Mr Gwilym Hughes**

Shaun Jones, Trem y Môr, Gallt y Foel. Cyntaf ar ganu yn yr Adran Feithrin.

BINGO – bob nos Wener yn y Bandroom am 7.30.

CANGEN PLAID CYMRU: Nos Fawrth Hydref 29 cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor o Bwyllgor y Blaid yng Nghanolfan Gymdeithasol Dinorwig. Cafwyd adroddiad o Gynhadledd Flynyddol yng Nghaergybi gan Robert Skillicorn, Cadeirydd newydd y gangen, a chroesawyd aelodau newydd i'r pwyllgor sef Mrs Dilys Wyn Hughes ac Iola Lleuthy-Gruffydd.

Dyma enillwyr gwobrau'r Clwb Cant am y mis: 1af: 34 Goronwy Price Morris, 13 Talybont, Llanrug: £10; 2il: 58 Gwilym Williams, 22 Hafod Olau, Deiniolen: £8.50.

MARW: Ym mis Hydref bu farw Mr Thomas Evans, 27 Rhydfadog yn 83 mlwydd oed (gynt o 9 Glandŵr Terrace, Clwt-y-bont). Cafwyd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Disgwylfa (lle bu'n aelod ffyddlon ar hyd ei oes) ar Hydref 12 ac fe'i claddwyd ym mynwent Macpelah 4 mis ar ôl ei wraig, Mrs Jane Evans.

DIOLCH: Dymuna eu dwy ferch, Mrs Mary Evans, Rhosgadfan a Mrs Nan Owen, 27 Rhydfadog a'r teulu ddiolch i bawb am bob cerdyn a

MERCHED Y WAWR YN DATHLU

chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad a mam annnwyl mor agos i'w gilydd.

LLONGYFARCHIADAU i Cheryl Parry, 3 Gwyrfai Terrace ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Dachwedd 16. Oddi wrth Mam, Dad, David a'r teulu oll.

DIOLCH: Dymuna Cheryl ddiolch i'r teulu, cymdogion a'i ffrindiau oll am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd.

BWRLWM BRO: Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar, penderfynodd y naw cystadleuydd a gymerodd ran yn y gystadleuaeth 'Bwrlwm Bro' ar y teledu, gyfrannu £170 i gronfa 'Sganer' Ysbyty Gwynedd. Derbyniwyd a diolchwyd am y cyfraniad gan Mr Nicholas Wilson, sy'n weinyddwr yn yr ysbyty.

CANOLFAN GYMDEITHASOL DEINIOLEN: Gofynnnir i'r sawl sydd wedi cael ei enwebu gan wahanol gymdeithasau yn y pentref gofio mynychu'r cyfarfod blynyddol a gynhelir yn y ganolfan nos Fercher, 11 Rhagfyr am 7.30pm.

DIOLCH: Dymuna Siôn Wyn, Ty'n y Weirglodd ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd tuag ato tra'n yr ysbyty ac wedi iddo ddod adref.

Diolch am bob galwad ffôn , am yr holl gardiau a'r arian a'r anrhegion. Diolch arbennig i'r nyrsus, y doctoriaid ac i'r ffrindiau bach am bob ffyddlondeb. Diolch yn fawr iawn i bawb ymhell ac agos.

MERCHED Y WAWR: Roedd nos Lun, Tachwedd 18 yn noson arbennig iawn i gangen Merched y Wawr, oherwydd eu bod yn dathlu pen-blwydd yn 10 oed.

Daeth yr holl aelodau a chyn-aelodau ynghyd i ganolfan Gwaun Gynfi i fwynhau'r wledd a ddarparwyd ar eu cyfer. Hyfryd ydoedd gweld Miss Priscie Roberts, Glanrhydfadog gynt wedi dod gan mai hi ydoedd y llywydd cyntaf. Daeth Mrs Katie Jones ei chwaer gyda hi a hawdd ydoedd gweld eu bod wedi llwyr fwynhau eu hunain.

Llywyddwyd y noson yn ddeheuig iawn gan y llywydd presennol Mrs Eirlys Williams. Bu iddi olrhain hanes y gangen o'i chychwyniad gan fwrw i gof mai Miss Nansi Owen, Rhydfadog a alwodd y merched ynghyd, a ffurfio'r gangen yn y pentref. Hyfryd ydoedd gweld Miss Nansi Owen yn bresennol gan mai hi hefyd ydoedd yr ysgrifenyddes gyntaf.

Talwyd teyrnged arbennig iawn i Mrs Marian Wyn Williams, Tai Caradog – hi a fu'n gofalu am arian y gangen dros y deng mlynedd a thystiwyd i'w gonestrwydd a'i gofal dros y blynyddoedd. Cafwyd gair gan Miss Priscie Roberts, a chan Mrs Arthur Jones, Penrhosgarnedd y wraig wadd, a chan Mrs Ellen Williams, 2 Y Bwthyn, un o'r aelodau ffyddlon.

Cafwyd penillion hyfryd am yr achlysur gan Mrs Gladys Evans, Gallt-y-foel un arall o ffyddloniaid y gangen.

Wedi gwledda a phrofi o'r deisen ben-blwydd a wnaed gan Mrs Gwen Hughes, Gwyndy, Rhiwen croesawodd Mrs Dilys Hughes yr ysgrifenyddes Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas i'n diddori. Os mai gwledd a gafwyd cynt yna fe gafwyd ail wledd yn ei chanu bendigedig. Llwyr gyfareddwyd pawb gan burder ei llais a'i chyflwyniad.

Talwyd diolchiadau iddi ac i bawb am noson mor arbennig a chofiadwy gan Mrs Dilys Hughes, Ty'n y Weirglodd, ac apeliodd am ffyddlondeb eto i'r gangen fodoli am ddeng mlynedd arall.

DYDDIADAU I'W COFIO

Ionawr 9 – Cinio Blynyddol Undeb y Mamau, Cwm-y-glo yn y Foelas, Llanrug.

Ionawr 10 – Aelodau'r Urdd ac Oedolion Bethel yn ymweld â'r Pantomeim 'Go Fflamia' yn Theatr Gwynedd.

Ionawr 23: Merched y Wawr Waunfawr – Sleidiau ar 'Adar y Gaeaf' gan Mr Duncan Brown.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI

Enillwyr Celf a Chrefft, Gwaith Llaw a Choginio dan 12 oed.
Rhes gefn: Euros, Aika, Dyfan Siôn, Barry John, Siân Elen, Gwawr. Rhes flaen: Shaun, Richard, Lynne, Euriona, Daniel. Yr oedd Michael Thomas yn absennol pan dynnwyd y llun.

Parti Canu Buddugol dan 12 oed.

Enillwyr Canu, Adrodd ac Offerynnol dan 12 oed.
Eilir, Dyfan Siôn, Delyth, Lindsey, Nia, Richard. Yr oedd Siôn Jones a Louise Jones yn absennol pan dynnwyd y llun.

Enillwyr Adran Lenyddol dan 12 oed.
Dyfan Siôn, Siân Elen, Gwawr, Donna a Richard.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

DINORWIG

GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

LLONGYFARCHIADAU: I Mrs Mary E. Jones, Ty'n Fawnog, Dinorwig ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Gwaun Gynfi eleni, a gynhaliwyd at Hydref 26. Enillodd ar y Traethawd ar 'Atgofion Dyddiau Ysgol'; Creu Brawddeg a Llinell Goll, hefyd llongyfarchiadau i'w merch, Miss Ellen Wyn Jones,; a Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch ar y Croesair.

TE CHWIORYDD: Bu Te'r Chwiorydd yn Festri Dinorwig MC pnawn lau, Hydref 31 a phnawn lau, Tachwedd 14. Rhoddwyd y te gan Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel a Mrs Maggie Evans, Dublin House.

O'R YSBYTY: Croesewir gartref wedi arhosiad archwiliad meddygol yn Ysbyty Gwynedd, Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian. Parhaed i wella.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG: Agorwyd y Gymdeithas eleni yn y Ganolfan nos lau, Hydref 31 trwy sgwrs ar "Ddyddiau Ysgol" gan Mr David J. Thomas, 8 Maes Eilian. Llywydd y cyfarfod yn absenoldeb y llywydd penodedig Mrs Enid Jones, oedd Mrs Rene Morris, 4 Maes Eilian. Hi hefyd gyflwynodd y siaradwr i'r aelodau. Talwyd diolch i'r siaradwr gan Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir.

Nos lau, Tachwedd 14 yn y Ganolfan cafwyd sgwrs gan Mr Gwyn Williams, Tregarth, ar 'Gasglu'. Ymdriniodd â chasglu o benillion, diarhebion ac arferion meddygol trin y Ddafad Wyllt. Cafwyd sylwadau hefyd gan Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, a thalwyd diolch i'r siaradwr gan y Parch Ifor L. Williams, BA, Bangor. Llywyddwyd gan Mrs Rene Morris, 4 Maes Eilian.

DOSBARTH WEA DINORWIG: Mwynhaodd aelodau y Dosbarth WEA ginio yng Ngholeg Pencraig, Llangefni, Tachwedd 8. Roedd yn terfynu'r dosbarth am eleni. Diolch i Miss E. Wyn Jones, yr ysgrifennydd am wneud y trefniadau.

DIOLCH: Dymuna Mr John Peris Roberts ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch i'r meddygon a'r gweinyddesau am eu gofal yn Ward Aran.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

UN O HOGIA'R ARDAL YN YMDDEOL

Yn ystod yr haf eleni, ymddeolodd Mr Harry Jones, Bod Hyfryd, Ffordd y Gogledd, Caernarfon o'i swydd gyda Chyngor Sir Gwynedd, ar ôl 44 o flynyddoedd.

Brodor o Ddinorwig yw Harry, yn fab ieuengaf y diweddar Owen a Dora Jones, Tan y Fron. Cafodd ei addysg gynnar yn ysgol y pentref ac yna yn Ysgol Sir Brynrefail. Gadawodd yr ysgol ddiwedd Gorffennaf 1941 ac yna ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, yn nechrau mis Awst, cychwynnodd weithio yn swyddfeydd y Cyngor Sir yn Stryd y Jêl. Ar wahân i dair blynedd a hanner o wasanaeth yn y fyddin rhwng 1944 a 48 treuliodd yr oll o'r cyfnod yn gweithio gyda'r Cyngor Sir.

Symudodd y teulu o Ddinorwig yn 1945 gan 'fudo i lawr y plwyf, i ffermio'r Wern, Llanddeiniolen, ac yn ddiweddarach i Bryn Môr, Bethel. Yn 1956 priododd â Helen Thomas, Bron Gwynedd, Bethel ac yn 1959 symudodd y ddau gyda'u mab hynaf, Elfed i Gaernarfon, ac yno ganwyd eu hail fab, Geraint. Ymaelododd yng Nghapel Seilo, Caernarfon ac fe'i hetholwyd yn flaenor yno yn 1973, bu'n flaenor yn y Cysegr, Bethel cyn ymadael.

Yn ystod y cyfnod hirfaith y bu'n gwasanaethu y Cyngor Sir, bu llawer tro ar fyd a chryn newid mewn mwy nag un ystyr.

Pan ddechreuodd Harry weithio costiai ei daith wythnosol o Ddinorwig i Gaernarfon 4 swllt a thair ceiniog (22c) am chwe diwrnod o drafaelio. Pecyn o frechdanau oedd ei ginio dyddiol, cyn bod sôn am 'Gantîn County Offices', a cheiniog oedd pris paned o de yn 'Caffi Maes'. Naw tan bump oedd oriau gwaith o ddydd Llun hyd ddydd Gwener, gyda naw tan ddeuddeg ar fore Sadwrn. Yn ddiweddarach ar ei yrfa y daeth yr arfer o'r 'five day week' i rym. £1 yr wythnos oedd ei gyflog (£52 per annum) yn ôl y telerau swyddogol a 5 swllt o 'War Bonus'. Os byddai raid gweithio dros amser, câi swllt a chwech o'r 'Petty Cash' i dalu am de – a 'thenciw very much' am ei amser, – 'doedd dim sôn bryd hynny am 'overtime' a 'Time in lieu', – nac oriau 'flecsi'.

Mr David Griffith Jones oedd Clerc y Cyngor Sir pan ddechreuodd, a rheolai'r gyfundrefn a'r staff fel teyrn. Yn ystod ei deyrnasiad rhaid fyddai gwisgo'n ffurfiol, galw "chi" ar eich gilydd, a "Syr" ar y swyddogion. Er gwaethaf hyn, 'roedd awyrgylch gyfeillgar ymhlith y staff, a phawb yn adnabod ei gilydd ac yn ymddiddori yn hynt a helynt y naill a'r llall. 'Roedd sawl 'cymeriad' yn eu plith, yr ychydig rheini a gyfrannai at greu diddordeb a hwyl ymhlith y staff, am eu bod yn mynnu bod yn 'wahanol'. Yn cynnwys Mr D. Griffith Jones, gweithiodd dan weinyddiaeth dau brif swyddog arall o 'rhen Gyngor Sir, Mr Gwilym T. Jones a Mr J.E. Owen Jones, ac yna ddau brif weithredwŷr Cyngor Gwynedd, o 1974 ymlaen.

Harry fu'n gyfrifol am archebu a dosbarthu nwyddau, defnyddiau swyddfa, dodrefn a pheiriannau swyddfa y Cyngor, yn trefnu pryniant lleol a delio â ffyrmiau o bell ac agos dros y blynyddoedd. Yn ystod ei flynyddoedd olaf yn y gwaith wedi i'r Cyngor Sir newid eu dull o weithredu, a delio'n uniongyrchol â Chonsortiwm o Wiltshire, bu yn gwasanaethu fel swyddog cyswllt i bryniant y Sir.

Gwasanaethodd hefyd fel swyddog yn etholiadau llywodraeth leol, sirol a chanolog yn etholaethau Arfon a Chonwy o 1948 hyd ddatganoli llywodraeth leol yn 1974, pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb i'r Cyngor Dosbarth. Yn ystod yr un cyfnod bu hefyd yn gyfrifol am ddarparu a chyhoeddi rhestrau etholwyr y ddwy etholaeth.

Yn sgîl ei ymddeoliad collir blynyddoedd o brofiad a gwybodaeth a gasglodd yn ystod ei gyfnod hirfaith mewn swydd dra phwysig ac allweddol i ffyniant gwaith dyddiol adrannau Swyddfa'r Sir.

Dangosodd ei gydweithwyr eu gwerthfawrogiad o'i gyfraniad clodwiw mewn cinio ffarwel yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug. Cyflwynodd Mr Ceredig Davies, Swyddog Personel y Sir, anrheg o 'Radio Cassete' hardd i Harry fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Cyflwynodd amryw o'i gydweithwyr yn ystod y blynyddoedd eu dymuniadau da iddo yn ystod ei ymddeoliad.

CYFARCHION NADOLIG O GWM-Y-GLO

Mae JOAN a CHARLES WARE

SWYDDFA'R POST

a Stordy

Cwm-y-glo

Ffôn: 870242

yn dymuno'n dda i chwi oll dros y Nadolig hwn – ein cyntaf yn y pentref

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

O'R YSBYTY: Da yw deall fod Mrs Glenda Roberts, Awelon a Mrs Wendy Roberts, Glasfryn wedi gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Rose Fowler yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn Nhan-y-coed, hefyd Mr John C. Jones, 21 Dôl Afon, yntau wedi colli chwaer ym Mhen-y-groes.

LLONGYFARCHIADAU i Hugh a Sue, 19 Dôl Afon ar enedigaeth eu merch fach Rachel, chwaer fach i Daniel, hefyd Mr a Mrs Hugh Owen, Gwesty'r Snowdon ar fod yn daid a nain unwaith eto.

BEDYDD: Dydd Sul, Tachwedd 17 gyda'r Rheithor y Parch Aled Jones Williams yn gwasanaethu, bedyddiwyd Arwyn, mab bach Mr a Mrs Tony Jones, Isfryn.

LLONGYFARCHIADAU: i Kevin mab Mr Ifan G. Owen a'r ddiweddar Mrs E. Owen, Talgwynedd ac Yvonne, merch Mr a Mrs A. Williams, 25 Ffordd Penchwintan Bangor ar eu dyweddïad.

– I Carys Williams, Bryn yn ei llwyddiant mewn Arholiad Cerdd (Theori) Gradd 1 gydag Anrhydedd. Disgybl yw Carys i Mrs Linda Griffiths, Dolafon, Llanberis. Pob dymuniad da i ti yn y dyfodol Carys.

CLWB Y MAMAU A MERCHED IFANC: Cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan nos Fercher Tachwedd 6. Y wraig wadd oedd Ceri Pierce,

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN A KATHLEEN WILLIAMS

TANRALLT

CWM-Y-GLO

Ffôn Llanberis 870793

Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed

Hoffem ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

MODURDY

London Garage

CWM-Y-GLO

Ffôn Llanberis 870234

Arbenigwyr mewn tiwnio moduron

A.A. GOODYEAR M.O.T.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth John Steele a phawb yn

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

AM BOB GWAITH MECANYDDOL A THRIN CYRFF

GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR

ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM MECWS PEN Y BRYN LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268

70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

FLARE

AM BETROL, DIESEL, OLEW AC AMRYFAL ANGHENION MODURO

GORSAF BETROL LONDON GARAGE

CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Dymuna Huw a Barbara

Gwesty'r Fricsan

(Snowdon Hotel)

CWM-Y-GLO

Llanberis 289

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr Ŵyl.

Ymwelydd lechyd. Testun ei sgwrs oedd 'Bwyd' a threuliwyd noson ddifyr iawn yn ei chwmni. Paratowyd paned gan Mrs Avril Jones a Mrs Wendy Roberts, hwy hefyd a roddodd wobr y raffl a enillwyd gan Mrs Gwyneth Roberts.

PÊL-DROED DAN 16 OED: Dyma ganlyniadau'r tîm yn ystod yr wythnosau diwethaf:
Deiniolen 2 Cwm-y-Glo 6
Bontnewydd 4 Cwm-y-glo 3
Cwm-y-glo 2 Mountain Rangers 5
Cwm-y-glo 3 Caernarfon 5
Cwm-y-glo 5 Morfa 1

CINIO NADOLIG Y PENSIYNWYR: Cynhelir y cinio nos lau, Rhagfyr 19 am 6 o'r gloch yn y Ganolfan Gymdeithasol. Gofynnir i bawb ddod â chyllell, fforc a llwy gyda hwy os gwelwch yn dda.

CROESO ADREF: i Rhiannon ac Hywel Jones ar ôl dwy flynedd yn yr India Gorllewin. Byddant yn ymgartrefu yn y Drenewydd. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd.

DIOLCH: Dymuna Sioned a Tony, Isfryn ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab Arwyn.

POBOL Y CWM: Yng nghyfarfod dydd lau Hydref 31 croesawyd Mr Dafydd Price, Tan-y-graig i'r clwb, a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo ar wahanol weithgareddau sydd yn cael eu cynnal yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn arbennig hon. Diolchwyd iddo gan y Llywydd, Mr Llew Hughes a'i longyfarch ar ei benodi i swydd newydd fel arolygwr tîm 'Blwyddyn ryngwladol leuenctid Gwynedd'. Croesawyd hefyd aelod newydd sef Mrs G. Chick, Rhos-y-ffin. Rhoddwyd y te gan Mr a Mrs R.H. Parry a'r raffl gan Mrs E. Jones, Seiont House. Enillwyd y raffl gan Mrs G. Pritchard, Bryn Gwynedd. Un o aelodau'r Clwb sef Mrs K. Watkins oedd y wraig wadd yng nghyfarfod pnawn lau Tachwedd 14 a thrwy gymorth ffilmiau aeth â ni i wledydd tesog y dwyrain a disgrifiodd gefndir hanesyddol yr adeiladau sydd erbyn heddiw yn adfeilion. Hefyd ei hatgofion o'r gwyliau a fwynhaodd yng Ngroeg a Rhufain. Diolchwyd iddi gan y Llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick a'r raffl gan Miss E. Davies, Noddfa. Enillwyd y raffl gan Mr R. Rowlands.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd pwyllgor blynyddol Undeb y Mamau yn Hafan Elan Llanrug nos lau Tachwedd 7. Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan ein Rheithor y Parch Aled Jones Williams. Darllenodd Mrs Pierce gofnodion o'r Pwyllgor Blynyddol am 1984 a phasiwyd eu bod yn gywir. Cafwyd cyfrif ariannol gan y Trysorydd. Ailetholwyd y swyddogion am flwyddyn arall. Bydd gwasanaeth Carolau yn cael eu cynnal yn Eglwys Sant Gabriel ar Ragfyr 12 am 7 o'r gloch. Darperir lluniaeth yn yr Ysgol Gymuned ar ôl y gwasanaeth. Bydd y cinio blynyddol yng Ngwesty'r Foelas Llanrug lonawr 9. Enwau i Mrs G. Roberts, neu Mrs H. Orritt cyn gynted ag sydd bosibl. Aelodau Llanrug oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a diolchwyd iddynt gan Mrs Dorothy Jones.

'GO FFLAMIA'

Panto newydd sbon gan Geoff Powell, sgriptiwyd gan Mari Gwilym

Amser y Perfformiadau yn Theatr Gwynedd:
Gwener, Sadwrn a Llun, Rhagfyr 27,28 a 30; 2.00 a 7.00 p.m.
Iau i Sadwrn, lonawr 2-4: 2.00 a 7.00 p.m.
Mawrth, lonawr 7; 1.15 p.m.
Mercher i Gwener, lonawr 8-10: 1.15 a 7.00 p.m.
Sadwrn, lonawr 11: 2.00 p.m.

Pris y tocynnau: Oedolion: £3, Pensiynwyr, Myfyrwyr a'r Di-waith: £2.50. Plant: £2; Plant mewn parti: £1.80.
BRYSIWCH! TREFNWCH! MAE'R NADOLIG YN DOD!

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

GOBEITHLU: Nos Fercher, Tachwedd 6 yng Nghapel Brynrefail MC fe gafwyd cyfarfod cyntaf y Gobeithlu. Dangosodd y gweinidog, y Parch John Morris, ffilm i'r plant, yn ogystal fe gafwyd cwis i gloi'r cyfarfod. Fe fydd y Gobeithlu yn cael ei gynnal tan y Nadolig ac y mae croeso i blant y cylch ddod iddo.

GWASANAETHAU'R NADOLIG: Pnawn Sul, Rhagfyr 22 am 2 o'r gloch bwriedir cynnal Gwasanaeth Nadolig y Plant a'r Bobl Ifanc. Hefyd am 5.30 fe fydd gwasanaeth Carolau – yn ystod y gwasanaeth carolau fe wneir casgliad arbennig tuag at brynu sganiwr corff cyfan i Ysbyty Gwynedd, Bangor. Hyderir yn fawr y bydd ymateb i'r apêl uchod. Dewch i gefnogi'r gwasanaethau hyn. Y gweinidog y Parch John Morris, fydd yn llywyddu'r cyfarfodydd uchod.

CASGLU CANPUNT

Aelodau o Glwb leuenctid Brynrefail yn trosglwyddo siec am £100 i Mr Wilson o Ysbyty Gwynedd. Casglodd yr aelodau'r arian tuag at Gronfa'r Scanner fel rhan o'u gweithgareddau i ddathlu Blwyddyn Ryngwladol yr leuenctid.

CLWB Y MAMAU: Yng nghyfarfod y mis yn yr ysgol fach, cafwyd noson dan ofal Rhian Jones a Helen Jones. Prif fater y noson oedd trefniadau y parti Nadolig ar Ragfyr 16 – penderfynwyd i ymuno gyda Sefydliad y Merched a chynnal y parti yn yr ysgol fach.

Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston, ac fe'i enillwyd gan Helen Roberts. Darparwyd y te gan Mrs Hasson a Helen Roberts.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen, gyda Mrs Maud Williams a'i chyfaill o Gaernarfon yn goruchwylio'r pleidleisiau. Ail-etholwyd y swyddogion presennol am dymor ychwanegol, sef: Llywydd, Mrs Pat Jones, Ysgrifenyddes: Mrs Carol Houston, Trysorydd: Mrs Val Davies.

Rhoddwyd anrheg y mis gan Helen Jones ac fe'i enillwyd gan Jinnie Roberts. Darparwyd y te gan Jinnie Roberts a Mair Williams.

Mae'r gangen wedi mentro dau dîm dartiau ar gyfer chwaraeon yn erbyn canghennau eraill yn yr ardal. Bu tîm A yn fuddugol yn erbyn Penrhosgarnedd, ond colli'r dydd wnaeth tîm B yn erbyn Conwy. Gwelir y datganiad uchod am y parti Nadolig, a'r trefniadau i ymuno gyda chlwb y Mamau ar Ragfyr 16 yn yr ysgol fach.

DIOLCH: Dymuna Mrs Jennie Williams, Bryn Melyn ddiolch o galon i'w theulu, a llu cyfeillion am yr anrhegion a chardiau a phob dymuniad da a dderbyniodd tra yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dychwelyd gartref. Diolch i'r meddygon a'r gweinyddesau o Ward Dulas am eu gofal caredig a diolch arbennig i Glwb leuenctid Brynrefail am eu hanrheg.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL YN EISIAU GOFALWR
i ddechrau yn lonawr, 1986
Manylion a thelerau gan Dafydd Ellis, Gweledfa. Ceisiadau at Bwyllgor yr adeiladau, trwy law Dafydd Ellis, Ysgrifennydd.

Cofiwch y dyddiadau yn Rhagfyr
CWM-Y-GLO: 11 Mercher : Gyrfa Chwist Nadolig yn yr Ysgol Gymuned am 7.30 (11)
12 lau: Gwasanaeth Carolau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Gabriel am 7.00.
19 lau: Cinio Nadolig i Oedolion a Phensiynwyr yn y Ganolfan am 6.00.
BRYNREFAIL: 20 Gwener: Gwasanaeth Nadolig y Plant a Phobl Ifanc am 2.00 yn y Capel. Gwasanaeth Carolau am 5.30.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Ms Gillian Yorath
Revival SIOP ELIDIR, BRYNREFAIL
Ffôn: LLANBERIS 870132
Arbenigwr ar adfer dodrefn a gildio

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
C & D.WAGER
Llythyrdy
BRYNREFAIL
Ffôn: LLANBERIS 870241
Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer
Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau
Dilladau Llysiau Melysion Tybaco

Nadolig Llawen
yng nghwmni
CASETIAU A RECORDIAU SAIN!

EIRLYS PARRI "Yfory" CASET/RECORD £5.45
"SWYNOL SAIN" Caset anhygoel £4.99
ALED JONES, DAVID LLOYD, TREBOR EDWARDS, STUART BURROWS, CÔR MEIBION LLANELLI, ROSALIND A MYRDDIN, CARYL PARRY JONES, SIONED A CATHRIN, GERAINT GRIFFITHS, 4 YN Y BAR, DWYLO DROS Y MÔR, LEAH OWEN, DOREEN LEWIS, DAFYDD IWAN AC AR LOG
DENNIS O'NEILL "Caro mio ben" CASET/RECORD £5.45
Caneuon serch o sawl gwlad.
"GOREUON CORAU MEIBION CYMRU 1" CASET/RECORD £4.99
CÔR MEIBION LLANELLI "Aros gyda mi" CASET/RECORD £5.45
CÔR MEIBION Y PENRHYN "Caneuon y môr" CASET/RECORD £5.45
MEINIR WILLIAMS CASET £5.45
Y soprano hyfryd o Dywyn
CÔR TELYN TEILO "Fy iaith, fy ngwlad" + 3 CÂN ARALL E.P. £1.89
Y BRODYR GREGORY
Sengl Cymraeg a sengl Saesneg £1.49

ROCADOLIG SAIN!
GERAINT LOVGREEN A'R ENW DA CASET/RECORD Gwerth disgwyl amdani! £5.45
GERAINT JARMAN A'R CYNGANEDDWYR "Enka" CASET/RECORD Gwych! £5.45
LLWYBR CYHOEDDUS SENGL £1.49
"DAWNS Y DAIL"/"YN YR ORIEL"
GERAINT GRIFFITHS SENGL 12" £1.89
BREUDDWYD FEL ADERYN/HEN ROCAR/FFEITAR BACH

SAIN I'R PLANT
"NADOLIG LLAWEN" Pecyn anrheg Sain — dim ond £6.95
"CANEUON LAN LOFFT" Caryl Parry Jones
+ "CANEUON GWERIN I BLANT" Plethyn
CYFRES DARLLEN-A-GWRANDO
MARI GWILYM yn darllen
1. LLIPRYN LLWYD (Angharad Tomos) £2.88
2. MALI MEIPEN (Angharad Tomos) £2.88
GÊMAU CYFRIFIADUR ALLWEDD
1. CWIS AR WYNEDD (Spectrum) £2.99
2. MWYDOD + 5 GÊM ARALL (Dragon) £2.99
3. TRYSOR CAPTEN MORGAN (BBC/Electron) £5.95
4. ATEB AC ATAL ("Blockbusters") (BBC/Electron) £7.95

SAIN I'R DYSGWYR
"ABC OF WELSH"
4 caset a llyfr o'r gyfres radio "Catchphrase" £15.00
CWRS CYFRIFIADUR
"Catchphrase" (BBC) £11.95

SAIN · LLANDWROG · CAERNARFON · GWYNEDD ·
(0286) 831.111

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

MERCHED Y WAWR: Llywyddwyd cyfarfod cyntaf y tymor, Medi 26 gan Mrs Cadi Jones. Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs Mary Awstin Jones a thalwyd teyrnged iddi gan y llywydd. Croesawyd Mrs Eirlys Griffith, Llythyrdy, yn ôl ar ôl gwaeledd. Llongyfarchwyd nifer o'r aelodau: Mrs Meg Elis (llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol), Mrs Mary Davies (genedigaeth wyres), Mrs K. Wynn Jones (priodas ei mab Eilian) ynghyd â nifer o blant y pentref ar eu llwyddiant yn eu harholiadau. Cafwyd noson ragorol yng nghwmni Arwel Jones, Hogia'r Wyddfa. Diolchwyd iddo gan Mrs Glenys Williams, Betws Garmon.

CYNHALIWYD y cyfarfod diwethaf yn y Ganolfan ar Hydref 24 gyda Mrs Cadi Jones yn llywyddu. Dymunodd Mrs Jones wellhad buan i Mrs S. Jones Evans, Pennant, ar ôl ei damwain. Diolchodd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at Ffair Hydref er budd yr anabl. Treuliwyd gweddill y noson yng nghwmni Mrs Enid Baines, Penygroes, yn sgwrsio ac yn rhoi tapiau am ei llyfr "Y Dall sy'n gweld". Cafwyd noson addysgiadol a diddorol, diolchwyd iddi gan Mrs Gweneirus Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs R.E. Jones a'r enillydd oedd Mrs Llinos Cadwaladr. Bydd cinio Nadolig yn y Bistro Llanberis ar Dachwedd 28. Ni chynhelir cyfarfod wedyn hyd Ionawr 23 pryd y ceir sleidiau ar Adar y Gaeaf gan Mr Duncan Brown.

YR YSGOL FEITHRIN: Cynhelir Bore Coffi yn y Ganolfan er budd yr Ysgol Feithrin, dydd Iau, Rhagfyr 12 am 10.00 o'r gloch. Stondinau a raffl. Mynediad 30c.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref: 1. £40: B. Walker, Snowdonia Park Hotel, 2. £25: Mrs Gweneirys Jones, Cartrefle, 3. £10: R. Jones, Bryn Gwylan.

DIOLCH: Dymuna Mrs S. Jones-Evans, Pennant, ddiolch yn gynnes iawn i'w pherthnasau, ei chymdogion, a'u llu ffrindiau, am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddi tra yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddod adref.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr enillwyr y Clwb 100 am fis Hydref: 1. Gwynn Davies, Bryn Eithin, 2. Mrs Hughes, Llys Meredydd, 3. Emrys Hughes, Treflan Isa.

LLONGYFARCHIADAU:
– I Mr a Mrs George Taylor, Baladeulyn, Dôl Erddi, ar ddathlu eu priodas aur.
– I Mr a Mrs Bill Lewis, Ael y Bryn, ar ddathlu eu priodas berl.
– I Mr a Mrs J. Dawson, Bro Waun, am fod yn daid a nain eto, ganwyd mab i'w merch Susan a'i gŵr Vernon.
– I Mr a Mrs Eaglestone, Tremallt am fod yn daid a nain. Ganwyd mab i Martin a'i wraig.
– I Yvonne Parry, Tref Eilian, ar ei phriodas â Roger Gossett.
– I Brian a Shirley, Pant Waun, ar enedigaeth mab, Ieuan Tomos, ac i Mr a Mrs Huw Parry, Bro Waun, ar fod yn daid a nain.
– I Eilian Wynn Jones, Bron Eifion, ar ei briodas yn ddiweddar i Elizabeth Marie Pinto, yn Llundain.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad buan i'r rhai sydd yn cwyno yn yr ysbyty, sef Mrs Maureen Griffiths, Bryn Eilian, Mr Emlyn Davies, Bodwyn, Mrs George Taylor, Baladeulyn, Mari Bevan, Gorsaf yr Heddlu, a Mrs M. Williams, 10 Tref Eilian.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Sefydliad y Merched yn Festri Croesywaun ar nos Iau, Tachwedd 7 gyda Mrs Pat Parry yn llywyddu. Darllenwyd y Llythyr Misol a thynnwyd sylw'r aelodau at y gwahanol weithgareddau i'w cynnal. Trefnwyd yr ymweliad â Gorsaf Bŵer Dinorwig, Llanberis ar nos Fercher, Tachwedd 13.

Cafwyd adroddiad gan Mrs C.A. Jones ar Gyfarfod yr Hydref a gynhaliwyd yn Ysgol Aberconwy ar Hydref 17.

Croesawodd Mrs Pat Parry Mrs Ann Noutch, Pentrefelin i'r cyfarfod. Ymgymerodd Mrs Noutch â'r gwaith o ddewis pwyllgor newydd. Enwebwyd rhai ar gyfer y pwyllgor ac etholwyd y swyddogion canlynol: Llywydd: Mrs Pat Parry, Ysgrifennydd: Mrs K. Wynn Jones, Trysorydd: Mrs C.A. Jones.

Eglurodd Mrs Noutch y rheswm dros yr apêl i godi arian tuag at atgyweirio Coleg Denman. Diolchwyd i Mrs Noutch a'r pwyllgor gan Mrs C.A. Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Pat Parry.

PRIODAS: Yng nghapel Croesywaun ar Hydref 19 priodwyd Linda Wyn Jones, Crud yr Awel â Huw Alan Roberts, 51 Heol Newydd, Porthmadog. Gweinyddwyd gan y Parch Gareth Maelor Jones a'r Parch Brynmor Jones. Cyflwynwyd y briodferch i'r priodfab gan ei thad Mr Meirion Wyn Jones. Y morynion oedd Miss Ann Roberts, Miss Nia Jones, Miss Bryane Roberts a Miss Ffion Edwards gydag Iwan Hughes Jones fel gwas bach. Y gwas priodas oedd Mr John Roberts. Y delynores oedd Mrs Megan Roberts, Llanrug. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Bodawen, Porthmadog.

DIOLCH: Dymuna Alan a Linda ddiolch o galon i'r holl deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Nos Lun, Hydref 28 yn y Ganolfan cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor pan ddaeth y Parch John Alun Roberts, Abergele atom i ddarlithio ar hanes ei fagwraeth yn Llanllechid. Cawsom orig ddifyr yn ei gwmni. Llywydd y noson oedd Mr Emlyn Davies, Bodwyn a thalwyd y diolchiadau gan Mr R. Gwynn Davies, Bryn Eithin. Nos Lun, Tachwedd 4 'roedd neuadd y Ganolfan yn llawn i wrando ar y Parch Harri Parri, Caernarfon yn sôn am "Hen feddygon y ddafad wyllt yn Llŷn". Llywydd y noson oedd Mr Duncan Brown, Gwelfor a thalwyd y diolchiadau gan Mr Rhodri Prys Jones. Cynhelir cyfarfod fis Rhagfyr nos Lun Rhagfyr 16 pan fydd Mrs Mary Vaughan Jones, gyda chymorth sleidiau yn rhoi hanes ei thaith i Rwsia, gyda Mrs Myra Clark Turner yn llywydd y noson. Does dim amheuaeth fod y Gymdeithas Lenyddol wedi ail-ennill ei phlwy' eto, a thros drugain wedi ymaelodi.

DOSBARTH WEA: Daeth tymor y dosbarth lleol i ben nos Lun, Tachwedd 18 gyda darlith olaf Miss Nia Watkin Powell ar hanes 'Tuduriaid Môn'. Cafwyd tymor difyr dros ben gyda'r Dr Dafydd Roberts a Mr Gareth Haulfryn Williams yn ogystal â Miss Powell yn trafod gwahanol agweddau o hanes Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna Mrs Idris Jones, Goleufryn ddiolch yn gynnes iawn i bawb a gefnogodd y Bore Coffi a gynhaliwyd yn y Ganolfan, TAchwedd 2. Gwnaed elw o £110 tuag at atgyweirio'r Eglwys.

Enillwyr Tlysau a Chwpanau Waunfawr.

EISTEDDFOD ARDAL Y WAUNFAWR: Cynhaliwyd yr eisteddfod ddydd Sadwrn, Tachwedd 9 yn y Ganolfan. Croesawyd Miss Nia Einir Jones, Caerdydd a Mrs Irene Davies, Bangor, fel cadeiryddion. Y beirniaid oedd Mrs Betty Williams, Mr Aled Roberts, Mrs Carys Lloyd Evans a Mr Huw Rhydwen. Cyfeiliwyd gan Mrs Ann Marston a Mr Brian Williams gyda Mr Leslie Jones, Irene Roberts, Marion Iwan ac Eurig Wyn yn arwain y ddau gyfarfod gyda chymorth Carys Jones a Bethan Williams.

Dyma'r canlyniadau:

CYFARFOD Y PRYNHAWN: Adrodd dan 4 oed: 1. Lowri Glyn, 2. Sioned, 3. Elin a Ffiona. 4-6 oed: 1. Edryd, 2. Rhian, 3. Manon. 6-8 oed: 1. Heddus a Bethan, 2. Huw a Gerallt, 3. Llio Mair a Kristy. 8-10 oed: 1. Elin, 2. Meilir, 3. Delyth. 10-12 oed: 1. Bethan, 2. Rhys ac Osian, 3. Ella. Parti Adrodd dan 10 oed: 1. Parti Genethod, 2. Parti Cymysg.

Cerdd dan 4 oed: 1. Sioned, 2. Lowri Glyn, 3. Elin a Ffiona. 4-6 oed: 1. Rhian, 2. Manon, 3. Edryd. 6-8 oed: 1. Heddus, 2. Gerallt, 3. Bethan a Llio Mair. 8-10 oed: 1. Meilir, 2. Elin, 3. Anwen. 10-12 oed: 1. Rhodri, 2. Alaw, 3. Rhys ac Ella. Parti Unsain dan 10 oed: 1. Parti Gerallt, 2. Parti Valerie a Parti Pant y Waun. Parti Unsain 10-12 oed: 1. Parti Glyn Awel. Cân Actol dan 8 oed: 1. Y Nos, 2. Y Sŵ, 3. Yr Ysgol Feithrin. Cân Actol 8-12 oed: 1. Y Dynion Lliwgar, 2. Mr Men. Unawd Piano dan 8 oed: 1. Carolyn, 2. Huw, Piano 8-10 oed: 1. Elin, 2. Meilir, 3. Elain a Delyth. Piano 10-12 oed: 1. Osian, 2. Alaw, 3. Ella Wyn a Rhodri. Parti Recorders dan 12 oed: 1. Parti Blaen y Nant.

Llên: Safon 1 a 2: 1. Kailey, 2. Elain, Anwen, Bethan, Ceirion a Geraint, 3. Heddus, Penny, Ceryl, Tracey. Safon 3 a 4: 1. Osian, 2. Leanne a Bethan, 3. Gerallt ac Elin.

Arlunio: Oed Meithrin: 1. Aled Rhys, 2. Aled, 3. Iolo. Dosbarthiadau Babanod: 1. Ffion, 2. Gwenno, 3. Llinos. Safon 1 a 2: 1. Sharon, 2. Eilir, 3. Karen a Ceirion. Safon 3 a 4: 1. Leanne, 2. Heather, 3. Geraldine. Gwaith Llaw: Dau ddosbarth babanod: 1. Llion, 2. Llŷr, 3. Adam a Meirion. Safon 1 a 2: 1. Geraint, 2 Heddus, 3. Martin a Penny. Safon 3 a 4: 1. Rhodri, 2. Gerallt, 3. Diane a Bethan.

CYFARFOD YR HWYR:

Adrodd 12-15 oed: 1. Nan Wyn, 2. Elliw. 15-18 oed: 1. ac yn derbyn cwpan y pwyllgor – Huw Ynyr. Dros 18 oed: 1. Myra Turner. Parti Adrodd dros 18 oed: 1. Parti Tan y Fron. Cân Actol Agored: 1. Ffyliaid Giwrion. Cerdd Unawd Recorder dan 12 oed: 1. Ella, 2. Osian, 3. Rhodri a Delyth. Unawd offeryn cerdd dan 12 oed: 1. Kevin, 2. Ella, 3. Osian, 4. Leanne. Unawd offeryn cerdd 12-15 oed: 1. Euros, 2. Gwennan, 3. Gwyn a Robin. 15-18 oed: 1. Anthony, 2. Iwan. Gwobr Mr Leslie Jones am yr offerynwr gorau dan 18 oed – Anthony Marston.

Unawd Piano 12-15 oed: 1. Dylan, 2. Wayne a Karen, 3. Elliw. 15-18 oed: 1. Iwan, 2. Joanna, 3. Huw Ynyr. Gwobr goffa Mrs Rear am y cystadleuydd mwyaf addawol dan 18 oed – am yr eildro – Iwan Ellis.

Unawd 12-15 oed: 1. Elliw, 2. Gwennan. Unawd 15-18 oed – ac yn derbyn cwpan H.O. Jones – neb yn cystadlu.

Unawd Cân Werin dan 18 oed: 1. a cwpan Alun Williams – Rhys Siôn.

Cerdd dant dan 18 oed: 1. Elliw. Deuawd dan 18 oed: 1. Karen a Sian, 2. Rhodri a Geraint. Parti Unsain dan 18 oed: 1. Parti Gareth. Emyn dros 40: 1. Wmffra, 2. Alun. Cân Werin dros 18 oed: 1. Wmffra, 2. Alun. Unawd Gymraeg Agored: 1. Alun, 2. Wmffra, 3. Jeanette. Deuawd Agored: 1. Ann a Jeanette; Alun ac Wmffra. Parti Pensiynwyr: 1. Pensiynwyr y Waun. Côr neu barti: 1. Dyn a ŵyr, 2. Munud Olaf. Llên, 11-15 oed: 1. Rhys Siôn a Nan Wyn. 2. Sian Llwyd, 3. Nia Llwyd. 15-18 oed: 1. Llion Iwan. Brawddeg: Robat Williams a Rhodri Prys. Stori Fer: 1. Rhian Ellis. I'r dysgwyr: 1. Jill Brown, 2. Margaret Eaglestone. Parodi: 1. Sylvia Jones, 2. Olwen Williams ac Eurig Wyn. Llinell Goll: 1. Robat Williams, 2. Dewi Jones, 3. Rhian Ellis.

Arlunio 11-15 oed: 1. Wayne Owen, 2. Joanne Tame, 3. Rhys Siôn. Sgets Pensil: 15-18 oed: Adrian Owen. Caliograffeg: Sioned Glyn. Arlunio Agored: 1, 2 a 3: Mr Gwilym Hughes. Coginio dan 15 oed: 1. Sian Llwyd, 2. Bethan Wyn, 3. Nia Llwyd a Kailey, 4. Delyth. Agored: Bara Brith: 1. Glenys Williams, 2. Beryl Jones, 3. Rhian Evans. Tarten Afal: 1. Glenys Williams, 2. Heulwen Huws, 3. Heulwen Jones. Taffi Triog: 1. Jill Brown, 2. Glenys Williams, 3. Heulwen Huws. Gwaith Llaw: 11-15 oed: 1. Nia Llwyd. Siwmper: 1. Llinos Cadwaladr, 2. Mrs Gweneirys Jones, 3. Elena Jones. Gwnïo Dilledyn: 1. Jill Brown. Addurn Bwrdd: 1. Mrs Gweneirys Jones, 2. Glenys Williams. Ffotograffiaeth: 1. Joanne Greasley, 2. Bob Eaglestone, 3. Dic Jones. Sleid: 1. Duncan Brown, 2. David Greasley, 3. Bob Eaglestone.

Dymuna'r ysgrifenyddes ar ran y pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd yr eisteddfod mewn unrhyw ffordd.

Eisteddfodwyr ifanc Waunfawr.

CROESAIR RHAGFYR



AR DRAWS:
1. Buwch goch ... (4)
7 a 21. Ffordd John Roberts Williams o edrych ar bethau (4,2,7)
8. "Y Ferch o Gefn ..." (4)
10. Y ferch â'r pen aur (3)
11 a 20 i lawr. Arwr a theitl un o nofelau TRH (7,5)
12. Cymar Efa (3)
13. Cymell (5)
17 ac 1 i lawr. Dewi Pws yw seren y rhaglen (5,5)
19. Preswylio (3)
21. Gw. 7
22. O gwmpas (3)
23. Mae lwan yn gywir (4)
25. Mae'r defnydd yn ei lonni (6)
26. Llinach (4)

I LAWR:
1. Gw. 17 ar draws
2. Afon ym Morgannwg (3)
3. Newid o'r glaw i wneud adolygiad (6)
4. Trefniant er mwyn tâl ar ôl anap, ac yn y blaen (7)
5. Dyna yw Superior neu Huron (3,4)
6. Anwadal (6)
9. Wena yw ysbrydoliaeth y bardd (4)
14. Poendod (7)
15. Oherwydd (7)
16. Mynachlogydd (6)
17. Nonsens! (3,3)
18. Cyfarfod mawr (4)
20. Gw. 11 ar draws
24. Amser; y rhan fwyaf o rŵan (3)

Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, FF, NG, LL, PH, RH, TH.

Anfonwch eich cynigion at Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2 o wobr i'r sawl sy'n anfon y cynnig cywir cyntaf i'w dynnu o'r het.

ATEBION CROESAIR TACHWEDD: AR DRAWS: 1. Opws, 7. Dyffryn, 8. Wybr, 10. Wyth, 11. Iechyd da, 12. Dai, 13. Arogl, 17. Hualu, 19. Yli, 21. Dallineb, 22. Daw, 23. Rŵan, 25. Ymofyn, 26. Atom.

I LAWR: 1. Ogwen, 2. Wib, 3. Rhy uchel, 4. Credoau, 5. Enwadol, 6. Syth bin, 9. Rifo, 14. Reidwyr, 15. Gwalltog, 16. Tyndra, 17. Henffych, 18. Ambr, 20. Dinam, 24. Wfft.

Enillydd: M. Williams, 3 Bro Syr Ifor, Tregarth.

Waunfawr *(Parhad)*

DIOLCH: Dymuna Mrs Betty Griffiths, Gorffwysfa, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd iddi tra yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dychwelyd gartref.

ADREF O'R YSBYTY: Gobeithiwn yn arw bod Mr R. Jones, Bryn Peris, Mr Richard Rowlands, Bryn Golau, a Mrs Llywela Davies, Tref Eilian, yn gwella ar ôl eu harhosiad yn yr ysbyty. Ein dymuniadau gorau iddynt.

YR URDD: Cafwyd noson Guto Ffowc lwyddiannus eto eleni er gwaetha'r tywydd. Er i'r glaw wlychu rhywfaint ar y goelcerth ardderchog a godwyd gan y bechgyn hŷn, cafwyd tân da ac arddangosfa dân gwyllt wrth fodd pawb. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i Mr a Mrs Griffiths, y Llythyrdy, am eu caredigrwydd.

Yn y cyfarfodydd eraill yn ystod mis Tachwedd, cafodd y plant noson o chwaraeon yng ngofal Gareth Jones, yr arweinydd, a noson o ffilmiau fideo. Gobeithir trefnu ymweliad â'r pwll nofio ar Dachwedd 27ain yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon.

Ar Ragfyr 11 am 6.00 byddwn yn cynnal ein Noson Garolau flynyddol yng nghwmni Dafydd Iwan. Gwneir casgliad yno, a bydd yr arian yn cael ei roi at achos da. Dewch atom i wrando ar Dafydd a'r plant ac i ganu gyda nhw – cewch baned hefyd.

Clywsom yn ddiweddar am anawsterau ariannol yr Urdd, a'r effaith y gallai hyn gael ar y mudiad. Mae'n fwriad gan y pwyllgor i wneud apêl am arian i helpu'r Urdd yn eu trafferthion ariannol. Cafodd llawer o blant y pentref fudd mawr o fod yn aelodau o'r mudiad yn y gorffennol, ac 'rydym yn gobeithio'n fawr y gwnewch gefnogi unrhyw ymdrech i godi arian i sicrhau a diogelu ei ddyfodol.

CLWB GWYRFAI: Yn absenoldeb y Rheithor llywyddwyd cyfarfod o'r clwb ar Hydref 24 gan Mrs Parry-Williams, gyda Mrs Jones, Eilian Terrace yn gweithredu fel ysgrifenyddes. Darllenwyd llythyr oddi wrth Mrs Jones-Evans yn diolch am y llythyrau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty.

Mrs Morgan-Jones, is-lywydd y clwb oedd y siaradwr. Rhoddodd fraslun o weithgareddau'r pentre o'r gorffennol hyd y presennol. Hefyd cawsom hanes diddorol o darddiad Gwasg Gregynog a dangosodd rai o lyfrau prin o argraffiad cyntaf y wasg arbennig yma. Diolchodd Mrs Ifan Hughes yn gynnes iawn i Mrs Jones. Enillwyd y raffl gan Miss Roberts, 'Rardd Isa'.

Bu'r cyfarfod dilynol ar Dachwedd 7 a'r Rheithor y Parchedig Barry Thomas yn llywyddu. Croesawodd Mrs Mary Vaughan Jones yn wraig wadd a chafwyd pnawn diddorol iawn ac addysgiadol yn ei chwmni. Mae Mrs Jones wedi ymweld â Hwngari lawer gwaith, gan iddi ddod i adnabod teulu o'r wlad pan oedd yn athrawes Bioleg yn Ysgol Brynrefail.

Cawsom hanes eu ffordd o fyw a'r rhyddid maent yn ei fwynhau o gofio mai gwlad gomiwnyddol yw. Roedd ganddi luniau ardderchog o'r wlad a'i ffermydd eang a diolchodd Mr Overly iddi yn gynnes iawn. Rhoddwyd y raffl gan Miss Owilda Williams a'r derbynydd oedd Mrs Mwynwen Jones.

DYDDIADUR RHAGFYR

2, Llun: PENISARWAUN: Swper Blynyddol Clwb yr Heulwen yn y 'Foelas' Llanrug
LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
DEINIOLEN: Cyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched.
3 Mawrth: DEINIOLEN: Clwb Elidir
4, Mercher: CWM-Y-GLO: Clwb y Mamau a Merched Ifanc.
PENISARWAUN: Yr Urdd – Cwis gan Mr Glyn Evans.
BETHEL: Swper Nadolig gan Glwb y Mamau i Glwb Bro Bethel yn Festri Capel Bethel.
5, Iau: YR ARDAL: Clwb Eryri.
WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai.
Sefydliad y Merched.
Cinio Nadolig Clwb y Mamau yn y 'Prince Llywelyn', Beddgelert.
DEINIOLEN: Cymdeithas y Chwiorydd Disgwylfa.
LLANBERIS: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched, yn y Padarn Lake.
6, Gwener: WAUNFAWR: Cangen Plaid Cymru – Ffair Nadolig yn y Ganolfan am 6.30.
LLANBERIS: Cangen Plaid Cymru – Ffair Nadolig yn y Ganolfan am 6.30.
DEINIOLEN: Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Ngwesty 'Lakeview', Llanberis.
7, Sadwrn: PENISARWAUN: Trip i Fanceinion.
10 Mawrth: BETHEL: Y Gymdeithas Lenyddol.
11, Mercher: WAUNFAWR: Yr Urdd – Noson o Garolau yng nghwmni Dafydd Iwan.
PENISARWAUN: Yr Urdd: Noson o Gân gyda Mr Arwel Jones.
BETHEL: Cinio Nadolig Merched y Wawr ym Mhlas Menai.
12, Iau: WAUNFAWR: Bore Coffi er budd yr Ysgol Feithrin yn y Ganolfan am 10 am.
DEINIOLEN: Swper Nadolig Clwb Elidir yn y 'Foelas', Llanrug.
13, Gwener: LLANBERIS: Cinio Nadolig Clwb y Mamau yn y 'Fourcrosses', Y Borth.
Te yr Henoed.
DEINIOLEN: Yr Ysgol Feithrin – Parti Nadolig i'r mamau yn y 'Felin Wen', Pontrug.
DEINIOLEN: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yn y 'Foelas', Llanrug.
14, Sadwrn: DEINIOLEN: Cinio Nadolig Cangen Plaid Cymru yn y 'Victoria', Llanberis.
16, Llun: WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan – Sgwrs gyda sleidiau gan Mrs Mary Vaughan Jones ar ei thaith i Rwsia.
LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
PENISARWAUN: Y pentrefwyr yn canu Carolau o amgylch y pentref.
17, Mawrth: PENISARWAUN: Disgo'r Urdd yn Neuadd yr Eglwys.
18, Mercher: YR Ardal: Swper Nadolig Cymdeithas Hanes Bro'r Eco ynghyd â sgwrs ar 'Draddodiadau Nadolig' gan Mr John Owen Huws, Waunfawr.
19, Iau: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai.
LLANBERIS: Bingo Arbennig a Bwyd yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30.
DINORWIG: Y Gymdeithas Undebol – Gwasanaeth Carolau dan ofal Mrs Annette Bryn Parri a Miss Olwen Bryn Roberts.
20, Gwener: LLANBERIS: Noson o Garolau 'Pwnsh a Pei' yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. Yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa.
PENISARWAUN: Te Parti Nadolig plant Ysgolion Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen.
23, Llun: PENISARWAUN: Swper Nadolig yng Ngwesty 'Dingles', Dinas Dinlle.
30, Llun: PENISARWAUN: Ymweliad yr Urdd â Theatr Gwynedd i weld Pantomeim 'Go Fflamia'.

YN EISIAU

Gofalwr i Gapel Bethel Waunfawr. Telerau gan Arthur Ellis, Min-y-nant, Waunfawr 501. Ceisiadau erbyn Rhagfyr 15fed.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

£10: Moi a Mair Parry, Ontario, Canada.
£5: W. a G. Chick, Cwm-y-glo; Mrs Gracie Roberts, Waterfall View, Llanberis; Er cof am Mam ac Anti May, Stryd Charlotte, Llanberis – Mrs Liz Roberts, Bangor.
£3: Mrs Doris Pleming, Deiniolen
£2: Mr a Mrs Peter Williams, Llwyn Derw, Penisarwaun; Mrs Betty Hughes, Stryd yr Wyddfa, Llanberis; Di-enw Deiniolen; Mr a Mrs Williams, Pennant, Nant Peris; Di-enw Tan-y-coed.
£1: Arthur Owen, 29 Stryd Newydd, Deiniolen; Di-enw Deiniolen; Teulu Trem y Môr, Deiniolen; Enid Jones, Talysarn.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

AR AGOR 9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU SUL, MERCHER.

Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)



GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

CHWARAEON

YR IFANC YN DANGOS EU DONIAU

TIMAU PÊL-DROED CYNGHRAIR GWYRFAI

Tîm dan 16 oed Llanrug a oedd yn chwarae yn erbyn tîm Cwm-y-glo ar fore Sadwrn, Tachwedd 23ain ar gae Ysgol Brynrefail. Tymor digon siomedig fu hi i'r hogiau hyd yn hyn. Maent wedi chwarae naw gêm, wedi colli wyth ohonynt a dod yn gyfartal yn y llall. Colli fu eu hanes ddydd Sadwrn hefyd, a thîm Cwm-y-glo yn sgorio naw gôl yn erbyn tair gan Llanrug. Siawns na ddaw gwell lwc ar ôl y 'Dolig.

Tîm llwyddiannus Cwm-y-glo sy'n chwarae yng Nghynghrair Gwyrfai i fechgyn dan 16 oed. Maent wedi chwarae deg gêm hyd yma, ac wedi ennill pump ohonynt (gan gynnwys y grasfa i Lanrug ar y Sadwrn y tynnwyd y llun); dod yn gyfartal ddwywaith, a cholli tair gêm yn unig. Ond rhag i Gwm-y-glo frolio gormod, mae bechgyn o bentrefi eraill y fro yn chwarae iddynt hefyd, gan gynnwys rhai o Lanrug!

Tîm ieuenctid Deiniolen yn arddangos eu crysau newydd, rhodd gan Len Jones, saer coed lleol. Yn y llun mae Elfed Williams, y Rheolwr (chwith), Len Jones (canol) ac Eurwyn Jones yr Hyfforddwr (ail o'r dde). Mae record go anghyffredin gan dîm Deiniolen; record yr hoffent yn fawr iawn cael gwared â hi. Ers 1969, sef blwyddyn sefydlu'r tîm fel aelodau o Gynghrair Gwyrfai, maent wedi chwarae pob gêm "oddi cartref". Maent ar hyn o bryd yn defnyddio cae Ysgol Brynrefail. Gobaith mawr y tîm yw cael chwarae gêm "gartref" rywdro. Oes rhywun â chae addas i'r hogiau yn Neiniolen?

HOGIAU DAN 12 oed LLANRUG

Mae'n fwriad sefydlu cystadleuaeth dan 12 oed i dimau o fechgyn yng nghylch Cynghrair Gwyrfai. Mae'r ymateb hyd yn hyn wedi bod yn galonogol. Cynhaliwyd dwy sesiwn ymarfer yn Llanrug yn barod, dan hyfforddiant Dafydd Arfon Jones. Daeth dros ugain o fechgyn lleol i'r ddwy sesiwn gyntaf, a phob un yn mwynhau eu hunain yn y glaw! Disgwylir chwarae gêm yn erbyn bechgyn dan 12 oed cylch Llanberis yn ystod mis Rhagfyr. Mae felly'n argoeli'n well i dîm dan 16 oed Llanrug ar gyfer y dyfodol.

Dafydd Jones, capten tîm Deiniolen yn diolch i Len Jones am y rhodd o grysau newydd i'r tîm.

CODI PWYSAU PWER – LLWYDDIANT I GLWB DINORWIG

Llongyfarchiadau i Gerwyn Jones o Glwb Codi Pwysau Pwer Dinorwig ar ei lwyddiant ym Mhencampwriaethau Eilradd Cymru yn Abertawe yn ddiweddar. Gerwyn enillodd yn y dosbarth 67½ cilo a dyma'r dyma'r tro cyntaf iddo gystadlu ar y lefel yma. Ymddengys fod dyfodol disglair o'i flaen.

Caiff Gerwyn gwmni ei hyfforddwr Len Jones, a Raymond Jones (Cricieth), sef ei gyd-aelodau o Glwb Codi Pwysau Pwer Dinorwig ar Ragfyr 9 yn Abertawe eto. Bydd y tri ohonynt yn cynrychioli Gogledd Cymru mewn gornest yn erbyn y De. Anrhydedd i Glwb Dinorwig a chlod i'r hyfforddwr yw cael tri aelod, allan o saith yn y tîm.

RAS HWYL Y NADOLIG – O AMGYLCH LLYN PADARN

Ar fore Sul, Rhagfyr 22ain, bydd Clwb Rhedwyr Eryri yn cynnal Ras Hwyl i redwyr a cherddwyr o amgylch Llyn Padarn. Bydd y ras hwyl yn cychwyn o Westy'r Victoria, Llanberis am chwarter i unarddeg y bore, gan ddilyn y llwybr heibio i gefn hen Ysbyty'r Chwarel a thrwy'r coed i ffordd Fachwen. Yna, dilynir y ffordd (mae ar hyn o bryd ar gau i drafnidiaeth, ac felly'n eithaf diogel) i lawr hyd Ben-y-llyn, a dilyn yr hen ffordd heibio i Graig yr Undeb at y twnnel. Mae'r daith yn ôl i Lanberis yn dilyn cwrs yr hen reilffordd. Mae'r pellter tua pedair milltir a hanner.

Yn dilyn y rhedeg neu'r cerdded bydd cawl a mins pei i bawb yn y Vic. – a thystysgrif i brofi eich bod wedi cwblhau'r cwrs! Mae'r Clwb yn estyn gwahoddiad i bawb sy'n dymuno ymuno'n yr hwyl. Deallwn fod Siôn Corn ei hun yn rhedeg, ac y mae siawns i ennill twrci mewn raffl. Pris i unigolion fydd £1. Gellir anfon enwau a thâl i Dafydd Ellis, 11 Stryd Gelert, Caernarfon erbyn Rhagfyr 18ed.